



Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 5ED GORFFENNAF, 2016**

**NODER AMSER Y CYFARFOD**

Lleoliad

**Siambwr Hywel Dda, Council Offices, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Ann Roberts**

**01286 679780**

**[annelizabethroberts@gwynedd.llyw.cymru](mailto:annelizabethroberts@gwynedd.llyw.cymru)**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 27 Mehefin 2016)

## **PWYLLGOR IAITH**

### **AELODAETH (15)**

#### **Plaid Cymru (8)**

Y Cynghorwyr

Craig ab Iago  
Alan Jones Evans  
Charles Wyn Jones  
John Wyn Williams

Elwyn Edwards  
Gweno Glyn  
R. Hefin Williams  
Sedd Wag - Plaid Cymru

#### **Annibynnol (4)**

Y Cynghorwyr

Thomas G. Ellis  
Eirwyn Williams

Eric M. Jones  
Elfed Williams

#### **Llais Gwynedd (3)**

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd

Owain Williams

#### **Llafur (1)**

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

#### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

#### **Aelod arall a wahoddir**

Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn, Aelod Cabinet – Y Gymraeg

# **R H A G L E N**

## **1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2016/17

## **2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2016/17

## **3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## **4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## **5. MATERION BRYD**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried

## **6. COFNODION**

5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21/04/2016 fel rhai cywir (ynghlwm)

## **7. ADRODDIAD YR AELOD CABINET - Y GYMRAEG**

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet – y Gymraeg

- 8. CWYNION IAITH** 8 - 9

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith

- 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL I'R COMISIYNYDD IAITH** 10 - 27

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith

- 10. AWDIT IAITH - CANLYNIADAU IAITH A CHYNLLUN GWEITHREDU** 28 - 33

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith

- 11. YMCHWILIAD IAITH - GWELEDEDD Y GYMRAEG YNG NGWYNEDD** 34 - 35

Derbyn diweddariad ar waith yr Ymchwiliad

- 12. ADRODDIAD Y GWEITHGOR AR YR IAITH GYMRAEG A LLYWODRAETH LEOL** 36 - 79

- 13. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR IAITH AR GYFER 2016-17** 80

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith

---

## PWYLLGOR IAITH, 21.04.16

---

**Yn bresennol:** Y Cyngorydd Gweno Glyn (Cadeirydd)

**Y Cyngorwyr:** Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Charles W. Jones, Eric M. Jones, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams ac Owain Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

**Swyddogion:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr – Cefnogaeth Gorfforaethol), Gwenllïan Williams (Swyddog Datblygu Iaith), Geraint Owen, (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) ac Ann Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau.

### 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2016 fel rhai cywir.

Eglurwyd nad oedd y cyfarfod gyda Phrif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd i drafod y cyfleoedd a'r pryderon wedi cymryd lle eto oherwydd bod y Prif Weithredwr wedi colli ei dad yn ddiweddar. Mae'r cyfarfod wedi ei ail-drefnu i ddigwydd yfory, 22 Ebrill 2016.

### 3. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes, gan gynnwys y canlynol:-

- Y gwaith Cymunedol Hunaniaith wedi ei gwblhau am y flwyddyn gyda gwaith da yn digwydd, ond bod ceisio gweld beth yw effaith y gwariant yn profi yn anodd.
- Wedi penodi Rheolwr Canolfan Iaith Bangor.
- Wedi cynnal trafodaeth gychwynnol efo Dr. Rhian Hodges o Brifysgol Bangor ac yn disgwyl awgrymiadau ymarferol ar i fesur llwyddiant.
- Y Siarter Iaith yn ei lle ers tair blynedd yn yr Ysgolion Cynradd ac wedi cychwyn yn yr Ysgolion Uwchradd. Mae wedi ei lledaenu ar draws Ysgolion Cynradd Gogledd Cymru ond mae angen trefn ddadansoddol gadarn.
- Wedi cynnal Awdit Iaith ar staff Cyngor Gwynedd gyda'r holiaduron i mewn.
- Ceisio ymrwymiad i gynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg cyrff allanol trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Y gwaith o drefnu cyfarfodydd efo'r cyngorau eraill er agor deialog ar hybu defnydd o'r iaith yn cychwyn mis nesaf.

Trafodwyd y materion a ganlyn:-

#### (A) Defnydd a Safon yr Iaith Gymraeg

Trafodwyd yr iaith Gymraeg a ddefnyddir gan staff y Cyngor a'r nôd a sefydlwyd ym Mholisi Iaith y Cyngor. Cytunwyd bod angen adnabod cynulleidfya a defnyddio'r iaith

briodol. Nododd yr Uwch Reolwr – Cefnogaeth Gorfforaethol mai un o'r gwendidau oedd yn cael ei weld oedd bod iaith y Cyngor yn fwy cymhleth nag oedd rhaid iddo fod. Nodwyd hefyd bod hyder staff yn ffactor a bod y gefnogaeth sydd ar gael yn gweithio er rhaid deall bod magu hyder yn cymryd amser ac y bydd sawl lefel o gyrhaeddiad.

Cyfeiriodd aelod at yr angen i daclo'r diffyg o ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar ffonau digidol a dulliau cyfathrebu digidol eraill yn hytrach na chanolbwyntio ar safonau iaith a cheisio ennill y plant drosodd i'r Gymraeg drwy chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Adroddwyd bod gwersi i'w dysgu o Wlad y Basg. Nodwyd bod angen ateb gwahanol ym mhob ardal o Gymru yn hytrach nag un cynllun ar gyfer Cymru gyfan. Cyfeiriodd aelod at waith da'r Siarter Iaith a'r gwaith datblygu 'Apps' Gymraeg yn llwyddiannus gyda Chwmni Da wedi bod yn dysgu plant.

Cyfeiriwyd at y mater o geisio cael rhieni i siarad Cymraeg efo'r plant. Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr – Democratiaeth a Chyflawni at y ffigyrau sydd yn dangos llithriad yn y defnydd o'r iaith Gymraeg gan blant unwaith maent yn symud i'r Uwchradd gyda'r angen i adnabod pam bo hyn yn digwydd ac ystyried sut i'w ddatrys.

#### **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

#### **4. CWYNION IAITH**

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith yn manylu ar y cwynion iaith ddiweddaraf i law.

Trafodwyd yr ymholiad am enw Saesneg ar fap Arolwg Ordnans, sef Black Rock Sands. Awgrymwyd y dylid defnyddio'r enw Cymraeg a'r enw Saesneg. Eglurwyd bod Arolwg Ordnans yn dewis enwau ar sail defnydd lleol o unrhyw enw a bod yn rhaid i'r Cyngor fod yn barod i'r her hwn. Nodwyd y dylid ceisio sicrhau defnyddio'r enwau Cymraeg cynhenid i geisio atal y dirywiad yn nefnydd o enwau lleoedd Cymraeg.

#### **PENDERFYNWYD yr angen i**

- a) Sicrhau bod unrhyw sgysiau ar y ffôn gydag Arolwg Ordnans yn cael eu cofnodi.
- b) Sicrhau bod Arolwg Ordnans yn ymgynghori gyda Chynghorau Tref / Cymuned leol cyn penderfynu ar ba enw i'w roi ar fapiau Arolwg Ordnans.
- c) Gofyn i'r Swyddog Datblygu Iaith gasglu tystiolaeth o hen fapiau Arolwg Ordnans ac unrhyw lyfrau hanesyddol am yr ardal i gadarnhau'r enw cynhenid a ddefnyddir cyn trafod ymhellach gyda'r Arolwg Ordnans.

#### **5. SAFONAU IAITH A PHOLISI IAITH I'R CYNGOR (MATERION CYFLOGAETH)**

Cyflwynwyd yr adroddiad ar gais yr aelodau er cael gwell dealltwriaeth am y Safonau Iaith a'r categoreddio.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol ac adroddodd ar y problemau a adnabuwyd. Eglurodd bod lefelau iaith wedi'u dynodi ar gyfer cyflawni gofynion swyddi er hynny nid oes sicrwydd bod pob Rheolwr wedi rhoi ystyriaeth ddigonol wrth ddynodi lefel briodol ar gyfer y swyddi a bod angen adolygu'r lefelau iaith a ddynodwyd ar gyfer pob swydd. Yn ogystal, adroddwyd nad oes meini prawf cydnabyddedig yn perthyn i'r lefelau presennol a bod unrhyw asesiad yn ddibynnol ar ddehongliad a barn broffesiynol y Cyd-gysylltydd mewn ymgynghoriad hefo'r rheolwr llinell. Adroddodd ar y bwriad i'r Tiwtor Iaith ddefnyddio'r cynllun asesu a nodir yn Atodiad 2 sydd yn gosod lefelau iaith ymarferol

sydd yn cyd-fynd â lefelau iaith CBAC i asesu cyrhaeddiad swyddogion yn erbyn y gofynion iaith.

Nodwyd ymhellach bod angen gosod amserlen gytunedig ar gyfer cyrraedd y gofynion iaith ond y byddai'n ofynnol i'r amserlen honno fod yn hyblyg ac wedi'i haddasu ar gyfer gofynion iaith pob sefyllfa yn unigol.

Mewn ymateb i gais aelod am ffigyrau o ran cynnydd swyddogion yn cyrraedd y gofynion, cadarnhaodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol bod swyddogion yn gwneud cynnydd a bod yna lwyddiannau mawr sydd yn arwain at gyflwyno gwobr Dafydd Orwig yn flynyddol.

Mewn ymateb i bryder yr aelodau nad yw amodau'r Cyngor yn cael eu gwireddu, adroddwyd bod lle i sicrhau bod Penaethiaid Adran yn cyfeirio'r swyddogion ymlaen at y Tiwtor iaith.

Eglurwyd y bwriedir cyflwyno manylion yr hyn gaiff ei argymhell i'r Grŵp Rheoli fel y cam nesaf, gan yna raglennu ymgynghoriadau gyda rheolwyr gwasanaeth ar draws y Cyngor.

Mewn ymateb i ymholiad aelod ar y rheswm pam nad yw'r Cyngor yn penodi swyddog ar lefel y gofynion iaith, eglurwyd bod diffyg siaradwyr Cymraeg ar gyfer rhai swyddi yn enwedig mewn rhai ardaloedd penodol yn y Sir.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol y bydd tystiolaeth gadarn o dan y Cynllun newydd hwn i arddangos os yw swyddogion yn cyrraedd gofynion iaith berthnasol i'w swydd.

Mewn ymateb i ymholiad Aelod paham bod prif swyddogion wedi'u heithrio o'r Polisi Tanberfformiad a gynhwyswyd fel atodiad i'r adroddiad, eglurwyd bod y swyddogion hyn yn gweithio dan amodau gwaith gwahanol a bod polisi cyfatebol ar eu cyfer hwythau hefyd.

O ran amserlen eglurwyd y bydd y Cynllun yn cael ei roi ar waith yn syth gyda'r Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol a'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu yn codi ymwybyddiaeth o'r trefniadau newydd.

#### **PENDERFYNWYD**

**a) Cymeradwyo'r Cynllun**

**b) Gofyn i'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol gyflwyno adroddiad cynnydd yn erbyn y Cynllun i'r Pwyllgor iaith ymhen 12 mis.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 3.25pm.

# Eitem 8

<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	05 GORFFENNAF 2016
<b>TEITL:</b>	CWYNION IAITH
<b>AWDUR:</b>	GWENLLIAN MAIR WILLIAMS SWYDDOG DATBLYGU IAITH
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR.

## CWYNION YN YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU IAITH (Derbynnir gan Swyddfa'r Comisiynydd Iaith)

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
20/04/2016	Cyf: <b>CSG55</b> Honiad bod y Cyngor wedi gosod arwyddion uniaith Saesneg ar flaen tai Rhes Victoria, Llanberis	Cadarnhawyd nad y Cyngor oedd yn gyfrifol am yr arwyddion, ac nad oedd perchnogion y tai wedi ceisio unrhyw ganiatâd i roi arwyddion o'r fath i fyny.  Derbyniwyd yr ateb a chaewyd yr achos heb ymchwiliad.
10/05/2016	Cyf: <b>CSG67</b> Honiad i'r Cyngor annog hysbysebu trwydded eiddo yn Saesneg	Cadarnhawyd nad cyfrifoldeb y Cyngor yw gosod gofynion iaith hysbysebu, ond yn hytrach mai cyfrifoldeb yr unigolyn sydd yn gwneud cais yw sicrhau bod hynny yn cael ei wneud yn briodol. Cyfeiriwch at gŵyn CI1602 isod am fwy o wybodaeth. <b>Camau pellach:</b> Canllawiau a chyngor a roddir i ymgeiswyr yn cael ei adolygu. Ystyried darparu brawddeg dempled fydd yn cyfeirio'r cyhoedd at wefan y Cyngor lle bydd crynodeb ddwyieithog ar gael o unrhyw gais.  Derbyniwyd yr ateb a chaewyd yr achos heb ymchwiliad.

## CWYNION UNIONGYRCHOL AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
14/04/2016	Cyf: <b>CI1602</b> Derbyniwyd cwyn gan y AS Liz Saville Roberts bod aelod o'r cyhoedd wedi derbyn cyngor gan swyddog o'r Uned Drwyddedu i hysbysebu trwydded eiddo yn uniaith Saesneg yn y wasg.	Ymchwiliwyd i'r mater a chanfod bod camddealltwriaeth am y cyngor a roddwyd. Cafwyd cyngor cyfreithiol hefyd er mwyn egluro union rôl a chyfrifoldeb y Cyngor yn y mater. Esboniwyd yn yr ymateb i'r AS nad oes gan y Cyngor rym i orfodi unigolyn i hysbysebu mewn un iaith neu'r llall, ac mai'r cyngor a roddir fel rheol yw hysbysebu yn ddwyieithog yn y wasg er mwyn osgoi unrhyw heriau a chamddealltwriaeth. Yn y pen draw, dewis yr unigolyn yw iaith hysbysebu.  <b>Camau pellach:</b> Mae'r uned drwyddedu yn ystyried addasu geiriad y canllaw a roddir i ymgeiswyr er mwyn galluogi hysbysebu uniaith os mai dyna ddewis yr unigolyn. Gallai gynnwys cymal neu frawddeg dempled, i'w gosod ar waelod unrhyw hysbyseb cyhoeddus, fyddai yn cyfeirio'r cyhoedd at wefan y Cyngor lle bydd crynodeb ddwyieithog ar gael o unrhyw



		gais.
20/04/2016	<p>Cyf: <b>CI1604</b></p> <p>Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Cymuned Llanystumdwy yn mynegi pryderon am ddefnydd priodol o'r Gymraeg - ymwneud â pheiriannau tocynnau parcio heb opsiwn Cymraeg ac ymatebion i'r Cynllun Adnau wedi eu cofnodi yn ôl trefn yr wyddor Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg.</p>	<p>Roedd yr adran Reoleiddio eisoes yn ymwybodol o'r broblem gyda'r peiriannau tocynnau, ac yn anfodlon gyda'r sefyllfa. Adroddwyd eu bod yn trafod gyda'r cwmni darparu i weld oes posibil newid y peiriannau.</p> <p>Esboniwyd nad oedd y drefn yr oedd yr ymatebion yn ymddangos yn y rhestr ymatebion i'r Cynllun Adnau yn ganlyniad camgymeriad unigolyn ond yn hytrach yn ganlyniad defnyddio systemau Microsoft Access wrth allforio'r wybodaeth o'r gronfa ddata ganolog. Nid yw Access ar hyn o bryd yn caniatáu dosbarthu yn ôl trefn yr wyddor Gymraeg.</p> <p>Mae'r adran wedi cysylltu gydag adran TG y Cyngor a hefyd gyda'r cwmni sydd yn berchen ar feddalwedd y gronfa ddata ganolog er mwyn gweld oes ffordd o gael gwybodaeth ar y ffurf a ddymunir, heb orfod defnyddio Access yn y dyfodol.</p>
20/06/16	<p>Cyf: <b>CI1605</b></p> <p>Derbyniwyd cwyn gan Gyngorydd, ar ran Cyngor Ysgol Rhiwlas, yn nodi bod hyfforddwyr nofio'r pwll nofio ym Mangor yn siarad Saesneg gyda nhw mewn gwersi.</p>	<p>Anfonwyd ymateb at y Cyngorydd gan Uwch Reolwr y gwasanaeth yn diolch i'r cyngorydd am dynnu sylw at y mater ac yn gofyn i bennaeth yr ysgol gysylltu yn uniongyrchol gyda'r gwasanaeth i roi mwy o wybodaeth. Nid oes yr un o'r staff sydd yn cynnal gwersi nofio yn y Ganolfan ym Mangor yn methu â siarad Cymraeg, ac felly bydd angen cael manylion pellach am achosion ac enghreifftiau penodol o fethiant i gynnig gwasanaeth Cymraeg llawn er mwyn mynd i'r afael a'r broblem.</p> <p><b>Camau pellach:</b></p> <p>Mae gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn gan yr ysgol a bydd y Swyddog Datblygu Iaith yn trafod camau pellach gyda'r Uwch Reolwr.</p>

# Eitem 9

## ADRODDIAD INTERIM AR WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH

2015-2016

### 1. Cefndir gosod y Safonau iaith

Derbyniwyd hysbysiad cydymffurfio y Safonau iaith newydd ym mis Medi 2015 a daethant i rym ar y 31 o Fawrth 2016.

O'r dyddiad hwnnw, felly, nid oedd gofyniad statudol i'r Cyngor adrodd ar weithrediad ei Gynllun iaith, a ddaeth i ben ar ddyddiad gosod y Safonau. Bydd y Cyngor o hyn ymlaen yn darparu adroddiad blynyddol fydd yn cynnwys y manylion hynny y gofynnir amdanynt yn y Safonau iaith.

Gan na ddaeth y Safonau yn weithredol nes diwedd Mawrth, bydd yr adroddiad hwn yn adrodd yn bennaf ar y camau a gymerwyd a'r gweithdrefnau sydd wedi eu rhoi ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio a'r Safonau iaith.

### 2. Camau gweithredu hyd yma

Aethpwyd ati, wedi derbyn yr hysbysiad cydymffurfio, i gynnal trafodaeth gyda phenaethiaid gwasanaeth, arweinwyr y Cyngor ac aelodau er mwyn asesu a oedd unrhyw safonau yn peri pryder gwirioneddol neu oedd yn mynd i olygu gweithredu o rhyw fath.

Barnwyd bod nifer sylweddol y Safonau eisoes yn cael eu cyflawni gan staff a gwasanaethau'r Cyngor, a bod nifer fechan y byddai angen rhoi camau neu newidiadau ar waith cyn diwedd Mawrth er mwyn ein galluogi i gydymffurfio.

Roedd y camau cyffredinol a gymerwyd i ddelio a'r newidiadau fyddai eu hangen o ganlyniad i'r trafodaethau cychwynnol hyn yn cynnwys:

- Cyhoeddi copi o'r Safonau ar ein gwefan gyhoeddus, ac anfon copïau i'n prif dderbynfeydd er mwyn hysbysu'r cyhoedd am y Safonau hynny y mae'r Cyngor dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw.
- Cynnal cyfarfodydd unigol gyda swyddogion mewn gwasanaethau fyddai'n debygol o gael eu heffeithio fwyaf gan y Safonau hefyd, a'r rheiny yn cynnwys y gwasanaeth Caffael, Adnoddau Dynol, y Gwasanaethau Cymdeithasol (gan drafod effaith cronol y Safonau a Strategaeth Mwy na Geiriau), a'r tîm Dysgu a Datblygu.
- Cyhoeddi Polisi iaith newydd i'r Cyngor, fyddai yn atgyfnerthu sefyllfa'r Safonau, yn amlinellu y dull gweithredu fydd yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio a'r safonau ac yn parhau i yrru gwasanaethau'r Cyngor i weithredu y tu hwnt i'r gofynion statudol a hyrwyddo'r iaith drwy bob rhan o'u gwaith.
- Llunio canllawiau atodol i'r Polisi iaith fyddai yn cynorthwyo swyddogion yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Hyd yma mae dau ganllaw wedi eu paratoi.
  1. Canllaw Staff i'r Polisi iaith
  2. Canllaw gosod amodau ieithyddol wrth osod cytundebau

**Gwaith datblygol:**

- **Modiwl Ymwybyddiaeth iaith** – mae ymwybyddiaeth iaith eisoes yn cael ei gynnig fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant gorfforaethol, ond wedi sgwrs gyda swyddogion Dysgu a Datblygu cytunwyd i lunio modiwl ar-lein newydd fydd ar gael i bob aelod o staff y Cyngor ac a fydd yn anelu at wella ymwybyddiaeth y gweithwyr o ofynion y Safonau a'r Polisi Iaith newydd, ynghyd ag arferion da wrth gyfathrebu gyda'r cyhoedd.
- **Asesiad sgiliau iaith** – mae gwaith wedi cychwyn gan yr uned Adnoddau Dynol ar gynllun asesu sgiliau, fydd yn mynd ati i edrych ar y gofynion iaith a osodir ar gyfer swyddi a'r modd y byddwn yn monitro cynydd swyddogion wrth iddynt geisio gwella eu sgiliau iaith. Bydd hyn yn ein galluogi i dargedu hyfforddiant a chael gwell syniad o alluoedd y gweithlu i gynnig bob rhan o'r gwasanaeth yn y Gymraeg.

Yn ogystal â'r gweithredu cyffredinol, cymerwyd camau penodol i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â rhai o'r Safonau:

Safon	Dosbarth	Geiriad y Safon	Camau Gweithredu.
67	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.	Rhannwyd pecynnau poster a bathodynau/cortyn gwddw iaith Gwaith i bob un o brif dderbynfeydd y Cyngor gydag esboniad o'r ymrwymiad i'w defnyddio yn y Safonau. Mae'r un adnoddau ar gael i unrhyw weithiwr rheng flaen sydd yn dymuno eu defnyddio.
68	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.	
98	Gweithredu	Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.	Cafodd Polisi iaith newydd y Cyngor ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn ar 3ydd o Fawrth 2016 a cyhoeddwyd ar wefan gorfforaethol y Cyngor ar y 30 o Fawrth 2016.
127	Gweithredu	Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.	Rydym eisoes yn casglu gwybodaeth flynyddol am allu staff i siarad Cymraeg, ond mynegwyd awydd i fynd y gam ymhellach, fel y nodir yn Safon 151 i gadw cofnod o lefel sgiliau cyflogeion. Cafwyd cymeradwyaeth gan y Pwyllgor iaith i ddatblygu cynllun asesu newydd fydd yn gosod lefelau iaith ymarferol sydd yn cyd-fynd â lefelau iaith CBAC ac yn galluogi asesu cyrhaeddiad swyddogion yn erbyn y gofynion iaith hynny.

134	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.	Wrth roi cyhoeddusrwydd i'r Polisi Iaith newydd ar fewnrwyd y Cyngor, darparwyd linc i wefan y Comisiynydd, lle mae posib cael logo ebost i ddynodi bod modd cyfathrebu yn Gymraeg gyda gweithwyr. Bydd sylw pellach yn cael ei roi i hyn yn ystod y flwyddyn.
-----	------------	---	--

### 3. Adrodd ar berfformiad

#### 3.1 Cwynion iaith

Mae trefn newydd wedi ei chreu ar gyfer cofnodi cwynion iaith o Fawrth 2016 ymlaen, fydd yn gwahaniaethu rhwng y cwynion hynny sydd yn ymwneud â'n cydymffurfiaeth â'r Safonau, a'r rhai sydd yn ymwneud â Pholisi iaith y Cyngor. Byddwn hefyd yn cofnodi pa gategori o Safonau y mae'r gwyn yn ymwneud â hi, yn ogystal â chofnodi unrhyw gamau pellach a gymerir er mwyn cryfhau gwasanaethau yn sgil y gwyn.

I bwrpas yr adroddiad hwn, cofnodir y cwynion a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn hyd at Mawrth 2016 fel y cyflwynwyd hwy i'r Pwyllgor Iaith.

#### Adroddwyd i Bwyllgor iaith 23 Ebrill 2015

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
<b>Mawrth 2015</b>	Cwyn drwy Swyddfa'r Comisiynydd ynglŷn â gwendid mewn darpariaeth Gymraeg gan Cyd-Cymru y mae'r Cyngor yn cyfeirio trigolion atynt i geisio arbed costau ynni cartref	Wedi ateb gan nodi nad gwasanaeth gan y Cyngor yw hwn, bod camau wedi eu cymryd i sicrhau bod gymaint o'r gwasanaeth ag sy'n bosib ar gael yn y Gymraeg (pob dim heblaw un cam). Rydym yn disgwyl ymateb y Comisiynydd i'r ymateb

#### Adroddwyd i Bwyllgor iaith 18 Mehefin 2015

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
<b>Ebrill 2015</b>	Cwyn a gyfeiriwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd ynghylch arwydd uniaith Saesneg wedi ei osod yn un o feysydd parcio Cyngor Gwynedd, yn agos at y twnnel yng Nghaernarfon.	Y gwasanaeth perthnasol wedi ymchwilio i'r mater a chanfod bod yr arwydd Cymraeg wedi diflannu dros nos (wedi ei ddwyn o bosib). Roedd oedi wedi bod cyn gosod arwydd newydd o ganlyniad i absenoldeb salwch y swyddog cyfrifol ond trefnwyd bod y cwmni arwyddion yn mynd i osod arwydd newydd cyn diwedd yr wythnos. Cysylltwyd â Swyddfa'r Comisiynydd i roi eglurhad a chadarnhad bod y mater wedi cael ei ddatrys.
<b>Ebrill 2015</b>	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am iddynt dderbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan Dŵr Cymru. Roedd y llythyr gan Dŵr Cymru yn deillio o ohebiaeth gan Gyngor Gwynedd, felly roedd yr achwynydd yn cwestiynu iaith yr ohebiaeth	Holwyd y gwasanaeth perthnasol ac anfonwyd copi o'r ohebiaeth wreiddiol at yr achwynydd fel tystiolaeth bod y Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r Cynllun Iaith, ac wedi anfon gohebiaeth dwyieithog at Dŵr Cymru.

	wreiddiol gan Gyngor Gwynedd.	
<b>Ebrill 2015</b>	Cwyn gan Swyddog o'r Adran Addysg am lythyr a dderbyniodd gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru gyda Chymraeg gwallus ac annealladwy.	Cysylltodd y Swyddog yn uniongyrchol â swyddfa'r Tribiwnlys i dynnu eu sylw at y gwallau a derbyniwyd llythyr diwygiedig o fewn yr wythnos.
<b>Ebrill 2015</b>	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am dderbyn ffurflen pleidlais bost uniaith Saesneg	Cyfeiriwyd y mater at yr Uwch Reolwr sydd â chyfrifoldeb am yr Uned Etholiadol. Eglurwyd fod y broses o gofrestru ar-lein yn digwydd drwy wefan ganolog y llywodraeth yn Llundain. Os gofynnir am ffurflen i gael pleidlais bost, fe'i hanfonir yn uniongyrchol o'r wefan fel atodiad i'r e-bost cydnabod, fel y mae'n ymddangos y digwyddodd yma. Nid y Cyngor felly sydd yn gyfrifol am ei hanfon. Ar y llaw arall, os derbyniwn gais yn uniongyrchol, yna anfonir ein ffurflen ddwyieithog at yr ymgeisydd.
<b>Mai 2015</b>	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â Swyddog Gorfodaeth Parcio di-Gymraeg	Cyfeiriwyd y mater at swyddog yn yr Adran Rheoleiddio, a bu iddynt ymddiheuro ac ymateb i gwyn yr achwynydd gan ddileu dyled y tocyn parcio yn sgil amgylchiadau arbennig yr achwynydd ar y pryd.
<b>Mehefin 2015</b>	Cwyn gan Gyngorydd lleol am arwyddion uniaith Saesneg ar Ffordd y Coleg, Bangor	Cyfeiriwyd y mater at swyddog yn yr Adran Briffyrdd. Wedi iddo gysylltu gyda'r contractwyr, cytunodd y cwmni i symud yr arwyddion. Nid oeddynt wedi derbyn caniatâd Cyngor Gwynedd i osod yr arwyddion.

#### Adroddwyd i Bwyllgor Iaith 22 Hydref 2015

<b>CWYNION YN ERBYN Y CYNLLUN IAITH</b>		
<b>DYDDIAD</b>	<b>CWYN</b>	<b>YMATEB.</b>
<b>Mai 2015</b>	Cwyn ynghylch ateb allan o'r swyddfa (ar e-bost) uniaith Saesneg gan Gyngorydd	Cadarnhawyd nad yw'r aelodau yn atebol i'r Cynllun Iaith yn yr un modd a swyddogion y Cyngor, ond cafwyd trafodaeth am yr angen i roi arweiniad clir i aelodau am y disgwyliadau arnynt i gyfathrebu yn ddwyieithog. Tynnwyd sylw'r Cyngorydd i'r mater dan sylw a

		chadarnhawyd mai camgymeriad yn unig oedd yr ymateb uniaith. Anfonwyd esboniad i'r achwynydd a chafwyd ymateb yn derbyn yr esboniad.
--	--	--

<b>CWYNION ANFFURFIOL</b>		
<b>DYDDIAD</b>	<b>CWYN</b>	<b>YMATEB.</b>
<b>Gorffennaf 2015</b>	Cwyn am ddeunyddiau uniaith Saesneg yn cael eu defnyddio fel rhan o ddigwyddiad cyhoeddus yn y Friog (Cynllun Rheoli'r Arfordir)	Cadarnhawyd bod fersiynau Cymraeg o'r adroddiad a'r posteri dan sylw wedi eu cylchredeg hefyd. Mater wedi symud ymlaen i fod yn gais rhyddid gwybodaeth ac yn cael ei drin gan Swyddog o'r adran Rhyddid Gwybodaeth.
	Cyfeiriwyd cwyn am ddiffyg darpariaeth Gymraeg ar wefan y bydd ysgolion yn cael eu cyfeirio ati gan y Llywodraeth i gael gwybodaeth a chyngor arbenigol yn ymwneud â gweithgareddau awyr agored (gwefan OEAP)	Ymddengys bod hwn yn fater oedd eisoes wedi cael sylw gan yr adran Addysg yn niwedd 2014. Anfonwyd ymholiad o'r newydd at swyddogion yn Adran Addysg a Sgiliau'r Llywodraeth i holi oedd unrhyw bosibilrwydd o gyfieithu'r canllawiau allweddol. Derbyniwyd esboniad pam nad yw'r llywodraeth yn mynd i dalu am gyfieithu'r adnoddau. Roedd yr ymateb hwn yn uniaith Saesneg.

#### Adroddwyd i Bwyllgor Iaith 14 Ionawr 2016

<b>CWYNION FFURFIOL YN ERBYN Y CYNLLUN IAITH</b>		
<b>DYDDIAD</b>	<b>CWYN</b>	<b>YMATEB.</b>
<b>Mehefin 2015</b>	Derbyniwyd cwyn gan Gomisiynydd y Gymraeg (cyf: 1970) ynghylch methiant honedig i ddarparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd y gwyn yn ymwneud yn benodol â dogfennau yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Roedd rhestr o ddogfennau wedi eu rhoi ar wefan y Cyngor a nodyn yn hysbysu'r cyhoedd bod modd cael copiâu o'r dogfennau ar gais, ond yn Saesneg yn unig. Dogfennau technegol gan ddarparwyr allanol oedd y rhain.	Wedi ymchwilio i'r mater, cadarnhawyd bod y dogfennau wedi eu cynnig yn Saesneg yn unig, ond y byddent yn cael eu cyfieithu maes o law fel rhan o'r broses arferol wedi ymgynghoriad. Nid oedd yr Adran Gynllunio wedi derbyn unrhyw geisiadau am y dogfennau a restrwyd, yn Saesneg nac yn Gymraeg, ac nid oeddynt wedi eu cyhoeddi yn llawn ar wefan y Cyngor gan nad oeddynt yn ddogfennau oedd yn rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol ar y Cynllun Datblygu. Roedd y rhestr wedi ei pharatoi a'i chynnig fel dogfennau



		<p>gwybodaeth bellach allai fod o ddiddordeb, nid fel rhai oedd yn angenrheidiol i'r broses ymgynghori. Derbyniodd Rheolwr Cynllunio (Polisi) yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd y cyfrifoldeb am y penderfyniad i gynnwys y rhestr ar y wefan yn unig ac i beidio cynnig y dogfennau yn ddwyieithog.</p> <p>Bu gohebu cyson rhwng swyddogion y Comisiynydd a'r Uned Hyrwyddo Iaith, dros rai misoedd, ar y mater, a daethpwyd a'r mater i ben ym mis Rhagfyr 2015 heb unrhyw gamau pellach. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod y Cyngor wedi torri amodau ei Gynllun Iaith gan fod y dogfennau yn rhai cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn gadarn yn ei farn nad oedd unrhyw fwriad gan yr Uned Polisi Cynllunio i gamarwain na dal gwybodaeth angenrheidiol i'r ymgynghoriad yn ôl. Bydd sylw penodol yn cael ei roi i eiriad y polisi iaith newydd er mwyn sicrhau bod y canllawiau ar ddogfennau cyhoeddus yn eglur.</p>
<p><b>Medi 2015</b></p>	<p>Derbyniwyd cwyn gan Gomisiynydd y Gymraeg (cyf. 2057 – derbyniwyd 10 Medi 2015) ynghylch methiant i ddarparu Tystysgrif Marwolaeth dwyieithog ac i fethu cofnodi'r achos marwolaeth yn Gymraeg.</p>	<p>O ganlyniad i natur hynod sensitif y gwyn, ymchwiliwyd yn fanwl iawn i'r achos hwn. Cadarnhawyd nad oedd Swyddfa Gofrestru Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am anfon tystysgrifau Saesneg/dwyieithog i'r achwynydd, ond yn hytrach eu bod wedi eu cyhoeddi gan Swyddfa'r Crwner. Roedd y Swyddfa Gofrestru wedi cyhoeddi tystysgrif dwyieithog i'r achwynydd ym mis Awst 2015 (ac wedi esbonio nad oedd modd cael tystysgrif uniaith Gymraeg), ond wedi â methu cofnodi'r achos marwolaeth yn Gymraeg oherwydd cyfyngiadau a osodir ar y cofrestryddion dan y Registration of Births and Deaths (Welsh Language) Regs, 1987, a chanllawiau y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol, sydd yn nodi bod rhaid nodi yr achos marwolaeth "yn union" fel y mae'n ymddangos ar dystysgrif y Crwner.</p>

		<p>Ymddengys bod hyn yn broblem gyffredin, gan mai dim ond un Crwner sydd yn gallu'r Gymraeg, ac felly bod yr achos marwolaeth yn cael ei nodi yn Saesneg yn amlach na pheidio.</p> <p>Anfonwyd ymateb i'r Comisiynydd, gan hefyd ofyn am unrhyw gymorth neu gyngor y gallent ei gynnig i ddylanwadu ar yr adrannau allanol hyn o'r llywodraeth sydd heb eu datganoli ond sydd yn effeithio ar allu y Cyngor i ddarparu'r gwasanaeth dwyieithog llawn y dymuna.</p>
--	--	---

<b>CWYNION ANFFURFIOL</b>		
<b>DYDDIAD</b>	<b>CWYN</b>	<b>YMATEB.</b>
<b>Medi 2015</b>	<p>Cyfeiriwyd (er gwybodaeth fwy na gweithrediad) atom wahoddiad uniaith Saesneg a dderbyniodd Cyngor Tref Pwllheli gan Plas Heli.</p> <p>Mynegwyd anfodlonrwydd cyffredinol am ddefnydd y Gymraeg yn y Plas a gwnaed ymholiad am Bolisi iaith y Plas.</p>	<p>Cysylltwyd a Phlas Heli, a chafwyd gwybod eu bod wedi defnyddio asiantaeth allanol i farchnata'r digwyddiad dan sylw, ac nad oedd staff Plas Heli yn ymwybodol bod gwahoddiad uniaith Saesneg wedi ei anfon. Bu iddynt gysylltu a'r asiantaeth a chafodd gwahoddiad Cymraeg ei anfon o fewn ychydig ddyddiau.</p> <p>Ar fater polisi iaith ehangach Plas Heli: Nid yw'n eglur a oes gan Plas Heli bolisi iaith swyddogol neu beidio. Yn ôl y cytundeb lefel gwasanaeth a luniwyd rhwng y Cyngor a Phlas Heli, roedd disgwyl i Blas Heli lunio a mabwysiadu Polisi iaith, ond nid ydym wedi derbyn copi er cysylltu i wneud cais dair gwaith.</p>
<b>Rhagfyr 2015</b>	<p>Derbyniwyd cais rhyddid gwybodaeth ynghylch Arolwg Tai ac Iaith Gwynedd ac Ynys Môn a gomisiynwyd gan hunaniaith. Roedd honiad yn cael ei wneud nad oedd yr ymchwil wedi ei bwysoli yn gywir ac nad oedd y Cyngor wedi derbyn cyngor</p>	<p>Anfonwyd ymateb gan yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni yn nodi yn glir nad bwriad yr ymchwil oedd darparu darlun manwl cynhwysfawr, a bod y gwaith wedi cyflawni'r briff a osodwyd gan hunaniaith.</p>

	ystadegydd proffesiynol ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd.	
--	---	--

### 3.2 Sgiliau Iaith Cyflogeion (Safon 170 (2) a))

Fel y nodwyd uchod, mae trefniadau ar y gweill i wella'r modd y bydd y Cyngor yn casglu data am lefel sgiliau iaith y gweithlu, ond cyflwynir yma y data am niferoedd staff, fesul gwasanaeth, sydd yn gallu'r Gymraeg, a faint o'r staff nad ydynt yn siarad Cymraeg.

GWASANAETH	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
<b>Addysg</b>	Tîm Rheoli	Arfon	7	0
	<b>Disgyblion a Chynhwysiad:</b>  <b>ADY:</b> Uwch Seicolegydd Anawsterau iaith a Chyfathrebu Unedau ABC Gwybyddiaeth a Dysgu  <b>Cynhwysiad:</b> Trac Pecyn 25 EMAS Diogelu Cwmsela Cynnal Ymddygiad Cynradd Profiad Gwaith Estynedig Gwasanaeth Lles Hyfforddiant Gartref  Swyddogion Cefnogol / Cynorthwyol	Arfon, Meirion a Dwyfor	1 10 7 11  7 5 4 1 5 4 1 7 3  3	0
	Cyflogau a Chontractau Ysgolion	Arfon	4	0
	Llywodraethwyr	Arfon	2	0
	Arlwyo a glanhau	Arfon, Meirion a Dwyfor	5	0
	Gwasanaethau Ategol	Arfon	3	0
	Uned Gefnogi Addysg	Arfon Dwyfor	1 10	0 0
	Trefniadaeth Ysgolion	Arfon	7	0
	Y Gymraeg: Canolfannau iaith Siarter iaith	Arfon, Meirion a Dwyfor	11 1	0

<b>Addysg Cyfanswm</b>	<b>119</b>	<b>0 (100% yn siarad Cymraeg)</b>
------------------------	------------	-----------------------------------

<b>ADRAN</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
<b>Cefnogaeth Gorfforaethol</b>	Cefnogol	Arfon	34	0
	Cyflawni a Chefnogi Newid	Arfon Môn	40 5	0
	Cyswllt Cwsmer a Chofrestru	Arfon Dwyfor Meirion	18 4 24	0
	Datblygu'r Sefydliad	Arfon	3	0 0 0
	Democratiaeth a Chyflawni	Arfon Meirion	46 2	0
	Dysgu a Datblygu	Arfon	9	0
	Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol	Arfon	13	0
	Iechyd, Diogelwch a Llesiant	Arfon	13	0
	Uned Reoli	Arfon	7	0
	Uned Wybodaeth	Arfon	6	0
<b>Cefnogaeth Gorfforaethol - Cyfanswm</b>			<b>224</b>	<b>0 (100% yn siarad Cymraeg)</b>

<b>ADRAN</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
<b>Cyllid</b>	Archwilio Mewnol	Arfon	8	0
	Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys	Arfon	3	0
	Cyflogau	Arfon	10	0
	Cyfrifeg	Arfon	39	0
	Pensiynau	Arfon	17	0
	Refeniw- Incwm/ Arianwyr	Arfon	11	0

	Taliadau/ Credydwy'r	Arfon	7	0
	Refeniw- Trethi a Budd Dal	Arfon Dwyfor Meirion	30 15 9	0 0 0
	Rheolaeth Risg/ Yswiriant	Arfon	2	0
	Uned Reoli	Arfon	6	0
	Technoleg Gwybodaeth	Arfon	53	0
<b>Cyllid Cyfanswm</b>			<b>210</b>	<b>0</b> <b>(100% yn siarad Cymraeg)</b>

<b>GWASANAETH</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
<b>Economi a Chymuned</b>	Adfywio Cymunedol	Arfon	13	0
		Dwyfor	1	0
		Meirionnydd	2	0
	Amgueddfeydd	Arfon	6	1 rhan-amser
		Dwyfor	3	0
		Anhysbys	5	0
	Archifau	Arfon	9	0
		Meirion	3	0
	Cefnogi Busnes	Arfon	6	0
	Celfyddydau	Arfon	1	0
	Celfyddydau Perfformio	Dwyfor Meirion	18 7	1 (wrth gefn)
	Ieuenctid	Arfon	16	0
		Bangor/Ogwen	34	0
		Dwyfor	23	4 rhan-amser
		Meirion	38	0
		Llawn-amser	11	
	Morwrol	Dwyfor	16	0
		Meirion	2	1
	Oriellau	Arfon	1	1 rhan-amser
		Anhysbys	1	0
	Parciau Gwledig	Arfon	6	0

	Prosiectau Sylweddol	Arfon Meirionnydd	5 1	0 0
	Sgiliau a Chyflogaeth	Arfon	3	0
	Strategaeth a Datblygu	Arfon	3	0
<b>GWASANAETH</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
	Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer	Arfon Dwyfor Meirion	14 7 6	0 0 0
	Uned Reoli	Arfon	7	0
	Llyfrgelloedd	Arfon Dwyfor Meirion	29 9 15	0 0 0
	Canolfannau Hamdden	Arfon Dwyfor Meirion	124 65 70	1 0 2 di-Gymraeg 4 dysgwyr (siarad ychydig)
<b>Economi a Chymuned Cyfanswm</b>			<b>580</b>	<b>15</b> <b>(97.4% yn siarad Cymraeg)</b>

<b>ADRAN</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
<b>Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>	Rheolaeth Tai	Arfon Dwyfor	3 1	0 0
	Cefnogi Pobl	Arfon	3	0
	Digartrefedd a Tai Cefnogol	Arfon	10	1
		Dwyfor	4	0
		Meirion	4	0
TOT Arfon		7	0	
	Hosteli	7	2	
Tai Sector Breifat	Arfon Meirion Dwyfor	7 10 8	0 0 1	

	Cymunedau Iach		6	
	Diogelu ac Ansawdd		17	
	Busnes		98	0
	Gwasanaeth Darparu		1178	134
	Oedolion		136	4
	Uned Rheoli		35	5
	Cyfarwyddwr Corfforaethol		1	0
<b>Cyfanswm Gwasanaethau Plant a Chefnogi Teuluoedd</b>			<b>1516</b>	<b>139 ddim yn siarad Cymraeg (90.4% yn siarad Cymraeg)</b>

<b>GWASANAETH</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
<b>Gwasanaethau Plant a Chefnogi Teuluoedd</b>	Tîm Rheoli		5	
	Gweinyddol (Tîm Rheoli)		1	0
	Tîm Plant	Arfon Dwyfor Meirionydd	18 7 8	(1+ 1 dros dro)
	Derbyn Cyfeiriadau Plant		9	0
	Maethu		13	0
	Mabwysiadu		2.5	0
	16+		8	0
	Derwen	Staff cyflogedig gan y Cyngor  Staff cyflogedig gan Bwrdd Iechyd  Gweithwyr Cefnogol	24  13  86	0  1  4
	Tîm Cefnogol		39	0
	Trothwy Gofal		14	0

	Uned Diogelu ac Ansawdd		10	0
	Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid		29	2
	Gyda'n Gilydd		7	0
	Dechrau'n Deg		42	0
<b>Cyfanswm Gwasanaethau Plant a Chefnogi Teuluoedd</b>			<b>322.5</b>	<b>9 ddim yn siarad Cymraeg (97.2% yn siarad Cymraeg)</b>

<b>GWASANAETH</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
<b>Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>	Comisiynu	Arfon	20	0
		Dwyfor	10	0
		Meirion	10	0
		Anhysbys	15	0
	Fflyd	Arfon	9	0
		Dwyfor	9	0
		Meirion	7	0
		Anhysbys	4	0
	Gwaith Bwrdeistrefol	Arfon	104	2
		Dwyfor	71	1
		Meirion	79	5
		Anhysbys	75	0
	Gwaith Priffyrdd	Môn	2	0
		Arfon	21	1
		Dwyfor	17	0
		Meirion	30	3
		Anhysbys	39	0
	Trin Gwastraff	Arfon	2	0
		Meirion	10	1
		Anhysbys	5	0
	Uned Rheoli	Arfon	3	0
		Anhysbys	1	0
<b>Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyfanswm</b>			<b>543</b>	<b>13 (97.6% yn siarad Cymraeg)</b>

<b>GWASANAETH</b>	<b>UNED</b>	<b>ARDAL</b>	<b>NIFER</b>	<b>NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG</b>
<b>Rheoleiddio</b>				



	Trafnidiaeth (yn cynnwys Croeswyr Plant a Swyddogion Gorfodaeth)	Arfon Dwyfor Meirionydd	38 9 11	2 2 4
<b>Cyfanswm Gwasanaethau</b>				

DS: gwybodaeth ddim yn gyflawn. Gwasanaeth yn dal i gasglu eu data blynyddol wrth lunio'r adroddiad hwn.

GWASANAETH	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
<b>Ymgynghoriaeth (YGC)</b>	Adeiladu	Arfon	13	1
		Meirion	0	0
		Dwyfor	0	0
	Prosiectau	Arfon	16	1
		Meirion	1	0
		Dwyfor	3	0
	Uned Fusnes	Arfon	9	1
		Meirion	0	0
		Dwyfor	0	0
	Uned Reoli	Arfon	3	0
		Meirion	0	0
		Dwyfor	0	0
	Uned Dechnegol	Arfon	28	1
		Meirion	1	0
		Dwyfor	0	0
	Uned Dwr a'r Amgylchedd	Arfon	12	0
		Meirion	2	0
		Dwyfor	7	0
	Uned Rheolaeth Adeiladu	Arfon	11	0
		Meirion	3	0
		Dwyfor	0	0
<b>Ymgynghoriaeth Cyfanswm</b>			<b>109</b>	<b>96.34% yn siarad Cymraeg)</b>

### 3.2 Nifer staff sydd yn derbyn hyfforddiant Cymraeg (Safon 170 (2) b) a c)

Gofynna **Safonau 152 ac 170**, i'r Cyngor nodi nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Nid yw'r tîm Dysgu a Datblygu hyd at Fawrth 2016 wedi bod yn casglu data sydd yn dangos union nifer y staff sydd yn mynychu cyrsiau Cymraeg, o'u cymharu a hyfforddiant Saesneg, gan bod mwyafrif helaeth yr hyfforddiant corfforaethol yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r

ffigyrau a gyflwynir ar gyfer y flwyddyn 2015-16 felly yn dilyn yr hen drefn o gofnodi nifer y sesiynau hyfforddi ym mhob iaith.

Mae trefniadau ar y gweill i newid y ffordd y bydd y wybodaeth am fynychwyr a cyfrwng y cyrsiau yn cael eu cofnodi er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio a'r gofyn adrodd hwn yn y dyfodol.

Yn ystod y cyfnod Ebrill 2015 i Mawrth 2016, dyma'r nifer o gyrsiau a gynhaliwyd ym mhob iaith:

TEITLAU	NIFER	CANRAN
Cymraeg	358	81.7%
Dwyieithog	30	6.8%
Saesneg	50	11.4%
<b>CYFANSWM</b>	<b>438</b>	

Caiff y teitlau hyfforddi mewnol i gyd eu cynnig yn ddwyieithog, gyda tua 95% o'r hyfforddiant a gynigiwyd yn ystod y cyfnod dan sylw yn hyfforddiant mewnol.

Mynychwyd y cyrsiau hyn gan gyfanswm o **3218** o unigolion, sydd yn golygu, ar gyfartaledd (seiliedig ar 7 mynychwr y sesiwn ar gyfartaledd), bod tua 2,700 84% o'r staff a fynychodd hyfforddiant wedi gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr unig achlysur lle y bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig yw pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol lle mae diffyg hyfforddwyr cymwys Cymraeg. Yn yr achos yma, rydym wedi bod yn ystyried sut orau i hwyluso'r broses o gynnig yr hyfforddiant hyn yn ddwyieithog (er enghraifft drwy sicrhau bod gofyn i'r hyfforddwyr ddarparu unrhyw ddeunydd darllen yn ddwyieithog). Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn ystod 2015-16 hefyd, derbyniodd **40** aelod o staff hyfforddiant i ddysgu Cymraeg.

Mae'r dysgwyr yn derbyn eu hyfforddiant gan y darparwyr isod:

- Yn fewnol – Tiwtor/Cydgysylltydd y Gymraeg, Cyngor Gwynedd
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Aberystwyth
- Colegau Grŵp Llandrillo Menai

Natur y ddarpariaeth – mae'r dysgwyr yn derbyn un o'r isod neu gyfuniad ohonynt:

- Cyrsiau rheolaidd dros y flwyddyn – wythnosol (unwaith neu ddwywaith yr wythnos)
- Cyrsiau dwys – Ysgolion Haf/Calan yn Aberystwyth, Dolgellau, Bangor, Pwllheli, Yr Wyddgrug wedi eu trefnu gan y darparwyr
- Cwrs 3 diwrnod Medi – Cymraeg yn y Gweithle – Prifysgol Bangor. Wedi ei ddarparu ar gyfer sefydliadau o fewn y gwasanaethau cyhoeddus yng ngogledd Cymru i wella sgiliau iaith yn y gweithle.

- Cyrsiau Gloywi iaith – Cyrsiau dros gyfnod wedi eu hachredu ac wedi eu darparu gan Grŵp Llandrillo Menai

Yn ogystal a hyn, mynychodd **11** o unigolion hyfforddiant “**Gwella Cymraeg Ysgrifenedig i siaradwyr Cymraeg**” yn ystod 2015 – 16.

### **3.3 Categoriiddio swyddi (Safon 170 (2) c))**

Caiff y Gymraeg flaenoriaeth amlwg wrth recriwtio yng Nghyngor Gwynedd. Ni chaiff yr un swydd ei hysbysebu heb iddi fod yn cynnwys gofynion ieithyddol.

Yn ystod y cyfnod Ebrill 2015 i Mawrth 2016, hysbysebwyd **397** o swyddi ar draws y Cyngor, a phob un ohonynt yn cael eu hysbysebu gyda “sgiliau Cymraeg yn hanfodol”.

Serch hynny, mae trafferthion recriwtio mewn rhai meysydd wedi arwain at adnabod yr angen i sefydlu trefn newydd i asesu union anghenion lefel iaith swyddi (newydd a phresennol) fydd yn galluogi’r adran Adnoddau Dynol i sicrhau bod y lefelau iaith mwyaf priodol yn cael eu gosod ar gyfer pob swydd. Fel rhan o’r system asesu sgiliau newydd hon, bydd cofnodion manwl yn cael eu cadw o’r swyddi newydd a gaiff eu hysbysebu a’u lefel sgiliau iaith. Bydd hyn hefyd yn galluogi gwell trefn o fonitro cynnydd a datblygiad unrhyw staff a gaiff eu penodi heb y sgiliau Cymraeg angenrheidiol. Bydd yn parhau i fod yn ofyniad hanfodol i gael sgiliau Cymraeg, ond bod yr union lefel o sgiliau yn cael ei addasu yn ôl natur y swydd.

### **Mehefin 2016**

# Eitem 10

<b>CYFARFOD</b>	Pwyllgor Iaith
<b>DYDDIAD</b>	5ed Gorffennaf 2016
<b>TEITL</b>	Awdit Iaith Mewnol
<b>AWDUR</b>	Gwenllian Mair Williams Swyddog Datblygu Iaith
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	Cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau'r Awdit Iaith a chynnig camau gweithredu pellach

## 1. Cefndir

- 1.1 Fel rhan o Gynllun Strategol y Cyngor ar gyfer 2015-17 ymrwymwyd i gynnal Awdit o sefyllfa'r Gymraeg o fewn y Cyngor. Y bwriad oedd canfod i ba raddau y mae'r Cyngor a'i swyddogion yn llwyddo i weithredu ar y Cynllun Iaith ac yn llwyddo i "*normaleiddio'r Gymraeg drwy ei adrannau a'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion y sir*".
- 1.2 Ail fwriad y gwaith yw ystyried i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd gam ymhellach ac yn llwyddo i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng y gwasanaethau hynny a ddarperir i drigolion y sir yn uniongyrchol, ynghyd â thrwy drefniadau a chytundebau trydydd parti."
- 1.3 Er mwyn gwneud hynny, aethpwyd ati i gynnal arolwg, fyddai'n gosod y cyd-destun presennol ac yn dangos y gwasanaethau neu'r ardaloedd lle y mae angen cymryd camau i wella'r gwasanaeth a gynigir i'r cyhoedd.
- 1.4 Y bwriad yw symud ymlaen i weithio yn agos gyda rhai gwasanaethau er mwyn sicrhau bod yr ail fwriad, sef i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy holl wasanaethau'r Cyngor, yn cael ei wireddu.

## 2. Y Broses

- 2.1 Penderfynwyd gweithredu 3 elfen wahanol i gyflawni gofynion yr awdit, a hynny er mwyn cael gwybodaeth mor gynhwysfawr â phosib am sefyllfa'r Gymraeg o fewn y Cyngor. Dyma'r elfennau:

- a) Holiadur i reolwyr
- b) Ymarfer siopwr cudd
- c) Gwybodaeth gan Gynghorwyr

### Holiadur i reolwyr

- 2.2 Gwahoddwyd holl reolwyr y Cyngor i lenwi holiadur ar-lein, a oedd yn gofyn 14 o gwestiynau am eu gallu i gynnig gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg i'r cyhoedd. Roedd hefyd yn gyfle iddynt fod yn onest ac agored am unrhyw agweddau a oedd yn eu rhwystro rhag gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg cyflawn i'r cyhoedd.

- 2.3 Cafwyd ymatebion ar gyfer **202** o wasanaethau'r Cyngor ac aethpwyd ati i ddadansoddi'r ymatebion hynny er mwyn ceisio canfod unrhyw dueddiadau cyffredinol, yn ogystal â materion penodol y byddai angen mynd i'r afael â hwy.

#### Ymarfer siopwr cudd

- 2.4 Cynhaliwyd ymarfer siopwr cudd fel gwaith ymchwil pellach mewn dau wasanaeth rheng flaen lle roedd pryderon neu gwynion wedi eu derbyn yn y gorffennol am eu gallu i ddarparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg i'r cyhoedd, sef y gwasanaeth hamdden ac ieuenctid.
- 2.5 Cynhaliwyd ymarfer siopwr cudd mewn 4 canolfan hamdden - Bethesda, Bangor, Pwllheli ac Abermaw - ar ffurf ymweliad wyneb yn wyneb ac ymholiadau ffôn. Prif fwriad yr ymarfer hwn oedd profi beth gâi ei gynnig gan y staff fel gwybodaeth am ddsbarthiadau a gweledd yr iaith yn y canolfannau eu hunain. Yn yr achosion hyn, profodd yr ymateb yn dda gyda staff yn ymateb yn bositif pan roedd y cwsmer yn cychwyn yr ymholiad yn y Gymraeg
- 2.6 Yn ystod y cyfnod y cynhaliwyd yr arolwg hefyd, bu swyddogion Hunaniaith yn ymweld â chlybiau ieuenctid ar draws y sir, a gofynnwyd iddynt gofnodi eu harsylwadau am natur ieithyddol y 10 o glybiau a ymwelwyd â hwy.

#### Gwybodaeth gan Gynghorwyr

- 2.7 Rhoddwyd diweddariad ar waith yr awdit yn rhifyn mis Chwefror o *Rhaeadr*, ac ynddo estynnwyd gwahoddiad i holl aelodau etholedig y Cyngor i gyfrannu gwybodaeth at yr awdit ar sail eu profiad hwy o gyrchu gwasanaethau'r Cyngor. (Ni chafwyd unrhyw wybodaeth bellach o ganlyniad i'r cais hwn.)

### **3. Prif negeseuon**

#### Holiadur i reolwyr

- 3.1 Yn gyffredinol, mae'r ymatebion a dderbyniwyd i'r holiadur yn cadarnhau fod mwyafrif helaeth o wasanaethau'r Cyngor **yn** gallu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i'r cyhoedd, ac yn mynd gam ymhellach, ac yn meddu ar yr awydd i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng eu gwasanaethau hefyd.
- 89.6% o'r rheolwyr yn nodi eu bod yn hyderus fod pob aelod o'u staff yn gallu cyfathrebu yn effeithiol yn Gymraeg gan allu delio yn llawn gydag unrhyw ymholiadau yn Gymraeg pan fydd gofyn gwneud hynny.*
- 3.2 Mae'r neges a geir am sgiliau iaith staff yn un cadarnhaol hefyd, gyda mwyafrif helaeth o staff y Cyngor yn gallu'r Gymraeg.
- 143 (71%) o'r 202 o Reolwyr a ymatebodd yn dweud bod **pob** aelod o staff eu hunedau yn siarad Cymraeg **yn rhugl**.*

- 3.3 Y tu hwnt i'r prif negeseuon cadarnhaol yma, gellir rhannu canlyniadau'r holiadur i ddau gategori, sef:
- Gwendidau lled arwyddocaol
  - Gwendidau arwynebol

#### Gwendidau lled arwyddocaol

#### Sgiliau iaith

- 3.4 Yn yr holiadur, cadarnhaodd **185 (91.5%)** o Reolwyr bod staff rhugl eu Cymraeg yn eu hadrannau, gyda **28** rheolwr (**14%**) yn nodi fod ganddynt staff yn eu hunedau yn meddu ar rhywfaint o Gymraeg, tra y cadarnhaodd **13** rheolwr (**6.4%**) arall fod ganddynt staff yn eu hunedau nad oedd yn gallu'r Gymraeg o gwbl.
- O holi ymhellach, derbyniwyd cadarnhad gan 5 rheolwr nad oedd y Gymraeg yn sgil angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r swyddi hynny, gan nad oedd ganddynt gyswllt uniongyrchol gyda'r cyhoedd.
- 3.5 O ystyried canlyniadau'r holiadur i reolwyr yn ei gyfanrwydd, canfuwyd peth amryfusedd yn y canlyniadau o safbwynt **gallu** staff i siarad Cymraeg o gymharu gyda **sgiliau** Cymraeg staff ar y llaw arall. O geisio deall a dadansoddi'r wybodaeth a gyflwynwyd, awgrymir bod enghreifftiau o ddiffyg hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ymysg rhai aelodau o staff y Cyngor.
- 18 rheolwr yn cadarnhau nad oeddynt yn gwbl hyderus fod pob aelod o'u staff yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg.*
- 44 rheolwr yn cadarnhau nad oeddynt yn gwbl hyderus fod pob aelod o'u staff yn gallu cyfathrebu yn effeithiol yn y Gymraeg yn ysgrifenedig.*
- 3.6 Amlygodd yr arsylwadau o'r clybiau ieuentid arfer rhy gyffredin o gyfathrebu yn Saesneg ymysg yr arweinwyr a'r bobl ifanc. Hyd yn oed lle'r oedd yr arweinwyr yn siarad Cymraeg gyda'r bobl ifanc, tueddai'r bobl ifanc i siarad Saesneg gyda'i gilydd, heb unrhyw ymyrraeth gan yr arweinwyr. Mae hyn yn dangos arferiad sydd yn ategu'r pryder o gyfeiriadau eraill am ddiffyg defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc y sir. Dim ond 4 o'r 10 clwb yr ymwelwyd a hwy oedd yn uniaith Gymraeg. Mae hyn yn destun pryder amlwg, ac yn awgrymu diffyg hyder gan rhai swyddogion cyflogedig i ddefnyddio y sgiliau Cymraeg sydd ganddynt, yn ogystal â diffyg ymwybyddiaeth ymysg rhai o'r rôl sydd ganddynt i ddylanwadu ar iaith gymdeithasol pobl ifanc.
- 3.7 Wrth ymateb i'r holiadur, nododd **185** o reolwyr fod staff eu hadrannau yn neu wedi derbyn hyfforddiant i wella eu sgiliau iaith, tra bod **9** rheolwr hefyd wedi rhoi sylwadau ychwanegol yn cyfeirio at ddiffyg neu angen am hyfforddiant.

#### Rhwystrau cyffredin

- 3.8 Wrth ymateb i'r holiadur, bu i **14** o reolwyr gydnabod rhyw elfen o wendid neu fwch yn eu gwasanaeth oedd yn eu rhwystro rhag gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg cyflawn. O wneud

dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r holiadur, roedd **7** achos yn ymwneud â phroblemau staffio ac anawsterau recriwtio mewn rhai ardaloedd neu feysydd gwaith.

#### Cytundebau

3.9 Nododd **100 (49.5%)** o reolwyr bod eu hunedau neu wasanaethau yn gosod cytundebau gyda darparwyr trydydd parti. O'r **100** hynny, dywedodd **57** bod y cytundebau yn cynnwys gofynion ieithyddol, a gofynnwyd iddynt nodi geiriad yr amodau hynny.

3.10 Cafwyd 12 esiampl eithriadol, lle'r oedd y geiriad a roddwyd yn y cytundebau yn gynhwysfawr ac yn manylu ar y disgwyliadau, ac nid yn cyfeirio yn unig at y Polisi Iaith. Roedd y gweddill naill yn eiriad tebyg i "*Cyd-fynd a pholisi iaith y Cyngor*" neu yn frawddeg fer megis "*Ei bod yn cytuno i gyfieithu unrhyw ddogfen a anfonir atynt ar gost ei hunain*".

#### Gwendidau Arwynebol

3.11 Wrth ymateb i'r holiadur, bu i **14** o reolwyr gydnabod rhyw elfen o wendid neu fwllch yn eu gwasanaeth oedd yn eu rhwystro rhag gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg cyflawn. Gwnaethpwyd dadansoddiad pellach o'r ymatebion hyn gan yr 14 rheolwr er mwyn deall yr anawsterau y cyfeirir atynt yn well.

3.12 Gwelwyd bod **7** achos yn ymwneud â diffyg darpariaeth Gymraeg gan bartion allanol, megis:

- diffyg argaeledd ffurflenni Cymraeg neu ddwyieithog
- systemau cyfrifiadurol ddim ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog

Er bod y rhain yn aml yn bethau lle nad oes newid yn bosib, mae rhai enghreifftiau lle y gallwn ddwyn pwysau ar gyrff eraill i gynnig mwy o'u gwasanaeth yn Gymraeg.

3.13 Adroddodd 13 uned hefyd nad yw deunyddiau bob amser yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog ganddynt, ac er bod y rhesymau a roddir am hyn yn rhai dealladwy – 6 enghraifft o fethu darparu deunydd dwyieithog oherwydd diffyg systemau (megis RAISE) neu ddiffyg ffurflenni statudol – mae angen ystyried a oes mwy y gallwn ei wneud i osgoi'r sefyllfaoedd hyn.

3.14 Tynnwyd sylw yn yr awdit hefyd at yr arfer o ohebu gyda chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Awdurdodau Lleol a'r Llywodraeth yn Saesneg, a diffyg gwybodaeth ddwyieithog wrth gyfeirio'r cyhoedd at wefannau a ffynonellau gwybodaeth allanol.

3.15 Ar y wyneb, roedd yr ymarfer siopwr cudd yn y canolfannau hamdden yn dangos ymateb da, gyda staff yn ymateb yn bositif pan oedd y cwsmer yn cychwyn yr ymholiad yn y Gymraeg. Ond cafwyd hefyd awgrym nad oedd y gwersi yn y canolfannau bob amser yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys gwersi ar gyfer plant ac oedolion.

3.16 O edrych yn gadarnhaol ar y canlyniadau hyn, mae'r rhwystrau yma hefyd yn cyfleu awydd ac ymwybyddiaeth gweithlu'r Cyngor i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.

#### **4. Camau nesaf**

4.1 Byddwn yn cytuno ar raglen waith fanwl er mwyn ymateb i ganlyniadau'r awdit. Mae'r prif themâu a'r meysydd o bryder wedi cael eu hadnabod, ac er mwyn ymateb iddynt, bydd angen cyfuniad o dechnegau ffurfiol ac anffurfiol, ynghyd â gwireddu gwaith sydd eisoes ar y gweill.

4.2 Bydd yr ymyrraeth hefyd yn dibynnu ar raddfa'r broblem, gyda rhai materion fydd yn gyffredin i nifer fawr o'r gweithlu, ac ymyraethau eraill wedi eu targedu yn fwy penodol at unedau neu wasanaethau penodol.

4.3 Bydd pedwar gwasanaeth yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer sylw pellach, a hynny ar sail yr amllder yr oedd eu hunedau yn ymddangos i fod yn cydnabod yn yr awdit bod lle i wella ymhellach. Y pedwar gwasanaeth fydd:

- Economi a Chymuned
- Oedolion
- Rheoleiddio
- Ymgynghoriaeth

4.4 Bydd ymyraethau cyffredinol yn cael eu cynllunio a'u gweithredu ar sail y themâu a adnabuwyd hefyd:

**1. Gwellu ymwybyddiaeth o'r disgwyliadau ar staff i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o'u gwaith.**

- Rhannu canfyddiadau'r awdit gyda rheolwyr ac annog sgwrs agored mewn cyfarfodydd am y rhwystrau sydd yn benodol i'w gwasanaeth.
- Rhannu canllawiau fydd yn gosod yn glir y disgwyliadau o safbwynt cydymffurfio gyda'r Safonau Iaith a'r Polisi Iaith newydd, ac yn benodol y disgwyliad wrth gyfathrebu gyda chyrrff cyhoeddus eraill..
- Cyflwyno modiwl Ymwybyddiaeth Iaith ar-lein (eisoes yn cael ei ddatblygu)
- Targedu unedau penodol gyda holiadur defnydd a hyder iaith (gwe iaith) a sesiynau ymwybyddiaeth ymarferol fydd yn berthnasol i'w maes gwaith penodol.

**2. Datblygu Rhaglen Gwellu Sgiliau Iaith**

- Trefn newydd ar gyfer asesu sgiliau swyddi (fel y cymeradwywyd eisoes gan y Pwyllgor Iaith)



- Targeddu hyfforddiant i dde'r sir mewn ymateb i'r angen i fagu hyder yn y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig.

**3. Sicrhau bod y Gymraeg yn cael sylw priodol yn gyhoeddus ac wrth gydweithio**

- Cyfeirio Is-grŵp y Pwyllgor Iaith sy'n gyfrifol am yr Ymchwiliad i Welededd yr Iaith at y pryderon ynghylch y modd y caiff yr iaith ei hyrwyddo mewn cytundebau cydweithio ac wrth ddarparu gweithgareddau.
- Edrych ar drefniadau monitro cytundebau sydd yn cynnwys amodau ieithyddol.
- Rhannu canllaw i osod cytundebau fydd yn sicrhau bod disgwyliadau clir yn cael eu gosod

**5. Argymhelliad**

Gwahoddir sylwadau aelodau'r Pwyllgor i'r adroddiad uchod.

# Eitem 11

<b>CYFARFOD</b>	Pwyllgor Iaith
<b>DYDDIAD</b>	5 Gorffennaf 2016
<b>TEITL</b>	Ymchwiliad Iaith – Gwelededd yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd
<b>PWRPAS</b>	Rhoi diweddariad i'r aelodau ar waith yr ymchwiliad hyd yma
<b>AWDUR</b>	Y Cynghorydd Craig ap Iago, Cadeirydd yr Ymchwiliad
<b>SWYDDOG CYSWLLT</b>	Hawis Jones, Rheolwr Cynllunio Strategol, Perfformiad a Phrosiectau

## 1.0 Cefndir

- 1.1 Mae Cynllun Strategol y Cyngor yn datgan bod y Cyngor am weld sefyllfa lle mae Gwynedd “yn parhau yn gadarnle i'r iaith, a'i bod yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar hyd ac ar led y sir.”
- 1.2 Diben yr Ymchwiliad iaith – Gwelededd yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd yw ystyried y graddau y mae gwelededd yr iaith, mewn enwau, arwyddion a hysbysiadau ar draws y sir, yn bwysig o ran statws yr iaith a hyder trigolion yn ei defnyddio fel rhan naturiol o waith pob dydd. Mae hefyd yn ystyried y graddau y mae gan y Cyngor ddylanwad dros y gwelededd hynny ac os oes angen i'r Cyngor wneud mwy.

## 2.0 Cynnydd hyd yma

- 2.1 Cyfarfu gweithgor yr ymchwiliad am y tro cyntaf ar 26 Chwefror a chytunwyd ar y briff. Hyd yma, mae'r ymchwiliad wedi:
- Cyfweld swyddogion ar weithrediad y polisi iaith o ran trefniadau caffael y Cyngor (unedau caffael a chyfreithiol)
  - Cyfweld swyddogion ar weithrediad y polisi iaith o ran rheolaeth y Cyngor o ymylon ffyrdd
  - Cyfweld swyddogion ar weithrediad y polisi iaith o ran rheolaeth cludiant
  - Cynnal trafodaeth ar y cyd â Dirprwy Arweinydd y Cyngor â Dr Rhian Hodges a Dr Cynog Prys, arbenigwyr iaith o Brifysgol Bangor
  - Cyfweld â swyddogion datblygu iaith Gwynedd
  - Cyfweld â Rheolwr Marchnata a Gofal Cwsmer (Twristiaeth) y Cyngor
- 2.2 Mae cyfweiliadau pellach ar y gweill gyda'r unigolion canlynol:
- Athro Ymchwil Durk Gorter, Ikerbasque (Sefydliad Gwlad y Basg ar gyfer Gwyddoniaeth)
  - Rheolwr Rheolaeth Datblygu – Enwau Tai a Llefydd (Uned Gynllunio)
  - Rheolwr Amgueddfeydd a Chelfyddydau y Cyngor
  - Rheolwr Digwyddiadau'r Cyngor
  - Uwch Reolwr Economi a Chymuned sydd â chyfrifoldeb dros wasanaethau Hamdden

- Pennaeth Gwasanaeth Economi a Chymuned y Cyngor

2.3 Mae aelodau'r ymchwiliad yn cydweithio'n agos gydol y gwaith gyda Dr Hodges a Dr Prys o Brifysgol Bangor.

2.4 Mae'r grŵp yn ystyried y posibilrwydd o "ardal Gymraeg" i dreialu effaith gwelededd cyson yr iaith Gymraeg.

2.5 Bwriedir trafod gyda'r Prif Weithredwr a'r aelod Cabinet (y Cynghorydd Dyfrig Siencyn) cyn diwedd yr ymchwiliad.

2.6 Bydd y gwaith yn arwain at gyfres o argymhellion i'w rhannu er ystyriaeth y Pwyllgor Iaith.

### **3.0 Argymhellion**

Gofynnir i'r aelodau nodi a derbyn yr wybodaeth.

# Eitem 12

<b>CYFARFOD</b>	Pwyllgor Iaith
<b>DYDDIAD</b>	5ed Gorffennaf 2016
<b>TEITL</b>	Adroddiad Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog
<b>AWDUR</b>	Gwenllian Mair Williams Swyddog Datblygu Iaith
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	Cyflwyno adroddiad a gyhoeddwyd gan Y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol, Mehefin 2016 er gwybodaeth i'r aelodau.

## 1. Cefndir

- 1.1 Comisiynodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yr adroddiad hwn gan y Gweithgor ar yr iaith ym maes Datblygu Economaidd a Gweinyddu Llywodraeth Leol ("Y gweithgor ar yr iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol") sydd wedi ei sefydlu i gynghori Gweinidogion Cymru ar gefnogaeth i'r iaith yng nghyd-destun y rhaglen diwygio llywodraeth leol. Roedd disgwyl i'r gweithgor gyflwyno adroddiad erbyn 31 Mai 2016.
- 1.2 Penderfynodd y gweithgor, oherwydd prinder amser, beidio â chomisiynu gwaith ymchwil o'r newydd, ond yn hytrach edrych ar dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli ac a gyflwynwyd gan aelodau'r gweithgor ac unigolion o nifer o sefydliadau blaenllaw.
- 1.3 Roedd y gweithgor yn edrych yn bennaf ar yr iaith yn y cynefinoedd traddodiadol yn y gorllewin a'r gogledd, a'r ardaloedd gyda chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg. Rhoddwyd sylw penodol i awdurdodau lleol Môn, Gwynedd, Ceredigion a Chaerfyrddin.

## 2. Cynnwys yr adroddiad

- 2.1 Trafodir dan 7 pennawd, a gwneir nifer o argymhellion o dan bob un.
  1. Arweinyddiaeth Strategol
  2. Arweinyddiaeth Leol
  3. Gweithlu Dwyieithog
  4. Hyfforddiant
  5. Technoleg
  6. Newid Ymddygiad
  7. Yr Economi
- 2.2 Mae'r tri maes cyntaf yn ymwneud ag arweinyddiaeth, a'r adroddiad yn pwysleisio'r angen am arweiniad, gweledigaeth ac ymroddiad clir. Mae'n trafod datblygu'r arbenigedd cynllunio ieithyddol o fewn y llywodraeth ei hun, er mwyn edrych y tu hwnt i gynllunio cymunedol ac ar gynllunio mwy strategol. Mae hefyd yn argymhell y dylai **pob** prif swyddog o fewn awdurdodau lleol (penaethiaid gwasanaethau plant, addysg ac adnoddau dynol) fod â rhyw lefel o hyfedredd yn y Gymraeg.
- 2.3 Mae'r maes sydd yn trafod y gweithlu dwyieithog yn cyffwrdd ar drafodaeth sydd wedi bod yn codi yn aml yn ddiweddar ar lefel leol, sef pwysigrwydd cael y dilyniant o

fyd addysg i fyd gwaith a'r angen i edrych ar sut rydym yn cynllunio gweithlu'r dyfodol. Mae'r Gweithgor yn argymhell y dylai pob awdurdod lleol fod dan ddyletswydd statudol i gynllunio gweithlu o safbwynt sgiliau ieithyddol, ac i baratoi hyfforddiant addas i gyd-fynd a'r angen hwnnw.

- 2.4 Mae'r tri maes nesaf (Hyfforddiant, Technoleg, Newid Ymddygiad) yn delio efo'r materion ymarferol sydd yn mynd i helpu sefydliadau symud ymlaen at fod yn gwbl ddwyieithog. Mae'n amlinellu rôl darparwyr Cymraeg i Oedolion, yn cyfeirio at yr angen i dargedu hyfforddiant gwahanol at siaradwyr anfoddog ac yn nodi potensial technolegau cyfieithu peirianyddol i alluogi gweithlu dwyieithog. Unwaith eto, maent yn feysydd sydd wedi cael cryn sylw ar lefel leol yn ddiweddar.
- 2.5 Mae'r argymhellion ar gyfer yr economi yn ategu'r rhai a roddwyd mewn dau adroddiad Gweinidogol diweddar, oedd yn cynnig ymdriniaeth helaeth o'r iaith ac economi, ac yn argymhell datblygu strategaeth ieithyddol-economaidd ranbarthol. Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar sut y gall awdurdodau lleol hybu ffyniant ieithyddol drwy ei gynlluniau datblygu economaidd lleol.

### **3. Yr Argymhellion**

- 3.1 Caiff 14 o argymhellion eu cynnwys yn yr adroddiad, sydd yn amrywio o rai y disgwylir i'r Llywodraeth ddangos arweiniad arnynt i rai y byddai disgwyl i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill eu gweithredu.
- 3.2 Mae rhai o'r argymhellion mwyaf perthnasol i Gyngor Gwynedd dyn cynnwys:

*A4 Dylai Awdurdodau Lleol, gan gynnwys yn eu swyddogaeth fel Awdurdodau Addysg Lleol, fod dan ddyletswydd statudol i gynllunio gweithlu o safbwynt sgiliau ieithyddol, a lle bo angen, i baratoi hyfforddiant addas i gwrdd â'r anghenion hynny.*

*A5 c) Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu un fframwaith hyfedredd iaith Gymraeg safonol i'w defnyddio gan y sector gyhoeddus gyfan yng Nghymru.*

*A9 Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd statudol ar Lywodraeth Leol i hybu datblygiad economaidd lleol, a sicrhau ystyriaeth o dwf a ffyniant yr iaith Gymraeg fel rhan o'r dyletswydd hwnnw.*

*A10 Dylai Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth gyflawn gyfartal â Llywodraeth Leol ddatblygu a gweithredu strategaeth economaidd-ieithyddol ar gyfer siroedd Môn, Gwynedd, Ceredigion, Caerfyrddin ac ardaloedd perthnasol cyfagos, yn seiliedig ar drefi Bangor, Aberystwyth, Caerfyrddin a Llanelli.*

**Croesewir unrhyw sylwadau ar yr adroddiad gan aelodau'r Pwyllgor.**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog

Adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith  
Gymraeg a Llywodraeth Leol

Mehefin 2016



## Cynnwys

Rhagair .....	2
Rhagymadrodd.....	3
Cefndir .....	3
Strwythur yr Adroddiad.....	5
Nodyn .....	7
1. ARWEINYDDIAETH STRATEGOL .....	8
2. ARWEINYDDIAETH LLEOL.....	10
3. GWEITHLU DWYIEITHOG .....	13
4. HYFFORDDIANT.....	16
5. TECHNOLEG.....	20
6. NEWID YMDDYGIAD.....	22
7. YR ECONOMI .....	26
Cefndir .....	26
Beth yw strategaeth ieithyddol-economaidd? .....	28
Strategaeth economaidd ar gyfer yr ardaloedd Cymraeg .....	31
Dylanwad economaidd Llywodraeth Leol .....	32
Diwygio Llywodraeth Leol .....	33
8. ARGYMHELLION .....	36
ATODIAD A .....	39
1. Cylch gorchwyl .....	39
2. Aelodaeth.....	39
3. Tystiolaeth.....	40



## Rhagair

Mae manifestô'r Blaid Lafur yn gosod targed o filiwn o siaradwyr y Gymraeg erbyn 2050. Byddai cyflawni hynny yn gryn gamp. Y gyfundrefn addysg fyddai'r prif gyfrwng i greu siaradwyr y Gymraeg o'r newydd ond gallai gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog gyfrannu'n sylweddol at y broses. Byddai hyfforddiant iaith yn y gweithle yn creu siaradwyr o'r newydd ac yn rhoi hyder i rai sy'n ansicr o'u gallu yn y Gymraeg i arfer yr iaith o ddydd i ddydd. Byddai hefyd yn rhoi cyfle i Gymry Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn y gweithle ac wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

Rhoddir cryn bwyslais ar greu cyfleoedd i arfer yr iaith yn gymdeithasol ond mae'r enghreifftiau o hynny'n aml yn annelwig ac yn anodd i'w diffinio heb sôn am eu darparu. Y mae gwasanaethau cyhoeddus yn rhan annatod o fywydau beunyddiol pob dinesydd yng Nghymru. Mae degau o filoedd yn gweithio yn y sector a'r gweddill ohonom yn eu defnyddio yn gyson. Dyma'r cyd-destun amlwg i ganiatáu siaradwyr y Gymraeg, boed yn iaith gyntaf neu'n ddysgwyr, i ddefnyddio'r iaith yn feunyddiol.

Os ydym o ddifrif ynglŷn â chreu Cymru ddwyieithog gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn bodoli'n gydradd a hawl gan ddinasyddion i ddefnyddio eu dewis iaith, rhaid i'n gwasanaethau cyhoeddus gael eu darparu'n ddwyieithog. Ni fydd hynny'n digwydd heb ymroddiad gwleidyddol gan Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Bydd y patrwm yn amrywio o ran canran siaradwyr y Gymraeg, ond os yw'r niferoedd i gynyddu yn ôl y disgwyl, bydd angen lefel uwch o wasanaeth ac o weinyddiaeth yn y Gymraeg ym mhob Awdurdod.

Yng Ngwynedd yn unig y mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn gwbl gyfartal o ran y gweithle a'r ddarpariaeth i'r cyhoedd. Mae uchelgais ac ewyllys yn bodoli mewn Awdurdodau eraill i ymgynraedd at yr un nod ond ni fydd hynny'n digwydd heb anogaeth a chefnogaeth Llywodraeth Cymru.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Gweithgor am roi o'u hamser a'u harbenigedd, i'r rhai hynny fu'n cyflwyno tystiolaeth yn ysgrifenedig ac ar lafar ac yn arbennig i'r ysgrifenyddiaeth am ein cynnal yn ystod ein trafodaethau a'n dwyn i ben y daith.

Credwn fod ein hargymhellion yn heriol ond yn ymarferol a chredwn eu bod yn gyson â tharged y Llywodraeth o greu Cymru ddwyieithog gyda miliwn o siaradwyr y Gymraeg.

Rhodri Glyn Thomas

## Rhagymadrodd

### Cefndir

Comisiynodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus adroddiad gan y Gweithgor hwn ym misoedd olaf y pedwerydd Cynulliad, i wneud argymhellion i'r Llywodraeth Cymru newydd ar ddechrau'r pumed Cynulliad.

Oherwydd prinder amser, nid oedd gan y Gweithgor amser i gomisiynu gwaith ymchwil gwreiddiol ond wedi'r cyfan, does dim prinder adroddiadau a gwerthusiadau, papurau polisi a strategaethau am y Gymraeg, ac argymhellion lu am beth i'w wneud amdani. Er bod bylchau yn ein dealltwriaeth a phrinder ymchwil arloesol, daeth yn amlwg i ni yn gynnar iawn bod y materion allweddol yn perthyn i ddimensiwn gwahanol, sef gweledigaeth, arweiniad ac ymroddiad gan sefydliadau'r wladwriaeth Gymreig i droi'r cysyniad o Gymru dwy iaith yn realiti yn ein teuluoedd a'n cymunedau, yn ein gwasanaethau cyhoeddus, ac yn ein bywyd sifig. Bydd demograffeg yr iaith mewn hanner can mlynedd yn dra gwahanol i'r hyn ydyw heddiw. O gofleidio'r dyfodol newydd hwnnw, gallwn gofleidio dyfodol i'r iaith hefyd. Yr hyn sydd ei angen nawr yw uchelgais ac ewyllys.

Gosodwyd seiliau'r cynnydd a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf, gan fwyaf, gan bolisiau a deddfwriaeth llywodraeth ganolog, polisiau a ddylanwadwyd yn fawr gan unigolion a mudiadau a fu'n eirioli a gweithredu dros y Gymraeg, ac a weithredwyd yn aml gan Lywodraeth Leol. Mae'r seiliau yn cynnwys deddfwriaeth i roi statws i'r iaith a hawliau i unigolion, i sicrhau gwasanaethau yn y Gymraeg a rhoi dyletswyddau ar gyrff sy'n gwasanaethu'r cyhoedd, i gyflenwi cyfleon i blant ac oedolion i ddysgu a derbyn addysg drwy'r Gymraeg, i gynnal diwylliant a chelfyddydau a darlledu drwy'r Gymraeg, a chefnogaeth i fudiadau, grwpiau a gweithgaredd cymunedol.

Gofynnwyd i ni i edrych yn benodol ar yr iaith Gymraeg yn ei chynefinoedd traddodiadol yn y gorllewin a'r gogledd, a hynny drwy lens Llywodraeth Leol. Bu Llywodraeth Leol yn ganolog i weithredu polisiau cenedlaethol ac yn arbennig, i gyflenwi cyfundrefn addysg Gymraeg. Mae ein dyled i Lywodraeth Leol yn fawr. Mae Awdurdodau Lleol y gorllewin – Môn, Gwynedd, Ceredigion a Chaerfyrddin – yn flaengar eu cefnogaeth i'r iaith ond mae arfer da i'w weld ym mhob rhan o Gymru. Yn aml, ymarferoldeb yn hytrach nag ewyllys yw'r rhwystr ac mae angen cymorth a chefnogaeth i gychwyn a chynnal newid, yn arbennig mewn ardaloedd ble mae'r Gymraeg yn llai cadarn.

Dywedir yn aml mai gwaith araf yw newid agweddau ac ymddygiad ond mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr arfer gorau yn deillio nid o esblygiad araf ond o benderfyniadau pwrpasol. Cynghorwyr Gwynedd benderfynodd roi blaenoriaeth i'r iaith yn y Nawdegau cynnar, a herio diwylliant can mlynedd o Lywodraeth Leol yng ngogledd Cymru. Mae newidiadau mewn diwylliant ac arfer o fewn Heddlu Gogledd Cymru yn tarddu o benderfyniadau'r Prif

Gwnstabl Richard Brunstrom, dan ddylanwad cyngorwyr Gwynedd ar yr Awdurdod Heddlu. Mae arweiniad cadarnhaol yn drawsnewidiol.

Er hynny, ni fu pob Awdurdod Lleol yn awyddus wrth gefnogi a gwireddu'r polisiau hyn. Gwelsom lawer i frwydr i gynyddu llefydd addysg Gymraeg ac i agor ysgolion newydd, er enghraifft. Yn rhy aml, fe fu'r arweiniad yn amharod a gweithrediadau yn gyfyngedig i gydymffurfio â llythyren y gyfraith.

Cryfhawyd y fframwaith bolisi a deddfwriaethol yn sylweddol gan Fesur yr Iaith Gymraeg 2011 a'r Safonau a ddaeth i rym i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol eleni.<sup>1</sup> Clywsom feirniadaeth ar nifer ac ymarferoldeb y Safonau a osodwyd ar Lywodraeth Leol ond mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i fesur effaith y Safonau ar y defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol feysydd. Er bod y Gweithgor yn optimistaidd y bydd effaith y Mesur yn gadarnhaol yn y tymor hir, clywsom awgrymiadau y gallai arwain at ymddygiad cydymffurfiol, yn hytrach nag at drawsnewid diwylliant a chreu cyrff sy'n gweithredu'n naturiol mewn dwy iaith. Os yw hyn yn brofiad cyffredin, yna bydd gofyn edrych eto ar y ddeddfwriaeth fel nad yw'n arwain at ganlyniadau gwrthnysig.

Bu'r adwaith gan rai Awdurdodau, a nifer yr apeliadau, yn dystiolaeth barhaus efallai nad yw pob rhan o Lywodraeth Leol yn derbyn eu cyfrifoldebau at yr iaith mewn ffordd gadarnhaol a rhagweithiol. Byddai hyn yn siomedig. Bu llawer iawn o'r siroedd ble mae'r Gymraeg yn lleiafrifol iawn heddiw yn ardaloedd oedd yn sylweddol Gymraeg eu hiaith pan sefydlwyd Llywodraeth Leol ar ei ffurf bresennol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rhaid i Lywodraeth Leol, yn ogystal â llywodraeth genedlaethol, gydnabod mai o dan eu gofal nhw y digwyddodd y dirywiad ieithyddol yn ystod mwyafrif yr ugeinfed ganrif. Ar y pryd, prin fu eu hymdrechion i warchod yr etifeddiaeth honno nes pasio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 lai na chwarter canrif yn ôl. Gellir beio hynny ar agweddau'r cyfnod roddodd fri i'r iaith Saesneg fel iaith naturiol llywodraethu, iaith awdurdod. Gallwn obeithio ein bod yn fwy goleuedig heddiw.

Erbyn heddiw, mae tirwedd llywodraethu newydd yng Nghymru yn sgîl datganoli. Mae'r Cynulliad yn gorff deddfwriaethol llawn ac mae dyhead cyffredinol am rôl mwy uchelgeisiol i Lywodraeth Leol. Dyma gyfle felly i gymodi â'r gorffennol, i Lywodraeth Cymru ddeddfu'n ddoeth ac i Lywodraeth Leol gofleidio'r cyfrifoldebau llywodraethol a threftadol sy'n rhoi dyfnder ystyr i'r ymadrodd *Llywodraeth Leol*. Bydd creu gweinyddiaeth gyhoeddus mewn dwy iaith yn gofyn am drawsnewid diwylliant o fewn sefydliadau a fagodd ymroddiad dros ganrif a mwy at yr iaith Saesneg fel unig iaith gweinyddu.

Eleni hefyd daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i rym a gosod fframwaith glir i Awdurdodau sy'n chwilio am gyd-destun statudol cenedlaethol i gefnogi eu hymdrechion dros yr iaith. Mae'r nodau cenedlaethol a'r ffyrdd o weithio yn gwneud hynny yn ddiamwys,

---

<sup>1</sup> Defnyddir y term 'Safonau' yn yr adroddiad hwn i olygu unrhyw safonau a wneir drwy reoliadau o dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.

yn caniatáu ac yn annog Awdurdodau Lleol i ddatblygu polisiâu rhagweithiol tuag at yr iaith. Mae gobaith y bydd Llywodraeth Leol, gyda'i hawdurdod democrataidd, yn manteisio ar y fframwaith statudol honno ac yn dangos arweiniad yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn cyd-weithio yn egniol i roi lle amlwg i'r Gymraeg yn eu cynlluniau llesiant lleol.

Mae'r sialensiau yn fawr, ond mae'r Gweithgor yn gefnogol iawn i rôl Llywodraeth Leol o fewn y wladwriaeth ac yn dadlau y dylid cryfhau'r rôl yna yn sylweddol. Bu amryw o bapurau polisi ar ddiwygio Llywodraeth Leol a ymddangosodd ers cyhoeddi adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ionawr 2014. A rhoi o'r neilltu y broblem ddyrys o strwythur Llywodraeth Leol, sef y map, ymddengys bod cytundeb cyffredinol bod angen diwygio Llywodraeth Leol a bod angen rhyddid newydd arni i fod yn weithgar ac i hybu diwylliant gweithredol o fewn cymunedau. Mae'r rhyddid hwnnw, law yn llaw â'r arweiniad a'r cyfrifoldebau y soniwyd amdanynt uchod, yn hanfodol er llwyddiant y nod o greu cenedl ddwy iaith. Yn arbennig, fe nodwn na fedr Llywodraeth Leol weithredu yn effeithiol ym maes datblygu economaidd lleol er mwyn sicrhau cymunedau Cymraeg cadarn heb fwy o bwerau i wneud hynny a mwy o ymroddiad gan Lywodraeth Cymru i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Leol. Mae'r ffocws cenedlaethol ar y gwobrau economaidd mawr yn ne Cymru yn ddealladwy, ond ni ddylai hynny fod ar draul cynllunio economaidd pwrpasol yng ngweddill y wlad.

Fel y soniwyd uchod, gofynnwyd i ni edrych yn benodol ar yr iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol yn yr ardaloedd hynny ble mae'r Gymraeg yn iaith sylweddol o hyd. Fe benderfynon ni ddehongli hyn i feddwl y prif gynghorau yn siroedd Môn, Gwynedd, Ceredigion a Chaerfyrddin, gan gydnabod fod yr iaith yn parhau'n gryf mewn rhannau o siroedd eraill, megis gogledd sir Benfro ac ardaloedd o siroedd Conwy, Dinbych, Powys ac eraill. Ar yr un pryd, mae cymunedau iaith Gymraeg yn bodoli ym mhob rhan o Gymru, heb o reidrwydd fyw yn yr un stryd na thref, ac mae cymunedau Cymraeg newydd yn tyfu dan ein traed mewn llefydd fel Caerdydd. Oherwydd hynny, bwriadwn ein hargymhellion ar gyfer y cyfan o Lywodraeth Leol, nid dim ond y pedwar sir a enwyd. Credwn yn ogystal fod nifer o'r argymhellion yn berthnasol i'r gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol ac y dylai'r Gweinidogion Cymreig ystyried hynny wrth lunio'u hymateb.

### **Strwythur yr Adroddiad**

Mae amcanion y Gweithgor yn y cylch gorchwyl a roddwyd i ni yn fendithiol syml, sef i gynghori'r Gweinidogion Cymreig ar:

- ddefnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth Llywodraeth Leol;
- rôl Llywodraeth Leol fel hwylusydd datblygu economaidd i gefnogi'r iaith Gymraeg; ac

- i wneud argymhellion ar yr uchod yng nghyd-destun diwygio Llywodraeth Leol a'r dyletswyddau a osodir ar Awdurdodau Lleol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu yn saith adran. Mae'r chwe rhan gyntaf yn ymwneud â'r nod o gynyddu defnydd y Gymraeg fel iaith gwaith a iaith weinyddiaeth yn Llywodraeth Leol. Mae'r dair rhan gyntaf, Arweinyddiaeth Strategol, Arweinyddiaeth Leol a Gweithlu Dwyieithog, yn cwmpasu prif argymhellion heriol y Gweithgor, sef yr angen am arweiniad, gweledigaeth ac ymroddiad gan Lywodraeth ar bob lefel yng Nghymru. Yn ôl ein dadansoddiad, nid yw deddfwriaeth a safonau yn ddigonol heb ymgorffori cyfrifoldebau tuag at Gymru dwy iaith yn yr egwyddorion sy'n waelodol i'n gwasanaethau cyhoeddus. Golyga hyn fynd y tu hwnt i'r fframwaith statudol bresennol. Fe ddylai gwlad sy'n rhoi statws i ddwy iaith fynnu ymroddiad personol, gweledol gan y rhai a gyflogir i arwain cyrff llywodraethol Cymru, a rhoi gofynion ieithyddol sylfaenol ar bawb a gyflogir gan y gwasanaethau hynny. Rhoddir adnoddau sylweddol i gefnogi addysg drwy'r Gymraeg a dysgu Cymraeg hyd at Gyfnod Allweddol 3 a 4, heb ofyn am sgiliau iaith fel arfer cyffredinol wrth recriwtio i'r gwasanaeth cyhoeddus, er bod prinder sgiliau Cymraeg ym mhob rhan o'r gweithlu. Mae hyn yn wastraff afraid.

Mae'r adrannau nesaf, Hyfforddiant, Technoleg a Newid Ymddygiad, yn delio gyda materion ymarferol os am symud o ddifri tuag at sefydliadau cyhoeddus dwy iaith. Mae newidiadau mawr ar droed yn barod ym maes Cymraeg i oedolion ac mae croeso diamwys i'r rheini. Fodd bynnag, bydd angen meddylfryd gwahanol iawn a llawer mwy uchelgeisiol os oes rhaid i'r sector Cymraeg i oedolion ymateb i'r galw am weithlu a fydd, mewn amser, yn ddwyieithog. Rhaid cefnogi hefyd y rhai hynny sy'n arwain gwasanaethau dwyieithog gyda hyfforddiant ôl radd o'r safon uchaf. O ran Technoleg, y syndod i ni oedd cyn lleied o ddefnydd a wneir gan Lywodraeth Leol o gyfieithu peirianyddol, yn dilyn gwaith arloesol gan y Cynulliad. Mae'n faes ifanc o dechnoleg ddigidol sy'n datblygu'n gyflym, ond mae'r cyfleon effeithiolrwydd i Awdurdodau Lleol yn atyniadol iawn. Mae angen arweiniad yn y maes ac adnoddau i sicrhau cynnydd pellach. Mae Newid Ymddygiad, sy'n cwmpasu seicoleg ymddygiad a 'nudge', hefyd yn faes ifanc ble mae gennym lawer i'w ddysgu. Gall lenwi bwlch ble mae offer cyffredin llywodraethau – trethi, deddfwriaeth, polisi – yn llai llwyddiannus.

Yn olaf, fe drowm at yr economi a rhan Llywodraeth Leol yn cefnogi cymunedau iaith Gymraeg cadarn a llewyrchus. Mae dau adroddiad Gweinidogol diweddar wedi ymdrin yn helaeth â'r iaith a'r economi felly nid oes ymdriniaeth debyg yma. Yn hytrach, cefnogwn argymhelliad gweithgor blaenorol y dylid datblygu strategaeth ieithyddol-economaidd ranbarthol gyda ffocws ar drefi Bangor, Aberystwyth, Caerfyrddin a Llanelli. Wrth wraidd y mater y mae ewyllys Llywodraeth Cymru i gynllunio economaidd y tu allan i ddinas-ranbarthau'r de ac i rannu cyfrifoldeb am gynllunio datblygu economaidd gyda Llywodraeth Leol. Yn ail, rydym yn ystyried y ffyrdd y mae Awdurdodau Lleol yn dylanwadu ar ffyniant

economaidd, swyddi a'r economi lleol a sut y gellid defnyddio'r swyddogaethau hyn i hybu ffyniant ieithyddol. Credwn fod hyn yn sail i gynllunio integredig gan Awdurdodau Lleol o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn olaf, talwn beth sylw at oblygiadau hyn oll am ddiwygio Llywodraeth Leol, heb fentro i'r maes polisi yna mewn unrhyw fanylder.

## **Nodyn**

Mae'r adroddiad yn unfrydol gydag un eithriad. Nid yw Chris Burns yn medru cefnogi argymhellion 2(a) a 3. Mae ef o'r farn na ellid gweithredu'r argymhellion hyn mewn rhai neu lawer o ardaloedd Llywodraeth Leol yng Nghymru.

## 1. ARWEINYDDIAETH STRATEGOL

Yn sgîl diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, mae nifer o Awdurdodau Lleol ac eraill wedi mynegi pryder bod bwlch yn yr arweiniad o ran strategaeth ieithyddol genedlaethol, ymgyrchoedd cenedlaethol a diffygion yn y gefnogaeth ymarferol a roir iddynt wrth weithredu'r Safonau, codi uchelgais a rhannu arfer da. Mae hyn yn digwydd ar adeg pan fo gofyn neilltuol am arweiniad a chefnogaeth parod gyda dyletswyddau statudol yn dod i rym. Cred y Gweithgor fod hyn yn adlewyrchu gwendidau ehangach yn y fframwaith strategaeth, statud a seilwaith i'r Gymraeg.

Mae peth o'r cyfrifoldebau hyn yn disgyn o fewn cwmpawd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg. Prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (a3(1) Mesur 2011), gan gynnwys (a4(2)):

- a) hybu darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;
- b) annog arferion gorau o ran defnyddio'r Gymraeg gan bersonau sy'n delio â phersonau eraill, neu sy'n darparu gwasanaethau i bersonau eraill;
- c) cadw digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg o dan arolygiaeth;
- d) llunio a chyhoeddi adroddiadau;
- e) gwneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud;
- f) gwneud gweithgareddau addysgol neu gomisiynu eraill i'w gwneud;
- g) rhoi cymorth (gan gynnwys cymorth ariannol) i unrhyw berson;
- h) gwneud argymhellion ysgrifenedig i Weinidogion Cymru;
- i) cyflwyno sylwadau i unrhyw berson;
- j) rhoi cyngor i unrhyw berson.

Er hynny, ac, oherwydd efallai ei rôl rheoleiddio a'r gwaith manwl sydd wedi bod ynghlwm â gosod y Safonau i nifer fawr o sefydliadau, does dim syndod mai'r canfyddiad cyffredinol yw bod lleihad wedi digwydd yn y gwaith hybu a hyrwyddo hyn. Nid yw'r sylwadau hyn i'w dehongli fel beirniadaeth o'r Comisiynydd na'r gwaith sylweddol a gyflawnodd eisoes wrth osod a gweithredu'r Safonau i gynifer o gyrff cyhoeddus.

Beth felly yw – neu ddylai fod – rôl a swyddogaethau Llywodraeth Cymru? Gofynnodd rhai o'r tystion i ni ystyried a oes angen sefydlu corff ar wahân i ymgymryd â gwahanol swyddogaethau megis cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith. Eu dadl oedd y gallai corff annibynnol fod yn fwy gwrthrychol a dadansoddiadol, ac y gallai weithredu fel 'one stop shop' ar gyfer Awdurdodau Lleol. Barn y Gweithgor a'r mwyafrif o dystion, fodd bynnag, oedd mai Llywodraeth Cymru yw'r corff naturiol i ymgymryd â'r swyddogaethau arweinyddol hyn, gyda'r gallu i greu polisi a chynnig deddfwriaeth o dan arweiniad Gweinidogion Cymru, wedi'i graffu gan bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Credwn fod angen pwerdy cynllunio ieithyddol o fewn y Llywodraeth sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd i roi arweiniad clir. Y canfyddiad yw bod yr adran bresennol wedi datblygu

arbenigedd mewn cynllunio ieithyddol cymunedol, ond bellach fod angen canolbwyntio mwy ar gefnogi cyrff a gwasanaethau cyhoeddus. Dylai'r meysydd gwaith y pwerdy gynnwys:

- datblygu a chynnal strategaeth iaith Gymraeg genedlaethol;
- paratoi deddfwriaeth;
- cynllunio ieithyddol strategol, gyda ffocws ar y gweithle;
- hybu a hyrwyddo'r iaith; a
- rhoi arweiniad mewn meysydd cefnogol i Lywodraeth Leol a chyrff cyhoeddus eraill megis hyfforddiant, datblygiadau digidol ac ymchwil gwreiddiol.

O ran strategaeth genedlaethol a chynllun i'w gweithredu, disgyn y cyfrifoldeb yma ar ysgwyddau Gweinidogion Cymru o dan adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Y strategaeth bresennol yw *iaith fyw: iaith byw*, ynghyd â'r datganiad polisi *Bwrw mlaen* a gyhoeddwyd yn 2014, yn rhannol fel ymateb i ganlyniadau Cyfrifiad 2011 a'r Gynhadledd Fawr. Mae *Bwrw mlaen* yn cydnabod bod angen cryfhau cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg ac mae'r Gweithgor yn cefnogi'r amcan yna. Ond rhaid hefyd wrth weledigaeth wleidyddol glir ar gyfer yr iaith fel sail i gynllunio pendant, gweledigaeth sy'n adeiladu ar y seiliau y mae statws i'r iaith, hawliau unigolion a'r Safonau wedi'u gosod. Wrth 'weledigaeth', golygwn ddatganiad gwleidyddol uchelgeisiol, megis 'miliwn o siaradwyr Cymraeg', 'pob plentyn i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg', 'sefydliadau cyhoeddus gyfan gwbl ddwyieithog'. Byddai datganiad o weledigaeth gan Lywodraeth Cymru a strategaeth i'w weithredu yn gorfodi a galluogi Llywodraeth Leol yn ei thro i godi uchelgais, os cefnogir y weledigaeth â gweithrediadau ymarferol.

Er ei fod yn ddyddiau cynnar, credwn fod angen adolygu a symleiddio Mesur 2011. Gwnaed y Mesur cyn i'r Cynulliad dderbyn pwerau deddfu sylfaenol yn dilyn y refferendwm mis Mawrth 2011 ac mae ôl hynny yn y ffordd y drafftwyd y deddfwriaeth. Ofnwn fod yr hyn a glywsom am gymhlethdod y Safonau a'r ffocws ar broses yn debyg o arwain at ganlyniadau gwrthnysig. Yn ogystal, ac am y rhesymau a rown uchod, credwn fod angen i edrych eto ar y diffiniad o rôl y Comisiynydd yn y Mesur, i sicrhau nad oes gwrthdaro na gorgyffwrdd rhwng ei swyddogaethau rheoleiddio â'i swyddogaethau hybu a hwyluso, ac â dyletswyddau a swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Mae eglurder am y fframwaith arweinyddol hon yn hanfodol. Credwn fod cyfle cynnar i Lywodraeth Cymru gynnig deddfwriaeth newydd i'r Cynulliad fel rhan o'i rhaglen deddfu yn y Pumed Cynulliad.

## **ARGYMHELLIAD 1**

- a) Dylai Llywodraeth Cymru newydd fynegi gweledigaeth uchelgeisiol a chyhoeddi strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg ar frys.**



Y mae angen gweledigaeth hir dymor (20 mlynedd) a chynllun gweithredu sy'n cyfateb i gylch etholiadol (5 mlynedd). O fewn hyn, y mae angen adolygu a diwygio'r fframwaith arweinyddol ar gyfer yr iaith Gymraeg a disgrifio'n eglur rôl y gwahanol elfennau a'r berthynas rhyngddynt h.y. rôl Llywodraeth Cymru a'r fframwaith statudol sy'n cynnwys Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ac is-adeiledd o gyrff nodedig, y gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector a chwmnïau preifat. Dylai'r strategaeth ddatgan yn glir y disgwyliadau sydd ar Lywodraeth Leol.

- b) Dylai Llywodraeth Cymru, ar sail ei strategaeth hir dymor i'r Gymraeg, adolygu a chyflwyno gwelliannau i Fesur 2011 a chyflwyno Bil yr Iaith Gymraeg i'r Cynulliad yn ystod cyfnod y pumed Cynulliad Cenedlaethol (2016-2021).**

Dylai'r Bil ddarparu'n statudol ar gyfer gweledigaeth y Llywodraeth. Byddai nifer o'r argymhellion yn yr adroddiad yma yn gofyn am ddarpariaeth ddeddfwriaethol i'w gweithredu.

- c) Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r mesurau hyn gydag ymgyrch weledol i godi ymwybyddiaeth o le a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn ein bywyd cyhoeddus.**

## **2. ARWEINYDDIAETH LLEOL**

Mae deddfwriaeth yn hanfodol, ond dyw hi ddim yn ddigonol. Mae deddfau wedi ymgorffori statws i'r iaith a sicrhau hawliau i unigolyn yng Nghymru. Mae'r Safonau yn gosod oblygiadau statudol ar Awdurdodau Lleol i ymateb a chynllunio yn gorfforaethol i'r statws a'r hawliau hynny. Dyma'r seiliau cyfansoddiadol a gweinyddol i genedl dwy iaith. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gosod fframwaith ehangach i ystyried yr iaith Gymraeg fel rhan o lesiant unigolion a chymunedau. Dyma fframwaith y gall Awdurdodau Lleol ei defnyddio i sbarduno uchelgais mwy heriol o ran yr iaith Gymraeg a chymunedau Cymraeg. Ond ni fydd hyn yn digwydd heb arweiniad personol sy'n gryf a gweladwy.

Clywodd y Gweithgor am y gwahaniaeth mae arweinyddiaeth weladwy yn gallu ei wneud i ddiwylliant ieithyddol cyrff cyhoeddus, er enghraifft, yng nghyd-destun cynghorau Gwynedd, Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin, ac yn achos cyrff eraill megis Cyngor Gofal Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Clywsom am bwysigrwydd *ymddygiad* fel modd o gyfleu arweinyddiaeth weladwy mewn sefydliadau cyfoes. Mae'r Gweithgor o'r farn nad yw'r mwyafrif o arweinwyr a gweinyddwyr y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys rannau

helaeth o Lywodraeth Leol a'r Gwasanaeth Sifil, eto'n cydnabod beth yw'r cyfrifoldebau a'r heriau *personol* sy'n ganlyniad i lywodraethu a gweinyddu mewn gwlad dwy iaith. Mae'r oblygiadau yn cynnwys sgiliau ieithyddol fel modd i ymgorffori gwerthoedd ac egwyddorion drwy ymddygiad, y dawn i feithrin diwylliant dwyieithog cynhwysol a'r her technegol o weinyddu a chyflenwi gwasanaethau mewn dwy iaith.

Gellid disgwyl gweld ymateb i'r fframwaith statudol presennol yn y ffordd rydym yn paratoi ein harweinwyr, yn hyfforddi ein prif swyddogion, ac yn iaith a gwead y drafodaeth am y berthynas rhwng arweinwyr cenedlaethol a phoblogaeth Cymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod cefndir defnyddiol, ond nid yw'n ddigonol ar ei phen ei hun. Mae'n siomedig, er enghraifft, nad yw'r datganiad o werthoedd ac egwyddorion Un Gwasanaeth Cyhoeddus gan Academi Wales yn cydnabod yr heriau unigryw sy'n wynebu arweinwyr yng Nghymru na'r cyfrifoldebau unigryw sydd ganddynt tuag at yr iaith. Pe bai darpar ymgeisydd o du hwnt i'r ffin yn cynnig am swydd prif weithredwr neu gyfarwyddwr addysg mewn Awdurdod Lleol yng Nghymru, er enghraifft, ac yn cyfeirio at y gwerthoedd a'r egwyddorion hynny, go brin y byddai'n sylweddoli beth yw'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth arwain mewn gwlad ddwyieithog.

Mae arwain gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn golygu mwy na sicrhau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Mae'n golygu dangos arweiniad drwy ymddygiad i genedl dwy iaith ac mae hyn yn wahaniaeth sylfaenol rhwng arwain Awdurdod Lleol yng Nghymru ac Awdurdod cyffelyb yn Lloegr. Oni chofleidir hyn yn egnïol gan arweinwyr Awdurdodau Lleol Cymreig, a'r rhai sydd yn paratoi arweinwyr y dyfodol, byddant yn methu yn hanfodion y swydd.

Er mwyn dangos yr ymddygiadau cymwys, cred y Gweithgor na fedr arweinwyr Awdurdodau Lleol (golygwn wrth hyn y prif swyddogion cyflogedig) gyflawni eu cyfrifoldebau oni bai fod ganddynt lefel o hyfedredd yn y Gymraeg sy'n ddigonol i allu cyfathrebu yn uniongyrchol yn iaith ddewisol y rhai y maent yn eu gwasanaethu, os dim byd arall o ran cwrtseisi syml a pharch tuag at y rhai sy'n talu eu trethi. Does dim byd allan o'r cyffredin am yr iaith Gymraeg. Mae sgiliau iaith, fel a glywsom gan Heddlu Gogledd Cymru, yn sgiliau y gall pob unigolyn eu caffael drwy hyfforddiant addas. Rydym yn disgwyl ac yn gwobrwyo arweinwyr i fod â sgiliau uchel ac fe ddylai lefel o hyfedredd ieithyddol yn nwy iaith swyddogol y wlad fod yn rhan o hynny. Dylai'r disgwyliad yma gwmpasu fan lleiaf y rhai sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am ein Hawdurdodau Lleol ac am weithlu'r Awdurdod, a'r rhai sy'n gyfrifol am wasanaethau i blant a phobl ifanc, pobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed.

## **ARGYMHELLIAD 2**

- a) Dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu er mwyn sicrhau bod lefel o hyfedredd yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swyddi canlynol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru:**

- **Y pennaeth gwasanaeth cyflogedig a'r prif weithredwr:** y person yma sy'n gyfrifol am staff a gweithlu'r Awdurdod Lleol. Fel arfer, y prif weithredwr sy'n cyflawni'r ddwy swyddogaeth.
- **Y cyfarwyddwr corfforaethol gyda chyfrifoldeb am adnoddau dynol,** yn cynnwys cynllunio gweithlu, recriwtio a hyfforddiant.
- **Y cyfarwyddwr addysg:** y person hwn sy'n gyfrifol am addysg a llesiant ein plant a phobl ifanc
- **Y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol:** y person hwn sy'n gyfrifol am lesiant pobl sy'n agored i niwed.

Dylai pob un o'r swyddi uchod gyrraedd Lefel 1 o hyfedredd ieithyddol fewn y cyfnod prawf.<sup>2</sup> Rydym o'r farn, yn dilyn esiampl Heddlu Gogledd Cymru, y dylai deiliaid y swyddi penodol hyn fod o dan ddyletswydd statudol i gynyddu eu sgiliau iaith gydag amser, er enghraifft, i gyrraedd Lefel 3 erbyn diwedd 3 blynedd yn y swydd, a lefel 4 o fewn 7 mlynedd. Wrth gwrs, bydd rhai Awdurdodau yn dymuno gosod gofynion hyfedredd iaith uwch wrth recriwtio. Rhaid i'r gofynion ieithyddol fod yn rhan o gytundeb cyflogaeth y swyddi dynodedig hyn.

Mae'r argymhelliad hwn yn estyniad o'r disgwyliadau sylfaenol y credwn ddylai fod yn berthnasol i bob aelod newydd o staff (gw. Argymhelliad 4).

- b) Os nad yw'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol ganddynt yn barod, dylai'r ddeddfwriaeth roi dyletswyddau statudol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu hyfforddiant addas a neilltuo amser i'r unigolion penodedig, er mwyn eu galluogi i gael y sgiliau iaith hanfodol.**
- c) Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddiadau i Academi Wales (ac unrhyw sefydliad cenedlaethol arall sy'n paratoi hyfforddiant arweinyddiaeth i'r sector gyhoeddus yng Nghymru) er mwyn sicrhau amlygrwydd i'r Gymraeg yn egwyddorion Un Gwasanaeth Cyhoeddus ac y dylai Academi Wales baratoi hyfforddiant i arweinwyr y gwasanaethau cyhoeddus yn y sialensiau a'r cyfrifoldebau sy'n wynebu arweinwyr mewn gwlad dwy iaith.**

Dylai'r Pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad gymryd cyfrifoldeb am graffu ar weithgareddau a chynnydd Academi Wales yn y maes allweddol hwn.

---

<sup>2</sup> Mae amryw o ffyrdd o ddiffinio lefelau o hyfedredd iaith. Yn y cyd-destun hwn, bwriedir 'lefel 1' i olygu sgiliau llafar sylfaenol, a 'lefel 4' hyfedredd lefel uwch wrth siarad, darllen ac ysgrifennu'r iaith. Gweler y drafodaeth yn Adran 4.

### 3. GWEITHLU DWYIEITHOG

Clywsom gryn dipyn gan gyfranwyr am y buddsoddiad yr ydym yn ei wneud fel cenedl mewn addysg Gymraeg – addysg cyfrwng Cymraeg i'r rhai sy'n dymuno, a dyletswydd statudol i bob plentyn astudio'r Gymraeg tan flwyddyn 11, sef 15 oed. Mae ymrwymiad y Llywodraeth a'r pleidiau gwleidyddol at addysg Gymraeg i'w groesawi fel un o seiliau pwysicaf strategaeth iaith. Erbyn heddiw, *dylai* pob person ifanc yng Nghymru feddu ar sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg. O'r hyn a glywn, nid dyma'r gwirionedd ond mae'r diffyg archwilio gan Estyn yn golygu nad oes gennym dystiolaeth gadarn un ffordd neu'r llall.

Fodd bynnag, hyd yn hyn, prin fu'r camau i hybu'r galw am sgiliau Cymraeg drwy lunio llwybrau gyrfa a allai wneud defnydd o'r sgiliau hynny mewn meysydd proffesiynol yn y gwasanaeth cyhoeddus. Mae mwy o waith i wneud hefyd i hybu galw am wasanaethau yn y Gymraeg. Mewn geiriau eraill, mae polisïau dros y blynyddoedd diwethaf wedi canolbwyntio ar gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ac argaeledd gwasanaethau yn y Gymraeg, heb gynyddu'r galw am y sgiliau a'r gwasanaethau hynny. Yn nhermau economaidd, mae angen gwell gytbwysedd rhwng polisïau ochr gyflenwi a pholisïau i gynyddu galw.

Ac eto, clywsom lawer am y prinder ymgeiswyr am swyddi sy'n siarad Cymraeg a'r costau sy'n dilyn o orfod hyfforddi staff yn y Gymraeg, ac am y sialensiau y mae'r Safonau yn eu creu ble nad oes digon o siaradwyr Cymraeg o fewn gweithlu Awdurdod Lleol. Clywsom am brinder siaradwyr Cymraeg mewn proffesiynau penodol, er enghraifft, y gwasanaethau cymdeithasol. Eto i gyd, cyflwynodd Comisiynydd yr Iaith dystiolaeth mai allan o 595 hysbyseb swydd o 9 Awdurdod Lleol a wiriwyd, dim ond 12 swydd oedd yn cynnwys gofynion ieithyddol statws hanfodol (2%) a dim ond 10 (1.7%) oedd yn cynnwys gofynion ieithyddol statws dymunol.

Rhaid gofyn y cwestiwn yn blwmp ac yn blaen: beth yw diben addysgu cenedlaethau o bobl ifanc drwy'r Gymraeg neu i siarad Cymraeg oni gwneir defnydd o'r sgiliau hynny mewn gwasanaethau cyhoeddus sydd â gofynion statudol dwy iaith arnyn nhw?

Y mae angen cynllunio blaenllaw gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i sicrhau bod rhieni a disgyblion yn deall bod galw am sgiliau Cymraeg yn y gweithle, a hynny mewn ystod eang o swyddi a phroffesiynau, a bod siaradwyr Cymraeg yn cael cyfle i ddefnyddio'u sgiliau i'w llawn botensial pan maent mewn gwaith. Mae'r diffyg dilyniant rhwng gwahanol gyfnodau addysg â byd gwaith yn golygu bod y rhai sydd wedi'u haddysgu yn y Gymraeg neu wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol yn aml yn colli eu sgiliau. Y mae cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i sicrhau nad yw hyn yn digwydd, er budd datblygiad personol yr unigolion ac er budd economi Cymru.

Byddai hyn yn gymorth i normaleiddio defnydd y Gymraeg a gwneud sgiliau yn y Gymraeg yn rhai a werthfawrogir gan gyflogwyr oherwydd bod galw amdanynt. Mae'r mater yn arbennig o berthnasol i Awdurdodau Lleol sydd nid yn unig yn gyfrifol am gyflenwi addysg Gymraeg, ond yn gyflogwyr lleol blaenllaw. Mae cyfle i fanteisio llawer mwy ar y cyswllt

rhwng y buddsoddiad ym maes addysg Gymraeg, y dyletswyddau dan Fesur 2011 â gofynion y gweithlu.

Mae Cyngor Sir Gwynedd wedi arwain y ffordd yn hyn o beth drwy osod y Gymraeg yn iaith weinyddol swyddogol y Cyngor. Mae hyn yn creu galw am sgiliau Cymraeg sy'n sicr o gael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd y Gymraeg mewn cymunedau lleol a chreu llwybrau gyrfa proffesiynol sy'n cwmpasu sgiliau ieithyddol. Mae'r Gweithgor yn croesawu camau gan gynghorau eraill, yn arbennig Ynys Môn, Ceredigion a Sir Caerfyrddin, i symud i'r un cyfeiriad. Ni ddylai unrhyw ailstrwythuro ar Lywodraeth Leol wanhau gallu Awdurdodau sy'n dymuno gweinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog i wneud hynny.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi dangos yn glir bod modd gosod disgwyliadau ieithyddol ar staff a'u cymell i wella eu sgiliau iaith er mwyn cyflawni nodau'r gweithle, gan gofio bod Heddlu Gogledd Cymru yn gweithredu mewn ardaloedd ble mae'r Gymraeg yn brif iaith a rhai ble mae defnydd o'r iaith yn y gymuned yn isel. Tu ôl i'r polisi mae agenda arweinyddiaeth Heddlu Gogledd Cymru sy'n mynnu mai'r lleiaf y dylai'r cyhoedd ddisgwyl yw bod pob heddwys yn gallu deall ac ynganu enwau personol ac enwau llefydd yn y Gymraeg, a dangos cwrteisi sylfaenol yn y Gymraeg. Mae ymarferoldeb y polisi yn dibynnu ar y ffaith eu bod yn trin sgiliau iaith fel unrhyw sgiliau eraill, sgiliau y gall unigolion eu cael drwy hyfforddiant, eu gwella drwy ymarfer, ac y gellir eu mesur.

Fel canlyniad, mae rhaid i ymgeiswyr ar gyfer swydd yn Heddlu Gogledd Cymru allu dangos sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg cyn iddynt gael eu penodi ac ymrwymo i gyrraedd lefel uwch yn ystod y cyfnod prawf fel rhan o'r cytundeb gwaith. Mae'r polisi yn nodi bod angen i'r sawl sy'n ymgeisio am ddirchafiad allu dangos cwrteisi iaith yn Gymraeg (lefel 2 ar fframwaith yr Heddlu) er mwyn cael eu hystyried, os nad ydynt eisoes yn gallu siarad Cymraeg. Rhaid hefyd ymrwymo i symud i lefel 3 erbyn diwedd y cyfnod prawf ar ôl dyrchafiad.<sup>3</sup>

Mae hyfforddiant iaith yn cael ei ddarparu yn y gweithle i gefnogi staff i gyflawni'r gofynion hyn a sicrhau nad oes perygl o gamwahaniaethu. Noda Heddlu Gogledd Cymru mai'r ffordd fwyaf effeithlon o gynyddu capasiti iaith yw drwy recriwtio sgiliau dwyieithog da o'r cychwyn cyntaf. Rôl hyfforddiant iaith Gymraeg yn y gweithle yw i helpu i lenwi bylchau sgiliau iaith yn y gweithlu, er budd y gwasanaeth.

Ymddengys i'r Gweithgor bod polisïau Heddlu Gogledd Cymru yn parchu'r ethos o wlad dwy iaith ac yn dangos y ffordd ymlaen i'r holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn ddiweddar, gwelwyd cynghorau siroedd Caerfyrddin a Cheredigion yn mabwysiadu polisïau tebyg i sicrhau fod pob swydd newydd yn gofyn am o leiaf lefel sylfaenol o hyfedredd yn y Gymraeg, gan gynnig hyfforddiant addas os nad yw'r ymgeisydd llwyddiannus eisoes yn medru'r iaith i'r lefel briodol.

---

<sup>3</sup> Mae gan Heddlu Gogledd Cymru fframwaith gallu yn y Gymraeg sy'n cynnwys lefelau 0 – 5 i fesur hyfedredd yn yr iaith. Gweler trafodaeth pellach yn Adran 4.

Dylai Llywodraeth yng Nghymru ymateb yn gadarnhaol ac yn egnïol i esiampl Heddlu Gogledd Cymru a chynghorau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin drwy fabwysiadu'r un polisiâu drwy statud genedlaethol ar gyfer Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol. Cred y Gweithgor fod angen datgan, fel rhan o'r weledigaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg, uchelgais cenedlaethol i ddatblygu gweithlu dwyieithog yn y gwasanaethau cyhoeddus o fewn degawd ac i roi ar waith y sgiliau yr ydym yn buddsoddi cymaint ynddynt drwy'r gyfundrefn addysg.

Mae'r argymhellion yn y rhan yma yn disgyn yn ddwy ran. Mae'r gynta'n ymwneud â pholisi gweithlu dwyieithog a'r ail yn gosod allan y camau y bydd eu hangen er mwyn ymateb i'r gofynion hynny drwy gynllunio gweithlu. Ni fyddai'n bosib cyrraedd y nod o weithlu dwyieithog heb newidiadau sylfaenol yn y ffordd y darperir hyfforddiant yn y Gymraeg ac ar gytundeb cyffredinol ar ddiffiniadau'r gwahanol lefelau o hyfedredd. Ymdrinnir â hyn yn Adran 4. Er bod y ffocws yn yr adroddiad hwn ar Lywodraeth Leol, credwn fod yr argymhellion yn berthnasol i Lywodraeth Cymru a'r holl wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

### **ARGYMHELLIAD 3**

#### **Gweithlu Dwyieithog**

**Dylai sgiliau iaith Gymraeg fod yn hanfodol ar gyfer pob swydd newydd mewn pob Awdurdod Lleol yng Nghymru.**

Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu sgiliau iaith lafar sylfaenol (lefel 1) ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi, ar batrwm polisi Heddlu Gogledd Cymru. Dylai'r gofynion sylfaenol ar gyfer apwyntiadau newydd godi i lefel 2 o fewn 10 mlynedd. Mewn geiriau eraill, erbyn 2026 ni ddylai unrhyw swydd newydd mewn Awdurdod Lleol yng Nghymru fod â gofynion iaith lai na lefel 2. Dylai Awdurdodau Lleol fod â rhyddid i osod lefel uwch fel lefel hyfedredd sylfaenol ar gyfer eu Hawdurdod.

Dylid ystyried cynnwys athrawon newydd o fewn yr argymhelliad hwn, fel bod ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sgiliau sylfaenol ynddi yn hanfodol i bob athro newydd sy'n gweithio o fewn y gyfundrefn addysg yng Nghymru.

Ni ddylid dehongli'r uchod i olygu bod modd gostwng nifer y swyddi sydd yn gofyn am lefelau 4 a 5 o allu yn y Gymraeg. Mae'n angenrheidiol sicrhau bod nifer digonol o staff o fewn sefydliadau yn meddu ar sgiliau Cymraeg lefel 4 a 5, a hynny mewn ystod o feysydd gwaith a lefelau swyddi. Er mwyn gweinyddu'n ddwyieithog yn effeithiol, mae'n rhaid i sefydliadau gael màs critigol o staff sy'n gallu gweinyddu drwy'r Gymraeg. I Awdurdod Lleol sy'n gweinyddu'n *bennaf* drwy'r Gymraeg, bydd angen i ran helaeth o swyddi fod ar lefel 4 a 5.

Byddai'n rhaid wrth hyfforddiant priodol i gefnogi staff i gaffael y sgiliau perthnasol, ynghyd â chymau gan yr Awdurdod Lleol i gefnogi, hybu a hyrwyddo dwyieithrwydd yn y gweithlu (gweler Argymhelliad 4).

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n ymgorffori'r nod o weithlu gwasanaeth cyhoeddus dwyieithog, un ai drwy ddarpariaeth mewn Deddf yr Iaith Gymraeg newydd neu drwy ymgorffori'r gofynion hyn mewn Safonau newydd dan Fesur 2011.

## **ARGYMHELLIAD 4**

### **Cynllunio Gweithlu**

**Dylai Awdurdodau Lleol, gan gynnwys yn eu swyddogaethau fel Awdurdodau Addysg Lleol, fod dan ddyletswydd statudol i gynllunio gweithlu o safbwynt sgiliau ieithyddol, a lle bo angen, i baratoi hyfforddiant addas i gwrdd â'r anghenion hynny.**

Yr hyn a olygwn wrth 'gynllunio gweithlu' yw materion fel rhagweld y galw am a'r cyflenwad o sgiliau arbennig, cynllunio recriwtio a chadw staff, awdit sgiliau a dadansoddiad o'r bylchau, rheoli talent, cynllunio swyddi, cynllunio gyrfaedd ag ati. Byddai hyn yn cynnwys dynodi'r lefel o hyfedredd yn y Gymraeg sy'n hanfodol ar gyfer pob swydd. Wrth adolygu Mesur 2011, dylid ystyried i ba raddau mae'r Safonau presennol yn gwreiddu gofynion cynllunio gweithlu yn effeithlon.

## **4. HYFFORDDIANT**

Nid yw cyrraedd y nod o weithlu dwyieithog yn bosib oni thrawsnewidir hyfforddiant Cymraeg i oedolion ac yn arbennig, hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle. Fe wnaeth yr adroddiad *Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion* (2013) nifer o argymhellion pwysig ynghylch y ddarpariaeth, gan nodi, ymysg pethau eraill, ddiffygion y ddarpariaeth ar gyfer y gweithle. Hyd yn hyn, bu'r sylw mwyaf ar ofynion dysgwyr yn y cartref a'r gymuned, sef rhieni a theuluoedd, ac unigolion sy'n dymuno dysgu Cymraeg. Mae Mesur 2011 wedi newid y cyd-destun yn llwyr drwy osod dyletswyddau statudol ar gyrff cyhoeddus.

Wedi clywed y dystiolaeth, mae'r Gweithgor o'r farn mai'r flaenoriaeth ar gyfer Cymraeg i oedolion yw Cymraeg yn y gweithle, ond rhaid fod yn eglur mai pwrpas yr hyfforddiant yw i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau statudol. Rhaid i'r ddarpariaeth ymateb i ofynion y gwasanaethau cyhoeddus a bod yn gost effeithiol. Rhaid i'r canlyniadau fod yn gyflym ac yn fesuradwy. Ni ddylai Llywodraeth Cymru gefnogi darpariaeth ar gyfer y gweithle nad yw'n cwrdd â'r gofynion hyn.

Fel canlyniad i *Codi Golygon*, sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol (yr Endid) gan Lywodraeth Cymru yn 2015, drwy grant am gyfnod o 7 mlynedd. Pwrpas y Ganolfan yw:

- gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol i'r sector Cymraeg i Oedolion;
- cynnig arweiniad i ddarparwyr Cymraeg i Oedolion;
- codi safonau addysgu a dysgu Cymraeg i Oedolion; a
- datblygu cwricwlwm cenedlaethol difyr, priodol ac o safon a chynhyrchu adnoddau sy'n addas i bob math o ddysgwyr.

Mae'r Gweithgor yn frwd ei gefnogaeth i rôl y Ganolfan. Mae'r Ganolfan wedi gostwng y nifer o ddarparwyr o bump ar hugain i ddeg, gyda Chymraeg yn y gweithle yn rhan o'u cylch gwaith. Mae'r darparwyr hyn yn gweithredu rhaglenni o waith a gytunir gyda'r Ganolfan ac a ariennir drwy grant. Y mae gofyn hefyd am ddarparwyr masnachol y gall cyrff cyhoeddus brynu gwasanaethau ganddynt i lenwi bylchau ac ymateb i ofynion y tu allan i raglenni'r Ganolfan. Dylai'r fframwaith ar gyfer y ddarpariaeth fasnachol weithredu dan strategaeth y Ganolfan ond ni ddylai gyfyngu ar arloesedd. Prin yw'r adnoddau sydd gan gyrff cyhoeddus i ariannu hyfforddiant, felly mae'n hanfodol bod ganddynt sicrwydd bod y ddarpariaeth honno yn cynnig gwerth am arian, yn safonol ac yn gweithredu o fewn strategaeth genedlaethol. Ond ni ddylai'r Ganolfan na'r Gwasanaeth Caffael Genedlaethol gyfyngu ar arloesedd.

Clywodd y Gweithgor amryw o weithiau am hyfforddiant yn y gweithle nad oedd yn addas at ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol nac yn sensitif i gyd-destun a gofynion y busnes. Y mae angen un set o sgiliau llafar ar weithwyr sy'n ymdrin â'r cyhoedd yn uniongyrchol, a ieithwedd dra gwahanol ar gyfer rheolwyr sy'n ymdrin â dogfennau mewn cystrawen fusnes. Y mae angen un math o ddarpariaeth ar gyfer y rhai sy'n dysgu Cymraeg o'r newydd, a ddarpariaeth dra gwahanol ar gyfer siaradwyr rhugl ond swil neu rai a ddysgodd yn yr ysgol fel ail-iaith ond sydd angen geirfa arbenigol a gloywi iaith. Mae'r grwpiau olaf hyn yn bwysig iawn o ran datblygu gweinyddiaeth ddwyieithog a bydd angen hyfforddiant llai dwys arnynt na'r rhai sy'n dysgu'r Gymraeg.

Yn hollbwysig, mae'n rhaid i ddarpariaeth hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle fod yn addas at ofynion y busnes, hynny yw, i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u dyletswyddau statudol ac i weithredu polisiau iaith lleol. Y busnes yw'r cwsmer, nid yr unigolyn sy'n derbyn yr hyfforddiant. Rhaid i fformat yr hyfforddiant fod yn gymwys at arferion gwaith y busnes. Nid yw cyrff cyhoeddus yn gallu rhyddhau staff am gyfnodau hir o'u swyddi a gellir gwneud mwy o adnoddau a chyfleoedd digidol a rannir ar draws y sector gyhoeddus. Y mae angen ar Lywodraeth Leol atebion pragmataidd, pwrpasol a chost-effeithiol.

Gallwn ddisgwyl y bydd sefydliadau yn hawlio mwy o dystiolaeth am effeithiolrwydd hyfforddiant. Bydd rhaid wrth dystiolaeth bod hyfforddiant yn dangos canlyniadau mesuradwy, bod aelodau staff yn gallu ymgymryd â mwy o ddyletswyddau ar ôl hyfforddi, a bod adrannau adnoddau dynol yn gallu dangos gwerth am arian i'r busnes. Bydd disgwyl i'r



Ganolfan fedru dangos fod strategaeth newydd yn arwain at newid mesuradwy mewn ymddygiad, diwylliant a defnydd y Gymraeg o fewn a chan gyrff cyhoeddus.

Mae'r angen am newid yn fawr. Rydym yn ymwybodol o'r cyfyngiadau adnoddau ar y Ganolfan ond rydym yn ei hargymell i weithio ar frys i roi cyfeiriad clir ac arloesol i hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle a chynorthwyo'r darparwyr i addasu yn gyflym at yr anghenion newydd.

Cafwyd cryn drafodaeth ar ddiffinio lefelau o hyfedredd yn y Gymraeg. Mae'n ymddangos bod y mwyafrif o gyrff cyhoeddus yn defnyddio ryw ffurf ar fframwaith safonol ALTE (*Association of Language Testers in Europe*) sy'n cwmpasu lefelau 0-5 o hyfedredd. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu'n gryf bod cyrff cyhoeddus wedi dehongli'r lefelau yn wahanol, fel nad yw'n bosib dweud bod lefel 2 yn fframwaith ALTE mewn un corff yn golygu yr un peth â lefel 2 mewn corff arall. Gall fod resymau da am hyn ond mae'n rhwystro ymdrechion i alluogi unigolion i symud yn rhwydd rhwng gwahanol rannau o'r gwasanaeth cyhoeddus ac i fesur lefelau hyfedredd ieithyddol mewn ffordd gyson a chredadwy. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad yn y maes hwn.

Yn gysylltiedig â hyn mae'r cwestiwn o gydnabod sgiliau iaith drwy werthusiad annibynnol. Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi'r sicrwydd mae tystysgrifau cydnabyddedig yn eu rhoi. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi datblygu tystysgrif sgiliau iaith ond ar hyn o bryd fe'i anelir yn bennaf at fyfyrwyr ar gyrsiau coleg. Cred y Gweithgor fod cyfle i ddatblygu'r tystysgrif i fod yn brawf cydnabyddedig o gyrhaeddiad ieithyddol i gyflogwyr a'i marchnata fel rhan o'r cyflenwad hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle. Gallai hwn fod yn rhywbeth i weithredu'n gyflym arno.

Rhaid ystyried hefyd hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pwyslais polisi cyflogaeth y Llywodraeth ar gyfer y grŵp oedran 16-24 yn gwyro tuag at brentisiaethau, sgiliau galwedigaethol a dysgu mewn swydd a thrwy brofiad. Mae cyfle parod ar gael i ddatblygu gweithlu sector gyhoeddus dwyieithog drwy fynnu bod rhai prentisiaethau i'w hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg, a sicrhau na cholllir gwerth y buddsoddiad mewn addysg Gymraeg yn y cyfnod ar ôl gadael ysgol neu goleg. Mae rhan allweddol i'n colegau addysg bellach yn hyn. Er na chafodd y Gweithgor amser i ddilyn y trywydd yma, clywsom dystiolaeth bod nifer y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg colegau wedi gostwng yn ddirfawr yn y dair blynedd diwethaf. Mae'n glir fod gwaith i'w wneud.

Clywsom nifer o weithiau am aelodau etholedig a swyddogion yn y Cynulliad a chynghorau led led Cymru sy'n rhugl eu Cymraeg ar gyfer defnydd bob dydd ond yn ddihyder pan ddaw at y math o iaith a ddefnyddir ar gyfer trafodaeth mewn siambr democrataidd neu bwyllgor neu wrth weinyddu – iaith polisi, strategaeth, cynllunio ac achosion busnes, iaith dylanwadu a pherswâd. Fel y clywsom gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, adlewyrchir hyn yn y ddarpariaeth gymharol denau ar gyfer cyrsiau ôl-radd drwy gyfrwng y Gymraeg mewn proffesiynau penodedig, a'r nifer gymharol fechan o uwch reolwyr a phenaethiaid mewn

Llywodraeth Leol (ac o fewn Llywodraeth Cymru, o ran hynny) sy'n medru'r Gymraeg neu yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n anodd dod o hyd i ffigurau dibynadwy ac mae lle i'r Llywodraeth wneud mwy o waith ymchwil fel bod sylfaen gwybodaeth am hyfedredd Cymraeg uwch reolwyr y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Byddai cynllunio gweithlu priodol gan Lywodraeth Leol yn gymorth i lenwi bylchau yn ein dealltwriaeth o alluoedd ieithyddol y garfan bresennol a charfan y dyfodol o arweinwyr yng Nghymru.

Er mwyn datblygu cenedlaeth o uwch reolwyr sydd yn hyderus eu Cymraeg, mae angen cyrsiau ôl-radd drwy gyfrwng y Gymraeg mewn gweinyddiaeth gyhoeddus a chynyddu'r nifer sy'n dilyn hyfforddiant ôl-radd o fewn proffesiynau penodol ble mae'r galw yn cynyddu, er enghraifft, gwasanaethau cymdeithasol. Ni fydd hyn yn hawdd. Gŵyr y Gweithgor am dim ond un cwrs ôl-radd cyffredinol (MPA) yn y blynyddoedd diwethaf fu'n agored i aelodau etholedig a swyddogion ac a ariennir gan Lywodraeth Leol ei hun (Torfaen). Mae rhai Awdurdodau, os nad y mwyafrif, yn ariannu datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer rhai o'r proffesiynau, yn bennaf gwasanaethau cymdeithasol. Ac wrth gwrs mae bwydlen o weithdai a chysiau gan Academi Wales i'w gynnig, er ei fod yn aneglur faint ohonynt, os unrhyw rai, sydd ar gael yn Gymraeg. Ond yn gyffredinol, tenau yw'r adnoddau a roir i hyfforddi arweinwyr a gweinyddwyr y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a thenau iawn ble mae'r hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn rhwystr i ddatblygu carfan o arweinwyr sy'n gwbl gyffyrddus wrth weithredu drwy'r Gymraeg.

## **ARGYMHELLIAD 5**

- a) Dylai'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer Cymraeg yn y gweithle erbyn diwedd 2016, i'w gyflenwi gan y darparwyr o ddechrau mis Medi 2017.**

Rhaid i'r strategaeth ymateb i ofynion y gwasanaethau cyhoeddus a'u cynorthwyo i gwrdd â'r Safonau. Dylid mabwysiadu fframwaith gyson i asesu sgiliau (gweler (c) isod) ac ystyried sut i gynnwys achrediad annibynnol, er enghraifft, drwy dystysgrif y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

- b) Dylai cyflenwyr masnachol hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle a fwriedir at ddefnydd y gwasanaethau cyhoeddus gael eu cytundebu o fewn fframwaith strategol a osodir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.**

- c) Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu un fframwaith hyfedredd iaith Gymraeg safonol i'w defnyddio gan y sector gyhoeddus gyfan yng Nghymru.**

Dylai'r fframwaith fod yn seiliedig ar un ALTE gyda diffiniadau clir o ystyr y gwahanol lefelau o hyfedredd sy'n gyfatebol, er enghraifft, rhwng Bwrdd Iechyd ag Awdurdod Lleol. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb ar draws y sectorau gwahanol ac yn hwyluso'r gwaith o gynllunio gweithlu dwyieithog.

## ARGYMHELLIAD 6

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgolion Cymru i sicrhau bod cwrs Masters in Public Administration (MPA) cyfrwng Cymraeg ar gael i arweinwyr y dyfodol mewn Llywodraeth Leol, ac ariannu 8 o lefydd bob blwyddyn am y pum mlynedd nesa.**

## 5. TECHNOLEG

Mae technoleg digidol a deallusrwydd artiffisial yn dechrau cael effaith pell-gyrhaeddol ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfundrefnau dwy iaith. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gwneud gwaith arloesol yn ystod y pum mlynedd diwethaf mewn dwy ffordd nodedig, sef drwy gydweithio gyda Microsoft i ddatblygu gallu Cymraeg o fewn Microsoft Translator, ochr yn ochr â'r defnydd o gof cyfieithu, a thrwy ddatblygu cyfundrefn gweithio dwy iaith o fewn y Cynulliad sy'n astudiaeth achos i sefydliadau eraill. Beth bynnag yw llwyddiannau'r datblygiadau cyffroes hyd yn hyn, gallwn ddisgwyl i alluoedd cyfieithu peirianyddol mewn print ac ar lafar ddatblygu yn bell iawn o fewn y degawd nesaf.

Mae'n werth nodi, bod gweithio aml-ieithog o fewn gwasanaethau i'r cyhoedd yn gyffredin mewn llawer iawn o wledydd. Nid Gwlad y Basg a Chanada yw'r unig gymariaethau ond yr India a'r rhan fwyaf o wledydd y dwyrain pell, er enghraifft, a hefyd cwmnïau sy'n gweithio'n rhyngwladol, gan gynnwys y rhai amlwg megis Microsoft, Amazon a Dell a miloedd o rai canolig a llai eu maint. Dyma faes, felly, ble mae profiad ac astudiaethau busnes lu ar gael.

Mae Microsoft yn amlinellu chwech o amgylchiadau ble gall cyfieithu peirianyddol fod o fudd i'r busnes. Er mai busnesau preifat yw prif darged Microsoft, mae'r amgylchiadau yr un mor berthnasol i'r defnydd o ddwy iaith mewn Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

- Parodrwydd a hyfforddiant
  - Darparu cynnwys a hyfforddiant mewn ieithoedd lluosog.
- Cymorth cwsmeriaid
  - Integreiddio cyfieithu awtomatig yn y llif gwaith.
- Lleoleiddio a phersonoleiddio gwefannau
  - Drwy gyfuno cyfieithu dynol ac awtomatig.
- Cyfathrebu mewnol

- Meithrin cyfathrebu ymhlith staff drwy alluogi rhannu gwybodaeth amlieithog drwy ebost, negeseua gwib ag ati.
- Cymunedol a chymdeithasol
  - Defnyddio cymorth ieithyddol i ychwanegu gwerth ar gyfryngau cymdeithasol (Twitter, Facebook ag ati), fforymau defnyddwyr ac yn y blaen.
- Gwybodaeth am y busnes
  - Grymuso dadansoddiad cynhwysfawr o wybodaeth busnes amlieithog er mwyn gwella penderfyniadau busnes.

Gellir disgwyl gwelliannau cyson dros amser wrth i'r feddalwedd deallusrwydd artiffisial aeddfedu ond teg dweud nad yw'r dechnoleg yn ddigon dibynadwy ar hyn o bryd i gynhyrchu dogfennau ar gyfer y cyhoedd heb ymyrraeth arbenigwr ieithyddol ond mae'r seiliau eisoes yno. Mae angen sicrhau diogelwch gwybodaeth ar systemau cyfieithu peiranyddol sy'n dibynnu ar y we a rhaid o hyd wrth ymyrraeth ddynol i brawf ddarllen a golygu.

Er hynny, hyd yn oed gyda'r gallu technolegol presennol, gallai mabwysiadu cyfieithu peiranyddol ar raddfa eang gael effaith sylweddol ar ddiwylliant mewnol cyrff cyhoeddus, pe newidir y rhagdybiaethau. Er enghraifft, ar hyn o bryd rhaid i awdur ebost mewnol droi at y Saesneg os oes un o'r derbynwyr yn ddi-Gymraeg. Ond pe ddisgwylir i berson sy'n derbyn yr ebost ddefnyddio MS Translator os oes rhaid, does dim rheswm i'r awdur beidio ysgrifennu yn Gymraeg yn unig. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, fe fydd hyn yn ddigon da i'r darllenwr ddeall y neges yn glir. Mae'r dechnoleg yn rhoi rhyddid i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith fel iaith gwaith drwy symud peth o'r cyfrifoldeb o ysgwyddau'r gohebydd i ysgwyddau'r derbyniwr. Yn yr un modd, mae'n ddigonol i aelodau staff sy'n derbyn gohebiaeth neu ffurflenni gan y cyhoedd yn y Gymraeg i'w cyfieithu i'r Saesneg er mwyn penderfynu sut i'w prosesu.

Dyma enghraifft bwysig o dechnoleg digidol yn trawsnewid y busnes yn hytrach na dim ond digideiddio prosesau sy'n bodoli'n barod. O fewn cyd-destun corfforaethol ble nad oes ond ychydig o siaradwyr Cymraeg a'r Safonau yn dechrau brathu, gall leihau'r faich ar yr unigolion sy'n siarad Cymraeg a lleihau costau. Hyd yn oed ar gyfer dogfennau a thestun a fwriedir ar gyfer y cyhoedd, gall dorri amser a chostau'r cyfieithydd yn ei hanner.

Cwyd y dechnoleg gwestiynau pwysig am rôl y cyfieithydd mewn cyrff cyhoeddus ac i ba raddau y bydd gofyn iddyn nhw gyflawni'r un swyddogaeth yn y dyfodol. Gellir rhagweld datblygu rôl y golygydd ieithyddol sy'n cwmpasu'r swyddogaeth honno o fewn rôl ehangach, o bosib ym maes cyfathrebu neu rôl corfforaethol, er enghraifft.

Gallai hyn ond ddigwydd, wrth gwrs, os mabwysiadir y dechnoleg yn eang a bod polisiâu Awdurdodau Lleol yn cofleidio'i defnydd, gan annog gweithwyr i ohebu ac ysgrifennu dogfennau mewnol yn eu hiaith ddewisol a lle bo raid, paratoi canllawiau a hyfforddiant i staff ar ddefnyddio MS Translator a thechnolegau cyffelyb. Byddai cymryd y camau hyn yn

dangos arweiniad corfforaethol ac arwyddo newid diwylliannol, heb roi beichiau costus ychwanegol ar yr Awdurdod.

Lansiwyd gwasanaeth Cymraeg MS Translator ar ddechrau 2014. Mae'r gwasanaeth sylfaenol ar yr we ac wedi integreiddio i mewn i feddalwedd busnes MS Office. Er hynny, o'r hyn a glywsom, prin yw'r defnydd ohono yn y sector gyhoeddus y tu allan i'r Cynulliad a rhai unedau busnes gwasgaredig. Cred y Gweithgor bod cyfle pwysig yn cael ei golli i hybu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a chefnogi cyflawni gwasanaethau drwy'r Gymraeg. Mae'r Cynulliad a Phrifysgol Bangor (Canolfan Bedwyr) wedi arwain yn y maes hwn ac mae'r Gweithgor yn gwerthfawrogi'n fawr eu cyfraniad arloesol. Ond bellach mae angen arweiniad ehangach i gynghori Awdurdodau Lleol ar y technolegau newydd, sicrhau darbodion maint wrth gaffael trwyddedau a meddalwedd ar gyfer y sector gyhoeddus, ac i sicrhau defnydd o'r technolegau hyn fel rhan annatod o fusnes pob dydd Awdurdodau Lleol.

Does wybod, wrth gwrs, pa mor bell y bydd y dechnoleg wedi datblygu o fewn y pump neu ddeng mlynedd nesaf. Mae MS Translator eisoes yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar lafar yn y prif ieithoedd a gellir disgwyl i hyn fod ar gael yn y Gymraeg gydag amser. Mae Canolfan Bedwyr ym Mangor wedi addasu meddalwedd er mwyn adnabod lleferydd yn y Gymraeg (Julius-Cy) a thrwy'r prosiect Seilwaith Cyfathrebu Cymraeg, mae'n gosod seiliau 'Siri' Cymraeg. Anogwn Llywodraeth Cymru a'r sector addysg uwch yn arbennig i ddal i fuddsoddi mewn datblygu a gwella'r technolegau hyn, ar sail buddsoddi i arbed.

## **ARGYMHELLIAD 7**

### **Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Technoleg Iaith a chronfa technoleg iaith i roi arweiniad yn y maes hwn.**

Dylid sefydlu'r Bwrdd gyda chefnogaeth arbenigol o fewn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cefnogaeth arbenigol y Prif Swyddog Digidol. Dylai'r Bwrdd fod yn gyfrifol am hybu defnydd o adnoddau ieithyddol digidol, llywio datblygiad adnoddau ieithyddol digidol, sicrhau gwerth am arian i'r sector gyhoeddus drwy brosesau caffael, a rhoi cyfarwyddyd a chynghor yn y maes hwn i Awdurdodau Lleol ac i Lywodraeth Cymru.

## **6. NEWID YMDDYGIAD**

Cydnabyddir yn eang bod ymddygiad unigolion a'r penderfyniadau maent yn eu gwneud, yn ymwybodol neu'n anymwybodol, yn sylweddol gyfrifol am lesiant y boblogaeth ac am lwyddiant polisiâu'r Llywodraeth. Trin amrywiaeth yn y boblogaeth, diogelu plant, gyrru ac yfed, ysmegu, yfed alcohol, bwyta'n iach, cynllunio ariannol am eich henaint, dewisiadau teithio, ail-gylchu a lleihau gwastraff, sut i adweithio pan fo rhywun yn cael trawiad – mae'r

rhestr yn un hir. Ym mhob maes o bolisi cyhoeddus, penderfyniadau unigolion yn aml yw'r prif beth sy'n pennu'r canlyniad.

Erbyn hyn, mae llywodraethau a gwneuthurwyr polisi yn ceisio llunio ymyraethau sy'n llywio'r penderfyniadau hynny drwy effeithio ar ymddygiadau penodol. Gall hyn olygu:

- cosbi ymddygiad 'drwg' e.e. dirwyo gyrwyr sy'n defnyddio lonydd trafndiaeth gyhoeddus;
- gwobrwo ymddygiad 'da' e.e. sicrhau bod costau teithio ar drafndiaeth gyhoeddus yn rhatach o dipyn na gyrru a pharcio, casglu gwastraff i'w ail-gylchu yn aml;
- dogni e.e. lleihau amledd casglu biniau gwastraff tirlenwi;
- addysgu e.e. caniatáu i yrwyr sydd wedi gyrru'n gynt na'r terfyn cyflymder fynychu cwrs 'ymwybyddiaeth cyflymder';
- llywio e.e. cynnig cyfle i ddefnyddwyr un gwasanaeth gofrestru am un arall ar yr un pryd;
- newid y rhagosodiadau e.e. cynnig chwistrelliad yn erbyn y fflw i bawb dros 60, newid y system rhoi organau.

Defnyddir yr un math o arfau i newid ymddygiad sefydliadau yn ogystal ag unigolion (e.e. dirwyo Awdurdodau Lleol am yrru canran uchel o wastraff i dirlenwi, ag ati). Gellir defnyddio sawl erfyn i weithredu'r amcanion hyn: deddfau, trethi, ffioedd, dirwyon, prisio, rheolau sefydliadau (rheolau ysgol, canolfan hamdden, gwasanaethau), profion modd ac yn y blaen. Mae deddfu yn aml yn gam cynta a gellir tynhau'r rheolau dros amser. Gellir ategu deddfwriaeth gydag ymgyrchoedd gwybodaeth, neu gynnal ymgyrchoedd gwybodaeth heb ddeddfwriaeth. Gall ymgyrchoedd fod yn weladwy iawn (hysbysebu ar y teledu) neu'n addas i'w cyd-destun (labeli bwyd). Yng nghyd-destun Awdurdodau Lleol fel cyrff cyhoeddus, prif erfyn llywodraeth ganolog yw i osod dyletswyddau statudol arnynt, neu i ofyn am gynhyrchu strategaeth neu gynllun gweithredu, neu i gyflwyno ymddygiadau ac arferion newydd drwy gynlluniau grant.

Yn fwy diweddar, mae ffocws y sector gyhoeddus wedi symud i gyfeiriad ymyraethau bach sy'n osgoi'r angen am ddeddfwriaeth neu ymyraethau mwy costus. Gellir gweld gwreiddiau diweddar y dull yma mewn cyhoeddiadau fel *The Tipping Point: How Little Things can make a Big Difference* (Gladwell, 2000) a *Nudge: Improving decisions about health, wealth and happiness* (Thaler a Sunstein, 2008), ac yng ngwaith y 'Behavioural Insights Team' (BIT). Teg nodi nad yw theori 'nudge' heb ei beirniaid. Beth sy'n amlwg o'r gwaith hwn yw y gellir cael effaith ar ymddygiad unigolion drwy wneud mân newidiadau yn amgylchedd yr unigolyn a'r ffordd y cyflwynir dewisiadau. Mae BIT, er enghraifft, yn dyfynnu enghraifft ble mae newid geiriad llythyrau HMRC at bobl sydd heb dalu eu trethi yn cynyddu'r cyfran sy'n talu trethi ar amser. Mae llawer o astudiaethau achos ar y we.

Yng nghyd-destun y Gymraeg mewn Llywodraeth Leol, y mae dau ffocws posib i'r defnydd o ddulliau newid ymddygiad. Yn gyntaf, gellid defnyddio dulliau newid ymddygiad i gynyddu

defnydd staff Llywodraeth Leol o'r Gymraeg yn y gweithle, ac mae'r datganiad polisi *Bwrw mlaen* yn cydnabod pwysigrwydd y maes hwn. Gwelwyd eisoes mewn aml i weithle defnydd helaeth o linyr bathodyn gwaith ('lanyard') gyda'r dyfynnod 'Cymraeg' arno. Yn ail, gellid eu defnyddio i gynyddu defnydd y cyhoedd o wasanaethau Cymraeg.

O safbwynt y pwynt cyntaf, y mae gwaith ymchwil wedi dechrau ym Mhrifysgol Bangor sydd yn pontio maes newid ymddygiad a chynllunio iaith. Mae'r ymchwil yn ystyried sut i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith drwy ddeall yn well beth sy'n cymell neu'n rhwystro staff rhag gwneud hynny. Yn yr Hydref, bydd PhD arall ym maes newid ymddygiad a'r Gymraeg yn dechrau ym Mangor a'r ffocws bryd hynny fydd canfod pam fod rhai unigolion sy'n deall y Gymraeg yn amharod i ddefnyddio'r iaith. Yng nghyd-destun y drafodaeth uchod ar ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu, y mae deall safbwyntiau 'siaradwyr amharod' yn allweddol. Bwriad y ddau brosiect ymchwil hwn yw datblygu sail tystiolaeth fydd yn cynorthwyo i roi ymyriadau mewn lle i gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Ar hyn o bryd, prin yw'n dealltwriaeth o'r posibiladau yn y maes hwn.

O safbwynt cynyddu defnydd o wasanaethau Cymraeg, mae newid ymddygiad yn bwysig oherwydd mae'r buddsoddiad sylweddol a wnaed mewn addysg, gosod Safonau a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus ar gael yn y Gymraeg eto i weld cynnydd cyffelyb yn y galw am wasanaethau yn y Gymraeg. Dylai peri cynnydd yn y defnydd o wasanaethau drwy'r Gymraeg fod yn flaenoriaeth uchel iawn i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol. Awgryma hanes BIT fod gan theori 'nudge' ran i chwarae wrth lywio dewisiadau unigolion drwy ostwng y rhwystrau a'i gwneud yn haws iddyn nhw ddewis gwasanaethau yn Gymraeg.

Er bod rhai adroddiadau diweddar wedi edrych ar y defnydd o wasanaethau drwy'r Gymraeg,<sup>4</sup> prin yw'r gwaith ansoddol a wnaed yn y maes hwn i ddeall y ffactorau sy'n cyflyru dewisiadau iaith wrth i bobl geisio mynediad i wasanaethau a'r math o ymyraethau allai effeithio ar y dewisiadau hynny. Gall fod mor syml â sut y mae peiriant twll yn y wal neu wasanaeth ar-lein yn cyflwyno dewis iaith ar y sgrin cyntaf. Mae rhain yn aml yn ddewisiadau sy'n cael eu cofnodi ac a fydd yn dylanwadu ar sut y cyflwynir gwasanaeth i'r unigolyn hwnnw am flynyddoedd. Gall y ffordd mae'r dewis yn cael ei gyflwyno guddio rhagdybiaethau am ddewisiadau'r mwyafrif, neu wneud i'r person sy'n dewis deimlo'n ansicr neu drafferthus.

Gall hefyd arwain at ganlyniadau gwrthnysig. Er enghraifft, mae'r Safonau yn peri i Awdurdodau Lleol (a chyrff eraill) ofyn i gleientiaid a'r cyhoedd am eu hiaith ddewisol ar gyfer gohebiaeth ag ati. Fe all fod unigolyn yn berffaith hapus dderbyn deunydd cyffredin gan Awdurdod Lleol yn Gymraeg (gwybodaeth am ddiwrnodau casglu sbwriel neu gyrsiau yn y ganolfan hamdden leol) ond bod yn well ganddynt droi at y Saesneg os yw'r mater yn

---

<sup>4</sup> Er enghraifft, *Adroddiad Ymchwil: Gwasanaethau Cymraeg Awdurdodau Lleol*, Comisiynydd y Gymraeg (2015); *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2013-14: Arolwg Defnydd Iaith*, Llywodraeth Cymru, ONS, Comisiynydd y Gymraeg (2015); *Mesur newydd; meddylfryd newydd*, Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2014-15

gymhleth neu'n bwysig (ffurflen gostyngiad treth gyngor). Gall fod dewis deuol, du a gwyn, Cymraeg neu Saesneg, yn methu â chymryd i ystyriaeth y ffordd y mae pobl yn defnyddio gwasanaethau yn y byd go iawn.

Mae hyn yn tanlinellu'r angen i gyflenwyr gwasanaethau cyhoeddus ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau'r cyhoedd yn gyffredinol, o dan amgylchiadau arbennig a thros amser; y ffactorau sy'n bwysig pan gyflwynir y dewis, gan gynnwys yr amgylchiadau e.e. mewn person neu ar safle we; a'r cyfleon sydd gan y defnyddiwr i newid meddwl neu wneud penderfyniadau gwahanol ar gyfer gwahanol gwasanaethau neu dros gyfnod o amser. Cred y Gweithgor bod hyn yn faes o bwys arbennig, yn enwedig ar gyfnod pan fo gwasanaethau digidol yn lledaenu yn gyflym. Mae angen codi defnydd o wasanaethau drwy'r Gymraeg, ond yr un mor bwysig i lunio gwasanaethau rhagorol beth bynnag yw iaith ddewisol y defnyddiwr.

Yn ogystal â'r gwaith y cyfeiriwyd ato ym Mhrifysgol Bangor, mae gwaith yn cael ei wneud ym Mhrifysgol Caerdydd ar saerño dewis iaith, hynny yw deall sut yn *union* y gellir cynnig dewis iaith a fyddai'n gwneud i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg a pha ffactorau eraill a allai effeithio, a hefyd gwaith ar newid ymddygiad yng nghyd-destun rhyngwynebaw cyfrifiadurol Cymraeg / Saesneg. Mae gwaith yn cael ei wneud ym Mhrifysgol Aberystwyth ar ddeall y seicoleg sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau iaith mewn sefyllfaoedd o ansicrwydd.

Er mwyn datblygu'r gallu i lunio ymyraethau ymddygiadol effeithiol yng nghyd-destun y Gymraeg – o safbwynt defnydd yr iaith yn y gweithle ac o safbwynt gwasanaethau Cymraeg – mae angen datblygu arbenigedd yn y maes ymhellach er mwyn cael sail tystiolaeth ar gyfer ymyraethau. Bydd hyn o gymorth, nid yn unig er mwyn hybu'r Gymraeg fel maes gwaith ynddo ei hun, ond hefyd er mwyn deall effaith holl ystod meysydd gwaith Llywodraeth Leol ar y Gymraeg.

Mae angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol roi mwy o sylw i hybu a hyrwyddo ddefnydd o'r Gymraeg gan staff a'r cyhoedd. Mae angen creu hinsawdd lle mae staff a'r cyhoedd yn teimlo'n fwy hyderus a diogel i roi cynnig ar ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg wrth roi a derbyn gwasanaeth.

## **ARGYMHELLIAD 8**

- a) Dylai cynyddu'r defnydd o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn nod penodol yn strategaeth nesaf Llywodraeth Cymru i'r iaith Gymraeg.**
- b) Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil ansoddol i ddeall y ffactorau a'r amodau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau unigolion a) wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a b) wrth ddewis gwasanaethau drwy'r Gymraeg.**



Dylai hyn gynnwys dynnu at ei gilydd yr ymchwil a'r astudiaethau achos a wnaed yn barod fel canllaw ymarferol i Awdurdodau Lleol fabwysiadu arfer da.

- c) Ar sail yr ymchwil hyn, dylai Llywodraeth Cymru ariannu ymyraethau ymddygiadol effeithiol i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Llywodraeth Leol drwy'r Gymraeg, gan gynnwys gwasanaethau digidol, ac i hybu gweinyddiaeth ddwyieithog.**

## 7. YR ECONOMI

### Cefndir

Fel rhan o'i gylch gwaith, gofynnodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Gweithgor edrych ar rôl Llywodraeth Leol yn cefnogi'r iaith Gymraeg drwy ei swyddogaethau datblygu economaidd. Mae nifer o adroddiadau blaenorol wedi edrych ar yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd, naill ai'n uniongyrchol neu fel rhan annatod o'u cylch gorchwyl.

Ymysg yr adroddiadau perthnasol diweddar o ddiddordeb neilltuol i'r Gweithgor y mae:

- *Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith*, adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ran y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, Rhagfyr 2013
- *Yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd*, adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ran Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Ionawr 2014
- *Y Gymraeg yn Sir Gâr*, adroddiad gan Weithgor y Cyfrifiad i Gyngor Sir Caerfyrddin, Mawrth, 2014

Yn eu tro, mae'r adroddiadau hyn yn tynnu ar waith ymchwil ehangach ynglŷn a'r iaith Gymraeg a ieithoedd lleiafrifol eraill yn Ewrop a Chanada yn bennaf. Maent yn dystiolaeth i'r cynnydd mewn diddordeb yn y maes hwn ers cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011. Mae'r adroddiadau uchod yn gwneud dros gant o argymhellion rhyngddyn nhw. Er hynny, nid yw'n glir i'r Gweithgor i ba raddau y gweithredwyd ar yr argymhellion (ag eithrio yn achos adroddiad Sir Caerfyrddin), na pha wahaniaeth wnaethant hyd hyn.

Ym mis Awst 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Iaith fyw: iaith byw – Bwrw Ymlaen*, datganiad polisi sy'n diweddarau strategaeth y Llywodraeth ar gyfer yr iaith Gymraeg, yn sgil Cyfrifiad 2011 a'r Gynhadledd Fawr. Mae'r datganiad yn amlinellu strategaeth dair blynedd i'r Gymraeg wedi'i llunio o gwmpas pedwar prif bennawd:

- Y Gymraeg a'r economi
- Gwell cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg
- Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

- Newid ymddygiad ieithyddol

I raddau helaeth, mae'r adroddiadau hyn yn dilyn yr un fethodoleg gyffredinol, sef cynnig dadansoddiad ac argymhellion ar sail ffactorau economaidd-gymdeithasol. Hynny yw, maent yn cynnig disgrifiad o sefyllfa bresennol yr iaith a chymunedau Cymraeg, disgrifiad o'r diwydiannau a'r cyfleoedd cyflogaeth sy'n bodoli, y ffactorau sy'n effeithio'r naill a'r llall a'r cyd-ddibyniaeth rhyngddynt. Mae'r argymhellion felly yn cyffwrdd ag ystod eang iawn o ymyraethau posib ym maes addysg, trosglwyddiad a defnydd yr iaith, hyfforddiant, cymorth i fusnes, strategaethau economaidd ranbarthol, strategaethau datblygu economaidd lleol, gwerth yr iaith Gymraeg fel erfyn masnacha, rôl gweithleoedd cyhoeddus fel meithrinfeydd i'r iaith ag ati. Mae'r argymhellion yn awgrymu gweithrediadau gan nifer o wahanol gyrrff, yn eu plith llywodraeth ganolog a lleol, gwasanaethau cyhoeddus ehangach, grwpiau cymunedol a gwirfoddol, cyrrff â diddordeb arbennig yn natblygiad yr iaith mewn gwahanol ffyrdd, a busnesau. Fodd bynnag, tra gellid cyfiawnhau'r argymhellion unigol, nid yw'n glir a oes 'theori newid' ehangach yn bodoli fel sail i'r dadansoddiadau a'r argymhellion. Dychwelwn isod at y pwynt pwysig hwn.

Yn wyneb yr holl sylw yma, anodd osgoi'r casgliad mai afraid yw troi yr un tir eto yn yr adroddiad hwn. Nid oes gan y Gweithgor hwn yr amser, na'r arbenigedd na'r adnoddau i ymgymryd â gwaith ymchwil sylfaenol, trwyadl a gwreiddiol ym maes datblygiad ieithyddol-economaidd. Oherwydd hyn, penderfynodd y Gweithgor gyfyngu ei drafodaethau i'r cysyniad o gynllunio ieithyddol-economaidd a rôl penodol Awdurdodau Leol fel haen o lywodraeth. Gellid fod wedi traethu yn hir ar swyddogaethau penodol fel addysg a chynllunio ond talwyd sylw eisoes mewn adroddiadau eraill at y meysydd polisi hynny. Fodd bynnag, prin os o gwbl y gofynnwyd y cwestiwn am ddylanwad Llywodraeth Leol yn ei chryswth, fel sefydliadau llywodraethol democrataidd gyda phwrpas sifig i gryfhau a chynyddu llesiant lleol, yng nghyd-destun datblygu ieithyddol-economaidd.

Mae un ffaith sylfaenol yn glir drwy'r dystiolaeth i gyd, fodd bynnag. Mae allfudiad o bobl ifanc o gymunedau Cymraeg ac mae'r twf mewn poblogaeth ardaloedd dinesig ar draul y boblogaeth fwy gwledig yn rhoi fawr o obaith y bydd atal i'r llif hwn yn y dyfodol. Nid ffenomenon Cymreig yn unig mo hyn – mae'n adlewyrchu newidiadau cymdeithasol ac economaidd yn Lloegr, ar gyfandir Ewrop ac yn wir, ym mhob rhan o'r byd. Mae dirywiad mewn poblogaethau gwledig a thwf aruthrol yn y dinasoedd. Yn syml, mae Cymry Cymraeg ifanc yn gadael, mae'r rhai sy'n aros yn mynd yn hŷn, ac mae'r Gymraeg ar drai mewn trefi marchnad a chefn gwlad Cymru.

Pe bai'r sefyllfa yma yn parhau, mae'n awgrymu y bydd y mwyafrif o Gymry Cymraeg yn y dyfodol yn byw mewn dinasoedd a'r trefi mwy o fewn neu ar gyrion y dinas-ranbarthau. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu di-Gymreigio yr ardaloedd Cymraeg presennol ond bydd newidiadau ehangach yn nosbarthiad a demograffeg y rhai sy'n siarad Cymraeg, a bydd cyfrifoldebau Llywodraeth Leol tuag at yr iaith yn tyfu'n gyflym mewn ardaloedd ble, yn draddodiadol, nid oedd gofyn i arweinwyr Awdurdodau Lleol roi llawer o feddwl iddi. Bydd

yn anodd i Lywodraeth Leol gynllunio mewn ffordd gredadwy os na ddeallir y tueddiadau hyn a'u hoblygiadau posib ar gyfer polisi a gwasanaethau. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru dalu sylw i'r maes arbennig hwn yn ei hadroddiad cyntaf ar dueddiadau tebygol y dyfodol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Does fawr ddim tystiolaeth fod pobl ifanc yn barod neu yn gallu dychwelyd i gymunedau Cymraeg ar ôl prifysgol neu ar ôl datblygu gyrfa, na chwaith bod ymyraethau a luniwyd i ddwyn perswâd arny'n nhw i ddychwelyd wedi bod yn effeithiol. Er hynny, mae'r dystiolaeth yn awgrymu na ellir dechrau datrys y broblem yma oni bai bod economi cryf a swyddi gwerth chweil ar gael yn ardaloedd y cymunedau Cymraeg. Mae e'n glir hefyd nad yw swyddi da ynddyn nhw eu hunain yn ddigon. Mae ysgolion gwledig yn brwydro i ddod o hyd i athrawon da. Mae'r gwasanaeth iechyd yn cael trafferth llenwi swyddi doctoriaid a rhai o'r proffesiynau iechyd. Mae Llywodraeth Leol yn cael trafferth llenwi rhai swyddi uwch reolaeth ac yn y proffesiynau. Er hynny, mae peth tystiolaeth, yn y diwydiannau awyr agored er enghraifft, bod modd dal gafael ar bobl ifanc yn lleol ble mae'n bosib iddyn nhw gael swyddi da a ffordd o fyw ddeniadol. Rhaid wrth ymateb polisi mwy eang ac eangfrydig gan Lywodraeth Leol a chanolog: nid swyddi da yn unig, ond cymuned a ffordd o fyw atyniadol. Gallai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol ddatblygu dulliau llawer mwy soffistigedig o 'tracio' siaradwyr Cymraeg sydd yn byw y tu hwnt i Gymru a cheisio dwyn perswâd arnynt i ddychwelyd – yn enwedig pan fo cyfleodd gwaith newydd (e.e. datblygiadau newydd) ar y gweill mewn ardal. Er enghraifft, dylai bod modd tracio siaradwyr Cymraeg sy'n mynd i Brifysgolion Lloegr trwy ddata myfyrwyr.

Does yr un o'r adroddiadau hyn wedi edrych ar y broblem yn benodol drwy lens Llywodraeth Leol a'i chyfrifoldebau statudol unigryw yn llunio datblygiad cymunedau. Dyma, felly, yw ffocws yr adroddiad byr yma.

### **Beth yw strategaeth ieithyddol-economaidd?**

Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd y gellir eu hystyried yn ardaloedd Cymraeg, yn ardaloedd gwledig. Y patrwm cyffredinol yw trefi marchnad gyda dosbarthiad o drefi llai a phentrefi o'u hamgylch a chefn gwlad mwy anghysbell yn y wlad tu hwnt.<sup>5</sup> Gwelir gwasanaethau sylfaenol wedi'u lleoli yn y trefi marchnad (e.e. meddygon teulu, gwasanaethau cymdeithasol cyffredinol), a gwasanaethau mwy arbenigol fel ysbytai cyffredinol yn y trefi sirol, neu mewn lleoliadau y tu allan i'r sir. Gwelir amrywiaeth ar y patrwm hwn yn nwyrain Sir Gâr, yn Llanelli, Cwm Gwendraeth a Dyffryn Aman, ble mae'r economi a'r diwylliant yn fwy trefol a diwydiannol ei naws.

Nid yw'n hawdd gwahaniaethau ystyriaethau ieithyddol- economaidd rhag ystyriaethau economaidd wledig mwy cyffredinol. O safbwynt creu economi ffyniannus a swyddi sy'n ddeniadol i gadw pobl iau yn eu cymunedau, efallai nad yw'n bosib gwahaniaethu o gwbl.

---

<sup>5</sup> Mae'n werth nodi fod y prif drefi yn yr ardaloedd dan sylw, ag eithrio Llanelli, yn fach: Bangor (18,800), Aberystwyth (16,420 yn cynnwys Llanbadarn Fawr), Caerfyrddin (14,185) a Llanelli (49,591).

Mae'r un pwysau sy'n bodoli ar gymunedau Cymraeg yng Nghymru yn bodoli hefyd ar gymunedau traddodiadol yng nghefn gwlad ac ardaloedd trefi marchnad Lloegr, megis ardal y Llynnoedd neu Ddwyrain Anglia, lle gwelir allfudo gan bobl ifanc a mewnfudiad o bobl canol oed gyda gwerthoedd diwylliannol gwahanol.

Er enghraifft, yn adroddiad Sir Gâr o dan y pennawd Cynllunio a Thai, ceir yr argymhellion canlynol:

**NOD: I sicrhau ystyriaeth ac ymwybyddiaeth lawn o effaith cynllunio ar yr iaith Gymraeg (yn lleol ac yn genedlaethol) gan sicrhau gosod a gweithredu mesurau lliniaru effeithiol mewn cydweithrediad â'r cymunedau lleol.**

#### **Argymhellion i'r Cyngor Sir**

28. Bod y Cyngor Sir yn datblygu ei bolisi tai fforddiadwy ymhellach gan sicrhau argaeledd uwch o fewn datblygiadau tai.

29. Bod y Cyngor Sir yn cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r nifer o dai gwag o fewn y sir er mwyn eu dychwelyd at ddefnydd lleol.

30. Bod y Cyngor Sir yn gosod trothwy uwch am dai fforddiadwy ar gyfer datblygiadau ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor Sir.

31. Bod y Cyngor Sir yn cynnal ymgyrch farchnata i godi ymwybyddiaeth am y Gofrestr Dewis Tai.

32. Bod y Cyngor Sir yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y Mentrau Iaith Lleol, gwerthwyr tai a system 'cofrestru treth' y Cyngor Sir i ddatblygu pecyn 'Croeso i Sir Gâr' ar gyfer trigolion newydd a datblygu rhaglen ddosbarthu trwy weithio ar y cyd gyda grwpiau cymunedol a Chynghorau Tref a Chymuned .

Gellir dadlau bod yr argymhellion hyn i gyd, ag eithrio yr un olaf, yn ymwneud â'r economi gwledig yn gyffredinol, heb fod yn benodol at Sir Gâr na chwaith ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Mae cryfhau'r economi gwledig yn amod sylfaenol ar gyfer strategaeth ieithyddol-economaidd i'r ardaloedd hyn, ond nid yw'n ddigonol. Gall twf economaidd gael effaith gadarnhaol ar yr iaith, gall hefyd gael effaith andwyol. Mae strategaethau dinas-ranbarthol, fel y'i gwelir yn Lloegr a bellach yn ne Cymru, yn blaenoriaethu datblygu economaidd uwchben agweddau eraill ar 'lle'. Rhoddir y pwyslais ar gyd-gysylltu'r gwahanol rannau o'r rhanbarth drwy wella cysylltiadau (trafnidiaeth a cyfathrebu) er mwyn unioni anghydbwyseddau neu fwyhau'r cyfleoedd yn nosbarthiad swyddi, cartrefi, sgiliau a marchnadoedd. Mae cymuned a diwylliant yn cael eu trin fel materion eilradd, os o gwbl, i'w hystyried ar lefel cynllunio lleol, er enghraifft. O ganlyniad, ar lefel Awdurdod Lleol, gellir ond lliniaru neu fwyhau yr effeithiau cymunedol a ieithyddol sy'n deillio o strategaeth economaidd ddinas-ranbarthol. Mae'r integreiddio rhwng nodau cymdeithasol-ddiwylliannol lleol a nodau economaidd rhanbarthol yn wan.

Ond model ar gyfer dinasoedd a dinas ranbarthau yw hon gyda thrwch uchel o boblogaeth yn y prif ganolfan ac economi cymhleth ac amrywiol. Nodwn fod dinas-ranbarth Abertawe yn cynnwys ardaloedd gwledig siroedd Caerfyrddin a Phenfro, yn ogystal â rhai agosach at y ddinas ei hun ym mro Gwyr a chymoedd Nedd ac Afan. Mae ardaloedd gwledig tebyg nid nepell o Gaerdydd a Chasnewydd. Er hynny, mae'r model o 'ddinas-ranbarth' yn dibynnu ar fodolaeth dinas fawr a'r effaith economaidd ar gymunedau sy'n dod o dan ei dylanwad.

Byddai strategaeth ar gyfer ardaloedd gwledig heb ddinas fawr o reidrwydd yn talu mwy o sylw i faterion fel hybiau economaidd, trefi twf, adfywio trefi marchnad, anghenion meicro-fusnesau, y 'bunt wledig', cynlluniau pwrcasu, cyfleusterau cyhoeddus, profiadau diwylliannol ac yn y blaen. Mae gwaith ymarferol i dynnu arno, er enghraifft y model o farchnad lafur cyfrwng Cymraeg a ddatblygwyd gan Fentrau Iaith Cymru. Mae profiad ymarferol i werthuso a dysgu oddi wrtho, er enghraifft strategaeth leoli swyddfeydd Llywodraeth Cymru neu adleoli prif swyddfa S4C i Gaerfyrddin. Nid yw'n glir, fodd bynnag, sut i dynnu'r elfennau unigol hyn at ei gilydd yn ffurfiol i greu fframwaith strategol effeithiol ar gyfer datblygu ieithyddol-economaidd.

Fe glywsom fel Gweithgor nad oes gennym ddealltwriaeth glir o beth yw hanfodion a nodweddion strategaeth ieithyddol-economaidd, ble mae gofyn trin materion ieithyddol fel rhan integredig o'r strategaeth economaidd. Fel y dywed adroddiad ar seminar ym Mhrifysgol Aberystwyth ar *Y Gymraeg fel grym cymunedol ac economaidd*,<sup>6</sup>

*Tra'n gwerthfawrogi bod y dasg o ystyried iaith ac economi yn un sylweddol gan fod y maes yn eang, dadleuwyd na lwyddwyd i ddadelfennu'r maes a dehongli'n ddigon clir beth sydd dan ystyriaeth wrth siarad am iaith ac economi. Ar un pegwn, gallai gynnwys popeth i'w wneud â'r iaith a phopeth i'w wneud â'r economi. Ar begwn arall, gallai gael ei gyfyngu i ddefnydd o'r Gymraeg yn y maes economaidd. Gellid fod wedi ceisio bod yn gliriach wrth ddehongli a diriaethu'r maes mewn modd fyddai'n ei gwneud hi'n haws i wahanol swyddogion cyrff sector gyhoeddus a phreifat ddeall gwahanol agweddau ar y berthynas a sut i fynd ati i weithredu er budd yr economi a'r Gymraeg.*

Mae *Bwrw mlaen*, yn cynnig disgrifiad o'r berthynas rhwng iaith ag economi fel a ganlyn: '*rhaid i unrhyw ddatblygu yn y dyfodol ddigwydd law yn llaw a chynllunio ieithyddol*'. Ond tybed a yw cynnal y prosesau hyn 'law yn llaw', yn hytrach na mewn ffordd mwy integredig, yn ddigon i gynllunio ymyraethau y gellir rhagweld eu canlyniadau a phrofi eu heffeithiolrwydd? Ar lefel strategol, beth yw'r 'theori newid' mewn strategaeth ieithyddol-economaidd? Heb fframwaith gysyniadol, mae'n anodd disgwyl i Awdurdodau Lleol neu lywodraeth ganolog ddatblygu a gweithredu strategaeth economaidd-ieithyddol fel sail i gynllunio ymyraethau pwrpasol ac i lywio rhaglenni eraill megis y Rhaglen Datblygu Gwledig

---

<sup>6</sup> *Adroddiad briffio polisi*, Cyfres Seminar y Gymraeg a Pholisi Cyhoeddus, Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Gwanwyn 2014

a rhaglenni Ewropeaidd eraill. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru a'n Prifysgolion i fuddsoddi mewn gwaith ymchwil sylfaenol i ddatblygu model sy'n disgrifio prif elfennau strategaeth ieithyddol-economaidd fel sail i ddatblygu polisi cyhoeddus.

### **Strategaeth economaidd ar gyfer yr ardaloedd Cymraeg**

Ni ddylai'r diffygion yn ein deallusrwydd, fodd bynnag, atal gweithredu nawr. Mae blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn gadarn ar y dinas-ranbarthau a hynny am resymau economaidd dealladwy: mae hanner poblogaeth Cymru yn byw o fewn dinas-ranbarth Caerdydd, mae'r twf mwyaf yn yr economi i'w weld yno, mae'r mwyafrif o'r prosiectau seilwaith a chyfalaf mawr i'w cael yno, ac mae'n derbyn bargaen ddinesig gan Lywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru daw â symiau sylweddol ac ychwanegol o arian i mewn. Deallwn yr ystyriaethau rhesymau pragmatig hyn yn llwyr.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn rheswm dros beidio â datblygu a mabwysiadu strategaethau economaidd mewn ardaloedd eraill. Yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg, mae'n siom ar y mwyaf na weithredwyd y cam amlwg yma eisoes yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2011. Bu Llywodraeth Cymru yn gyndyn iawn i ystyried strategaeth economaidd am ardaloedd gwledig, heb sôn am strategaeth economaidd-ieithyddol, nac ychwaith i gyd-weithio gyda Llywodraeth Leol fel partner cyfartal. Gan mai Llywodraeth Cymru sy'n gwneud y penderfyniadau allweddol o ran buddsoddiadau cyfalaf a seilwaith, rhaid wrth arweiniad gan y Llywodraeth, ond rhaid hefyd wrth arweiniad mwy blaenllaw ac uchelgeisiol gan Lywodraeth Leol sydd â'i gwreiddiau a'i hawdurdod yn y gymuned.

Er bod gan y Gweithgor amheuon ynghylch priodoledd trosglwyddo'r model dinas-ranbarthol i'r ardaloedd Cymraeg, am y rhesymau a roddwyd uchod, rydym yn cytuno'n llwyr â chanfyddiad ac argymhelliad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gymunedau bod angen strategaethau economaidd ranbarthol yng ngorllewin a gogledd-orllewin Cymru, gyda ffocws arbennig ar drefi prifysgol Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin. Rydym yn argymhell y dylai'r Llywodraeth Cymru newydd weithredu ar yr argymhelliad hwnnw ar fyrder ac mewn partneriaeth gyflawn â Llywodraeth Leol.

Mae'r Gweithgor o'r farn y dylem ychwanegu Llanelli at y triawd hwnnw oherwydd ei phwysigrwydd fel tref ddiwydiannol ar gyrion craidd dinas-ranbarth Abertawe, ac er mwyn sicrhau fod unrhyw strategaeth ddinas-ranbarthol yn seiliedig ar Fae Abertawe yn cynllunio o'r cychwyn cyntaf gyda ffyniant y Gymraeg yn flaenoriaeth.

Nodwn nad yw Bwrdd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn ddarostyngedig i'r Safonau Cymraeg. Pe ffurfir cydbwyllgor (neu Awdurdod cyfunol, pe ddeddfir amdano) o'r Awdurdodau Lleol i weithredu unrhyw fargen ddinesig, fe fyddai'r Safonau yn weithredol arno. Er hynny, nid yw'n glir a yw'r Safonau fel mecanwaith atebolrwydd yn ddigonol i sicrhau y byddai unrhyw gynlluniau yn integreiddio uchelgais ieithyddol gydag uchelgais economaidd. Rydym yn argymhell felly y dylai Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg

fonitro datblygiadau yn y maes hwn ac y dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol dalu sylw neilltuol yn ei chynllun gwaith ac adrodd ar bolisi ac arfer da economaidd-ieithyddol, gan gynnwys yng nghyd-destun y dinas-ranbarthau, yn ei Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf.

### Dylanwad economaidd Llywodraeth Leol

Un o'r ychydig astudiaethau penodol o Lywodraeth Leol a datblygu economaidd yw *The Levers of Local Economic Development* (Baars, S., Local Government Knowledge Navigator, Mai 2014). Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar ystod eang o waith ymchwil academiaidd. Un o'r prif gasgliadau yw y dylai strategaeth economaidd Awdurdodau Lleol yn gyffredinol ganolbwyntio ar ffactorau mewnol ('endogenous') yn hytrach nag ar ffactorau allanol ('exogenous'). Yn y bôn, nid yw'n talu i un Awdurdod gystadlu yn erbyn Awdurdodau eraill i ddenu buddsoddiad ar draul datblygu cyfalaf cynhenid yr ardal, sef y cyfoeth, y creadigrwydd a'r sgiliau lleol. Mae cyfalaf allanol yn rhy wamal and yn rhy barod i fynd i ffwrdd pan fydd amgylchiadau yn newid. Mae hyn y awgrymu y dylai strategaeth ieithyddol-economaidd roi'r pwyslais a'r ffocws ar gynyddu'r cyfalaf cymunedol sy'n bodoli, yn hytrach na dibynnu yn ormodol ar ddenu gwaith a swyddi o'r tu allan. Yn hynny o beth, mae'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd trigolion cymunedau yng Nghymru yn rhan gynhenid o'r 'cyfoeth, creadigrwydd a'r sgiliau' y maent yn gallu eu cynnig.

Mae gan Awdurdodau Lleol ddylanwad sylweddol iawn ar dwf economaidd, swyddi a chadernid cymunedau yn rhinwedd eu swyddogaethau democrataidd a llywodraethol. Mae'r dylanwad hwn yn debygol o fod yn bwysicach mewn ardaloedd ble mae maint y sector breifat yn gymharol llai. Ar yr un pryd, gall fod eu capasiti yn fwy cyfyngedig, er enghraifft, wrth godi ffioedd, greu ffrydiau refeniw newydd neu gynnig cymhellion fel torri trethi busnes neu greu ardaloedd menter. Gallwn gategoreiddio dylanwad economaidd Llywodraeth Leol yn gyffredinol ar draws ei gwahanol swyddogaethau:

- **Arweinyddiaeth ddinesig:** partneriaethau gyda Llywodraeth ganolog, y sector breifat, y trydydd sector, prifysgolion; cysylltiadau â marchnadoedd allanol (rhanbarthol, cenedlaethol, rhyngwladol); rhoi oblygiadau cyfrifoldeb cymdeithasol ar gyflenwyr; rhoi sylw blaengar (nid 'tick box') i oblygiadau statudol ieithyddol a chyfartaledd yn eu strategaethau; datblygu delwedd, y cynnig marchnata; cydlynu blaenoriaethau mudiadau iaith lleol e.e. y Mentrau Iaith, yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc etc.
- **Arweinyddiaeth gymunedol:** datganoli swyddogaethau/penderfyniadau/arian i lefel cymunedol; cefnogi grwpiau cymunedol; grantiau; trosglwyddo asedau a gwasanaethau i grwpiau cymunedol; cefnogi gweithgareddau cymdeithasol (diwylliant, celfyddydau, treftadaeth, chwaraeon) etc

- **Fel cyflogwr:** swyddi, yn cynnwys swyddi proffesiynol ac uwch; llwybrau gyrfa; rôl canolog y cyfarwyddwr/adran adnoddau dynol; safonau iaith statudol (a mwyl); polisïau recriwtio a hyfforddi; dynodi swyddi ble mae'r Gymraeg yn hanfodol; cynnig prentisiaethau; iaith yn y gwaith; talu cyflog byw etc
- **Fel gwariwr arian cyhoeddus:** strategaethau caffael a chomisiynu; datblygu cyflenwyr a chadwyni cyflenwyr lleol; cyfuno gofyniadau gyda phrynwyr cyhoeddus eraill; amodau caffael cymdeithasol; datblygu marchnadoedd/creu cwmnïau cydweithredol e.e. ar gyfer darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol; buddsoddiad mewn seilwaith; buddsoddiad cyfalaf mewn gwasanaethau (ysgolion, canolfannau gwasanaethau integredig); defnyddio grym cronfeydd pensiwn; bondiau dinesig; lefi seilwaith cymdeithasol; cyfuno buddsoddiadau gyda phartneriaid (GIG, cyrff cyhoeddus eraill, cymdeithasau tai, colegau a phrifysgolion etc); strategaeth asedau ac asedau ar y cyd
- **Swyddogaethau / gwasanaethau:** cynllunio, fframwaith i asesu effaith ieithyddol, mesur effaith datblygiadau tai, mesur anghenion tai fforddiadwy; tai, cyflenwi tai a gwasanaethau cynhaliol; adfywio trefol, buddiannau ehangach adfywio; polisïau sgiliau; hyfforddiant i oedolion; addysg, cydweithio ag eraill i godi cyrhaeddiad; brocer rhwng cyflogwyr, dysgwyr â chyflenwyr sgiliau; gwasanaethau i deuluoedd, plant a phobl ifanc; gofal plant; gwasanaethau i bobl hŷn; trafndiaeth; twristiaeth; cefnogaeth i fusnes; rheoleiddio effeithiol

Credwn y gallai cynghorau blethu'r elfennau hyn i greu strategaeth a chynllun corfforaethol sy'n manteisio ar holl swyddogaethau Llywodraeth Leol i gefnogi defnydd o'r iaith a'r galw am sgiliau iaith Gymraeg, fel rhan o strategaeth rhanbarthol economaidd-ieithyddol.

### Diwygio Llywodraeth Leol

Nid lle y Gweithgor hwn yw adrodd yn benodol ar ba strwythurau democrataidd fyddai'n cefnogi ffyniant cymunedau Cymraeg. Y mae hynny'n fater i'r gwleidyddion ac i'r Llywodraeth Cymru newydd.

Yng nghyd-destun datblygu economaidd a chadernid cymunedau Cymraeg, fodd bynnag, mae'r Gweithgor o'r farn y dylid gweithredu argymhelliad cyntaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar *Gynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith*. Er mwyn gwneud hynny yn effeithiol, credwn fod angen dyletswydd statudol ar Lywodraeth Leol i hybu datblygiad economaidd lleol, a sicrhau ystyriaeth o dwf a ffyniant yr iaith Gymraeg fel rhan o'r dyletswydd hwnnw. Byddai dyletswydd o'r fath yn sail i awdurdod Llywodraeth Leol i roi arweiniad a chyfeiriad i ymdrechion y partneriaid eraill fel y Mentrau Iaith a'r sector breifat, er mwyn cefnogi cymunedau Cymraeg i gyrraedd eu llawn botensial.

Byddai dyletswydd i hybu datblygiad economaidd yn sicrhau y gallu a'r rhaid i Lywodraeth Leol yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin i gynllunio yn ieithyddol-economaidd mewn



partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac eraill, ond byddai hefyd yn caniatáu i Awdurdodau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n rhan o'r dinas-ranbarthau, gyfrannu yn llawer mwy effeithiol at dwf economaidd yng Nghymru.

### **ARGYMHELLIAD 9**

**Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd statudol ar Lywodraeth Leol i hybu datblygiad economaidd lleol , a sicrhau ystyriaeth o dwf a ffyniant yr iaith Gymraeg fel rhan o'r dyletswydd hwnnw.**

### **ARGYMHELLIAD 10**

**Dylai Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth gyflawn gyfartal â Llywodraeth Leol ddatblygu a gweithredu strategaeth economaidd-ieithyddol ar gyfer siroedd Môn, Gwynedd, Ceredigion, Caerfyrddin ac ardaloedd perthnasol cyfagos , yn seiliedig ar drefi Bangor, Aberystwyth, Caerfyrddin a Llanelli.**

### **ARGYMHELLIAD 11**

**Dylai Llywodraeth Cymru fonitro datblygiad Dinas-Ranbarth Bae Abertawe i sicrhau bod ffyniant y Gymraeg yn nwyrain Sir Gaerfyrddin (yn cynnwys Llanelli a chymoedd Gwendraeth ac Aman) yn flaenoriaeth bwrpasol.**

### **ARGYMHELLIAD 12**

**Dylai Llywodraeth Cymru a'n Prifysgolion fuddsoddi mewn gwaith ymchwil sylfaenol i ddatblygu model sy'n disgrifio elfennau hanfodol strategaeth ieithyddol-economaidd effeithiol fel sail i ddatblygu polisi ymhellach.**

### **ARGYMHELLIAD 13**

**Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys adran ar dueddiadau'r dosbarthiad daearyddol o siaradwyr Gymraeg dros y 25 mlynedd nesa yn ei hadroddiad cyntaf ar dueddiadau tebygol y dyfodol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.**

### **ARGYMHELLIAD 14**

**Dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol dalu sylw i bolisi ac arfer da economaidd-ieithyddol yn ei chynllun gwaith , gan gynnwys yng nghyd-destun y dinas-ranbarthau, ac adrodd arno yn ei Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf.**

## 8. ARGYMHELLION

### ARGYMHELLIAD 1

- a) Dylai Llywodraeth Cymru newydd fynegi gweledigaeth uchelgeisiol a chyhoeddi strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg ar frys.
- b) Dylai Llywodraeth Cymru, ar sail ei strategaeth hir dymor i'r Gymraeg, adolygu a chyflwyno gwelliannau i Fesur 2011 a chyflwyno Bil yr Iaith Gymraeg i'r Cynulliad yn ystod cyfnod y pumed Cynulliad Cenedlaethol (2016-2021).
- c) Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r mesurau hyn gydag ymgyrch weledol i godi ymwybyddiaeth o le a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn ein bywyd cyhoeddus.

### ARGYMHELLIAD 2

- a) Dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu er mwyn sicrhau bod lefel o hyfedredd yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swyddi canlynol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru:
  - **Y pennaeth gwasanaeth cyflogedig a'r prif weithredwr:** y person yma sy'n gyfrifol am staff a gweithlu'r Awdurdod Lleol. Fel arfer, y prif weithredwr sy'n cyflawni'r ddwy swyddogaeth.
  - **Y cyfarwyddwr corfforaethol gyda chyfrifoldeb am adnoddau dynol,** yn cynnwys cynllunio gweithlu, recriwtio a hyfforddiant.
  - **Y cyfarwyddwr addysg:** y person hwn sy'n gyfrifol am addysg a llesiant ein plant a phobl ifanc
  - **Y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol:** y person hwn sy'n gyfrifol am lesiant pobl sy'n agored i niwed.
- b) Os nad yw'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol ganddynt yn barod, dylai'r ddeddfwriaeth roi dyletswyddau statudol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu hyfforddiant addas a neilltuo amser i'r unigolion dan sylw, er mwyn eu galluogi i gael y sgiliau iaith hanfodol.
- c) Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddiadau i Academi Wales (ac unrhyw sefydliad cenedlaethol arall sy'n paratoi hyfforddiant arweinyddiaeth i'r sector gyhoeddus yng Nghymru) er mwyn sicrhau amlygrwydd i'r Gymraeg yn egwyddorion Un Gwasanaeth Cyhoeddus a bod Academi Wales yn paratoi hyfforddiant i arweinwyr y gwasanaethau cyhoeddus yn y sialensiau a'r cyfrifoldebau sy'n wynebu arweinwyr mewn gwlad dwy iaith.

### **ARGYMHELLIAD 3**

Dylai sgiliau iaith Gymraeg fod yn hanfodol ar gyfer pob swydd newydd mewn pob Awdurdod Lleol yng Nghymru.

### **ARGYMHELLIAD 4**

Dylai Awdurdodau Lleol, gan gynnwys yn eu swyddogaeth fel Awdurdodau Addysg Lleol, fod dan ddyletswydd statudol i gynllunio gweithlu o safbwynt sgiliau ieithyddol, a lle bo angen, i baratoi hyfforddiant addas i gwrdd â'r anghenion hynny.

### **ARGYMHELLIAD 5**

- a) Dylai'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer Cymraeg yn y gweithle erbyn diwedd 2016, i'w gyflenwi gan y darparwyr o ddechrau mis Medi 2017.
- b) Dylai cyflenwyr masnachol hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle a fwriedir at ddefnydd y gwasanaethau cyhoeddus gael eu cytundebu o fewn fframwaith strategol a osodir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.
- c) Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu un fframwaith hyfedredd iaith Gymraeg safonol i'w defnyddio gan y sector gyhoeddus gyfan yng Nghymru.

### **ARGYMHELLIAD 6**

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgolion Cymru i sicrhau bod cwrs MPA/MBA cyfrwng Cymraeg ar gael i arweinyddwyr y dyfodol mewn Llywodraeth Leol, ac ariannu 8 o lefydd bob blwyddyn am y pum mlynedd nesa.

### **ARGYMHELLIAD 7**

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Technoleg Iaith a chronfa technoleg iaith i roi arweiniad yn y maes hwn.

### **ARGYMHELLIAD 8**

- a) Dylai cynyddu'r defnydd o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn nod penodol yn strategaeth nesaf Llywodraeth Cymru i'r iaith Gymraeg.
- b) Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil ansoddol i ddeall y ffactorau a'r amodau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau unigolion a) wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a b) wrth ddefnyddio gwasanaethau drwy'r Gymraeg.
- c) Ar sail yr ymchwil hyn, dylai Llywodraeth Cymru ariannu ymyraethau ymddygiadol effeithiol i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Llywodraeth Leol drwy'r Gymraeg, gan gynnwys gwasanaethau digidol, ac i hybu gweinyddiaeth ddwyieithog.

## **ARGYMHELLIAD 9**

Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd statudol ar Lywodraeth Leol i hybu datblygiad economaidd lleol , a sicrhau ystyriaeth o dwf a ffyniant yr iaith Gymraeg fel rhan o'r dyletswydd hwnnw.

## **ARGYMHELLIAD 10**

Dylai Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth gyflawn gyfartal â Llywodraeth Leol ddatblygu a gweithredu strategaeth economaidd-ieithyddol ar gyfer siroedd Môn, Gwynedd, Ceredigion, Caerfyrddin ac ardaloedd perthnasol cyfagos , yn seiliedig ar drefi Bangor, Aberystwyth, Caerfyrddin a Llanelli.

## **ARGYMHELLIAD 11**

Dylai Llywodraeth Cymru fonitro datblygiad Dinas-Ranbarth Bae Abertawe i sicrhau bod ffyniant y Gymraeg yn nwyrain Sir Gaerfyrddin (yn cynnwys Llanelli a chymoedd Gwendraeth ac Aman) yn flaenoriaeth bwrpasol.

## **ARGYMHELLIAD 12**

Dylai Llywodraeth Cymru a'n Prifysgolion fuddsoddi mewn gwaith ymchwil sylfaenol i ddatblygu model sy'n disgrifio elfennau hanfodol strategaeth ieithyddol-economaidd effeithiol fel sail i ddatblygu polisi ymhellach.

## **ARGYMHELLIAD 13**

Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys adran ar dueddiadau'r dosbarthiad daearyddol o siaradwyr Cymraeg dros y 25 mlynedd nesa yn ei hadroddiad cyntaf ar dueddiadau tebygol y dyfodol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

## **ARGYMHELLIAD 14**

Dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol dalu sylw i bolisi ac arfer da economaidd-ieithyddol yn ei chynllun gwaith , gan gynnwys yng nghyd-destun y dinas-ranbarthau, ac adrodd arno yn ei Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf.

## ATODIAD A

### 1. Cylch gorchwyl

Gofynnwyd i'r Gweithgor gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru erbyn 31 Mai 2016 ar sail y cylch gorchwyl canlynol:<sup>7</sup>

#### 1. Cefndir

1.1. Mae'r Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg ym maes Datblygu Economaidd a Gweinyddu Llywodraeth Leol ("y gweithgor ar yr Iaith Gymraeg yn Llywodraeth Leol") yn cael ei sefydlu i gynghori Gweinidogion Cymru ar gefnogaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yng nghyd-destun y rhaglen diwygio Llywodraeth Leol sy'n datblygu'n gyflym. Bydd gofyn i'r Gweithgor roi cyngor i Weinidogion Cymru ar y defnydd o'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth Llywodraeth Leol, a rôl Llywodraeth Leol fel hwylusydd y Gymraeg drwy ei swyddogaethau datblygu economaidd.

#### 2. Rôl y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg yn Llywodraeth Leol

2.1. Rôl y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg yn Llywodraeth Leol fydd i gynghori'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar:

- ddefnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth Llywodraeth Leol;
- rôl Llywodraeth Leol fel hwylusydd datblygu economaidd i gefnogi'r iaith Gymraeg; ac
- i wneud argymhellion ar yr uchod yng nghyd-destun diwygio Llywodraeth Leol a'r dyletswyddau a osodir ar Awdurdodau Lleol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.2. Dylai prif ffocws y Gweithgor fod ar ardaloedd gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg, yn bennaf yng ngorllewin a gogledd-orllewin Cymru, ond dylai ystyried y cyfleoedd ym mhob rhan o Gymru.

### 2. Aelodaeth

- Cadeirydd: Rhodri Glyn Thomas – Llywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ers dechrau Ebrill 2016. Cyn hynny ac am y rhan fwyaf o'r cyfnod dan sylw, Aelod o'r Cynulliad dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr ac Aelod o Gomisiwn y Cynulliad.

---

<sup>7</sup> Telerau ac Amodau'r Penodiad i'r Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg ym Maes Datblygu Economaidd a Gweinyddu Llywodraeth Leol

- Gwyneth Ayers – Polisi Corfforaethol a Phartneriaethau, Cyngor Sir Caerfyrddin
- Chris Burns – Prif Weithredwr, Cyngor Sir Bwrdeisdref Caerffilil
- Sarah Dafydd – Rheolwr Newid Busnes a Gwelliant, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Dr Lowri Hughes – Prifysgol Bangor
- Annwen Morgan – Prif weiredwr Cynorthwyol, Cyngor Sir Ynys Môn
- Carys Morgan – Yr Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb, Cyngor Sir Ceredigion
- Meic Raymant – Pennaeth Gwasanaethau yr Iaith Gymraeg, Heddlu Gogledd Cymru

### 3. Tystiolaeth

Derbyniodd y Gweithgor dystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar gan yr unigolion canlynol:

- Cllr. Cefin Cambell, Cyngor Sir Caerfyrddin
- Llion Jones, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor
- Alwyn Evans Jones, ex.Cyngor Sir Gwynedd
- Geraint Wyn Parri, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
- Rhian Huws Williams, Cyngor Gofal Cymru
- Ceri Williams, Cyngor Gofal Cymru
- Gruffydd Jones, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Lowri Williams, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
- Dyfan Siôn, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
- Ioan Matthews, Coleg Gymraeg Cenedlaethol
- Gwennan Schiavone, Coleg Gymraeg Cenedlaethol
- Efa Gruffudd Jones, Canolfan Genedlaethol Dysgu Gymraeg
- Helen Prosser, Canolfan Genedlaethol Dysgu Gymraeg
- Gareth Ioan, IAITH Cyf.
- Wynfford James
- Alun Jones, Menter a Busnes
- Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth

Rydym yn ddiolchgar am y dystiolaeth ysgrifenedig a dderbyniwyd gan y canlynol yn dilyn galw am dystiolaeth:

- Unigolion: Bethan Michael, David Jones, Janet Kaiser, Wyn Thomas
- Cymdeithas yr Iaith
- Dyfodol i'r Iaith

# Eitem 13

<b>CYFARFOD</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>5 GORFFENNAF, 2016</b>
<b>PWNC</b>	<b>RHAGLEN WAITH AR GYFER Y PWYLLGOR</b>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	<b>Mabwysiadu rhaglen waith amlinellol ar gyfer y flwyddyn</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Arwel E Jones, Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol</b>

1. Yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar ddechrau blwyddyn newydd, mae'n briodol i'r Pwyllgor ystyried ei raglen waith amlinellol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd y rhaglen, wrth gwrs, yn un byw y gellir ychwanegu ato ond da o beth yw gosod amserlen bras ar gyfer y gwaith sydd i ddod. Nodir yr eitemau y gellir bod yn weddol sicr o ran yr amserlen ar ei gyfer isod gyda nodyn hefyd ar y terfyn o eitemau ddylai gael sylw yn ystod y flwyddyn ond sydd heb eu hamserlenni eto.

<b>DYDDIAD</b>	<b>EITEMAU</b>
5 Gorffennaf, 2016	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dewis Cadeirydd ac Is-gadeirydd</li> <li>• Adroddiad yr Aelod Cabinet dros y Gymraeg</li> <li>• Adroddiad Blynyddol i'r Comisiynydd Iaith</li> <li>• Adroddiad ar Ganlyniadau'r Awdit Iaith a'r Cynllun Gweithredu</li> <li>• Adroddiad ar Gasgliadau Gweithgor Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg mewn Llywodraeth Leol</li> <li>• Cwynion am yr Iaith Gymraeg</li> <li>• Diweddariad ar Ymchwiliad Iaith – Gwelededd y Gymraeg yng Ngwynedd</li> </ul>
13 Hydref, 2016	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad Cynnydd 6 mis ar weithredu'r Safonau Iaith</li> <li>• Adroddiad yr Aelod Cabinet dros y Gymraeg</li> <li>• Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu o'r Awdit Iaith</li> <li>• Cwynion am yr Iaith Gymraeg</li> </ul>
12 Ionawr, 2017	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad yr Ymchwiliad iaith – Gwelededd y Gymraeg</li> <li>• Adroddiad yr Aelod Cabinet dros y Gymraeg</li> <li>• Briff Drafft ar gyfer yr Ymchwiliad iaith nesaf</li> <li>• Adroddiad Cynnydd ar y Prosiect – Y Gymraeg yn y Sector Gyhoeddus yng Ngwynedd</li> <li>• Cwynion am yr Iaith Gymraeg</li> </ul>
6 Ebrill, 2017	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad Diwedd Blwyddyn ar weithredu'r Safonau Iaith</li> <li>• Adroddiad yr Aelod Cabinet dros y Gymraeg</li> <li>• Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu o'r Awdit Iaith</li> <li>• Adroddiad yn ôl ar gynnydd o ran categoreiddio gofynion ieithyddol swyddi</li> <li>• Cwynion am yr Iaith Gymraeg</li> </ul>
Dim Dyddiad penodol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad ar y Canllaw Cynllunio Atodol Drafft sydd yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg</li> <li>• Adroddiad ar faterion allai godi o Gasgliadau Gweithgor Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg mewn Llywodraeth Leol</li> </ul>

2. Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor ar y raglen waith amlinellol